# YR ECONOMI WLEDIG A'R SYSTEM GYNLLUNIO

# ADRODDIAD TERFYNOL

**Paratowyd ar gyfer**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**gan**
**Land Use Consultants**
**mewn cydweithrediad â**
**Phrifysgol Gorllewin Lloegr ac**
**Atlantic Consultants**
**Awst 2002**

14 Great George Street
Bristol BS1 5RH
Ffôn: 01179 291 997
Ffacs: 01179 291 998
luc@bristol.landuse.co.uk

**CYDNABYDDIAETHAU**

Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym yn ddiolchgar iawn am y cymorth a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Lindsay Roberts fel Cadeirydd y Gr□p Llywio a Hawen Jones, swyddog enwebedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer yr astudiaeth (Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru). Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn am yr help a'r arweiniad a ddarparwyd gan aelodau eraill y Gr□p Llywio: Peter Samuel (Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio); Karen Maddock Jones (Cyngor Cefn Gwlad Cymru); Ann Watkin (Pennaeth Polisi Gwledig, Awdurdod Datblygu Cymru); Ross Murray (Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad); Martin Eaglestone (Prif Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn) ac Ian Roberts (Swyddog Cynorthwyol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog).

Mae ein dyled yn fawr hefyd i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol a oedd yn cwmpasu ein haneddiadau enghreifftiol, sef: Sir Ddinbych, Gwynedd, Conwy, Parc Cenedlaethol Eryri, Ceredigion, a Sir Gaerfyrddin. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r swyddogion a fu'n ein cynorthwyo wrth gasglu gwybodaeth ac a fu'n barod i gyfarfod â ni ar fyr rybudd i drafod y materion a oedd yn berthnasol i'r astudiaeth hon.

Hoffem ddiolch yn arbennig i'r rheini a fynychodd y pedwar gweithdy - dau yn Rhuthun a dau yn Llandeilo ac i'r busnesau gwledig hynny a gytunodd i gael eu cyfweld fel enghraifft o astudiaeth achos. Rydym yn ddiolchgar iawn am yr amser a roddwyd ac am y sylwadau diddorol a wnaed.

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn gan Land Use Consultants gyda Lyndis Cole yn gweithredu fel cyfarwyddwr ymchwil, gwaith Prifysgol Gorllewin Lloegr o dan arweiniad James Shorten a gwaith Atlantic Consultants o dan arweiniad John Forsyth. Cyfieithwyd y gwaith gan Prysg.

# CRYNODEB GWEITHREDOL

## DIBEN

Cynhaliwyd yr astudiaeth hon gan Land Use Consultants mewn cydweithrediad â Phrifysgol Gorllewin Lloegr ac Atlantic Consultants ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ei phrif ddiben fu ymchwilio *"sut gall y system gynllunio reoli busnesau mewn ffordd gadarnhaol wrth iddynt ddatblygu a'u hannog i wneud hynny mewn trefi a phentrefi gwledig er mwyn cynorthwyo arallgyfeirio gwledig a helpu i gadw cymunedau gwledig".* Mae'r gwaith ymchwil hwn yn ategu'r gwaith ymchwil a wnaed ar ran Llywodraeth y Cynulliad yn 2001 a oedd yn edrych ar arallgyfeirio ar ffermydd a'r system gynllunio.

## DULL YMCHWIL

Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar asesiad o gymeriad economaidd chwe thref farchnad enghreifftiol a'u haneddiadau cysylltiedig (pentrefi cyfagos ac aneddiadau gwasgaredig) a oedd yn cynrychioli ardaloedd lled drefol, ardaloedd gwledig hygyrch ac ardaloedd gwledig anghysbell o fewn parth gogleddol a deheuol:

Parth y Gogledd
Llanelwy (Lled Drefol)
Rhuthun (Gwledig Hygyrch)
Y Bala (Gwledig Anghysbell)

Parth y De
Rhydaman (Lled Drefol)
Llandeilo (Gwledig Hygyrch)
Tregaron (Gwledig Anghysbell)

Y tasgau penodol a gwblhawyd fel rhan o'r gwaith ymchwil oedd:

- Adolygiad o lenyddiaeth, gan gynnwys adolygiad o bolisi cenedlaethol, a chyfweliadau gydag ymgynghoreion cenedlaethol.
- Adolygiad o bolisïau'r cynllun datblygu sy'n ymwneud â'r aneddiadau enghreifftiol.
- Adolygiad o ystadegau yn seiliedig ar Wardiau i helpu i ddeall cymeriad economaidd yr aneddiadau enghreifftiol.
- Adolygiad o gofrestrau cynllunio er mwyn nodi ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu economaidd o fewn yr aneddiadau enghreifftiol ac o'u hamgylch ar gyfer y cyfnod o fis Mai 1998 - Mai 2001 wedi'i ddilyn gan astudiaeth fanwl o 20 o astudiaethau achos.
- Arolwg o fusnesau gwledig a wnaeth geisiadau cynllunio yn ystod y tair blynedd diwethaf drwy gyfrwng holiaduron drwy'r post.
- Cynnal dau seminar ymhob un o'r parthau enghreifftiol gan gynnwys rhanddeiliaid lleol, er mwyn helpu i nodweddu'r aneddiadau a nodi tueddiadau ar gyfer y dyfodol.

## CYD-DESTUN

Daw themâu clir i'r amlwg yn deillio o sylwebaeth a pholisi sy'n ymwneud â'r economi wledig yng Nghymru. Mae'r cryfderau wedi'u canolbwyntio ar ansawdd uchel yr amgylchedd gwledig yng Nghymru a'i gysylltiadau â chynnyrch amaethyddol a thwristiaeth a hamdden. Pwysleisir cymunedau cryf a hunaniaeth ddiwylliannol. Nodwyd llawer mwy o wendidau, gan gynnwys sail economaidd rhy gul, diffyg hygyrchedd, lefelau sgiliau is a manteisio ar TGCh, allfudo'r bobl ifanc, a chyfraddau gweithgarwch ac incwm isel, sy'n golygu lefel isel o dwf ac arloesedd. Ymhlith y nodweddion pwysig eraill mae rôl hanfodol busnesau bach a chanolig eu maint (SMEs) a micro-fusnesau yn yr economi wledig a dylanwad sylfaenol cymudo, nad oes dealltwriaeth dda ohono.

Ond nid yw'r gwahaniaethau rhwng economïau trefol a gwledig yn amlwg - mae'r dosbarthiad cyflogaeth yn ôl sector yn gyffredinol debyg i Gymru drefol, gyda'r sector gwasanaeth yn fwyaf amlwg o fewn yr economi wledig a chyda'r CMC y pen yng Nghymru wledig ond 1% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r cyfraddau diweithdra hefyd yn isel mewn ardaloedd gwledig.

Yn erbyn y cefndir hwn mae yna bellach amrywiaeth enfawr o bolisïau a mentrau sy'n effeithio ar yr economi wledig yng Nghymru. Fe'u beirniedir am fod diffyg cydlyniad rhyngddynt ac erbyn hyn cytunir yn gyffredinol fod angen integreiddio gwahanol bolisïau a chamau gweithredu. Cytunir yn gyffredinol hefyd fod angen

ymateb i amgylchiadau lleol, annog ymrymuso'r gymuned, cefnogi busnesau sy'n bodoli eisoes, datblygu'r sylfaen sgiliau lleol a meithrin gweithgarwch entrepreneuraidd - hynny yw gweithio gydag ardaloedd lleol. Cydnabyddir pwysigrwydd hanfodol yr amgylchedd i'r economi wledig yn gynyddol gyda pholisïau yn pwysleisio pwysigrwydd ychwanegu gwerth at gynnyrch gwledig ac annog yr economi werdd.

## PRIF GANFYDDIADAU

### Nodweddion economaidd

**Cymeriad trefi marchnad**: Er bod pob tref farchnad yn wahanol ac wedi datblygu o ganlyniad i'w hanes, eu lleoliad, eu hygyrchedd, eu maint a'u diwylliant, mae'r holl drefi marchnad a astudiwyd yn cynnwys enghreifftiau o nodweddion cenedlaethol. Mae cyflogaeth yn y sector gweinyddu cyhoeddus a gwasanaethau yn amlwg ymhob un ohonynt, gan gyfrif am dros 70% o'r unedau busnes a chan gyflogi rhwng 44% (lled drefol) a 93% (gwledig anghysbell) o'r cyflogeion - pwynt a ategir gan geisiadau cynllunio, gyda'r sector gwasanaeth a gweinyddu cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, yn cyfrif am 54% o'r holl geisiadau cynllunio economaidd. Fodd bynnag, bu swyddogaeth gwasanaeth y trefi marchnad yn gostwng gyda gweithgarwch manwerthu a swyddogaethau gweinyddol yn cael eu canoli yn gynyddol. Serch hynny, amlygir rôl ganolog barhaus ysgolion yn swyddogaeth gwasanaeth trefi marchnad - fel cyflogwyr allweddol ac wrth lunio cysylltiadau rhwng darpar gyflogeion y dyfodol a busnesau lleol.

Mae gan bob un o'r trefi marchnad enghreifftiol (ond un) farchnad da byw o hyd ac, mewn ardaloedd gwledig hygyrch ac anghysbell, maent yn dal i ddarparu swyddogaeth gwasanaeth i'r cymunedau amaethyddol o'u cwmpas. Ond mewn ardaloedd lled drefol prin yw nifer y busnesau amaethyddol sydd ar ôl o'u cymharu â'r nifer mewn trefi marchnad gwledig anghysbell lle y mae dros 60% o'r busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn dal yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth.

Yn ôl y disgwyl, ceir nifer o gyflogwyr mawr mewn trefi marchnad lled drefol (ym maes gweithgynhyrchu, adeiladu, dosbarthu a gweinyddu cyhoeddus) sy'n cyflogi dros 100 o bobl, tra ceir tueddiad tuag at fusnesau sy'n cyflogi llai na 10 o bobl mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell. Ar yr un pryd, mewn ardaloedd lled drefol, o ganlyniad i ddarparu dyraniadau mawr o dir i ddatblygu cyflogaeth, mae gweithgarwch economaidd yn cael ei symud o'r trefi marchnad, pwynt a gadarnheir gan geisiadau cynllunio, gyda'r aneddiadau cyfagos mewn sefyllfaoedd lled drefol yn derbyn mwy o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu economaidd na'r prif drefi marchnad. Efallai fod hyn yn syndod o gofio pwyslais polisïau cynllun datblygu ar gefnogi hierarchaeth aneddiadau ond mae'n adlewyrchu'r ffordd y caiff tir ei ryddhau ar gyfer datblygu economaidd ar hyd y prif goridorau ffyrdd ac ar ddiwedd y coridorau hynny.

Mae gan yr holl drefi marchnad a astudiwyd, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell, ymdeimlad cryf o gymuned gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg (yn arbennig mewn ardaloedd mwy anghysbell) a theyrngarwch mawr tuag at eu hardal leol a gwerthfawrogiad o ansawdd y bywyd a gynigir - yr ystyrir ei fod yn fwy na gwneud yn iawn am lefelau incwm is. Gellir priodoli llwyddiant grwpiau cymunedol fel Antur Penllyn i'r ffaith eu bod yn edrych ar ddyfodol eu tref farchnad (Y Bala) mewn ffordd realistig a thymor hir – gan gymryd camau araf ond pendant. Ar yr un pryd, mae nifer o drefi marchnad, yn arbennig y rheini mewn lleoliadau gwledig hygyrch, yn dechrau ail-lunio eu hunain fel canolfannau arbenigol gyda chlystyrau busnes yn dod i'r amlwg.

**Cymeriad busnesau gwledig unigol:** O'r 20 o astudiaethau achos a'r holiaduron a anfonwyd drwy'r post at fusnesau gwledig, ymddengys fod y canlynol ymhlith nodweddion allweddol busnesau gwledig: pwyslais ar ficro fusnesau ac SMEs; entrepreneuriaeth cryf gyda busnesau unigol yn dibynnu ar ymroddiad un neu ddau o bobl; llawer ohonynt wedi dechrau yn ystod y 10 mlynedd diwethaf a chanddynt gynlluniau ehangu uchelgeisiol - mae 77% o'r ceisiadau cynllunio am ddatblygu economaidd yn ymwneud ag ehangu busnesau sy'n bodoli eisoes. Ymhlith nodweddion eraill ceir ymdeimlad cryf o obaith, gyda rhai busnesau gwledig wedi llwyddo i ddenu marchnad genedlaethol neu hyd yn oed ryngwladol o leoliadau anghysbell. Ymhlith atyniadau lleoliad gwledig mae eiddo rhad, grantiau, gweithio yn Gymraeg, a gweithio'n agos at wreiddiau teuluol. Mae mwyafrif y busnesau hyn yn cyflogi pobl leol heb sgiliau ac yn cynnig hyfforddiant yn y swydd (wedi'i gysylltu'n aml â chyflawni CGC) a

hyblygrwydd o ran oriau gwaith sy'n addas ar gyfer cyflogeion lleol.

### Cynllunio

**Polisi cynllunio lleol:** Disodlwyd *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio, Diwygiad Cyntaf* (1999) erbyn hyn gan *Polisi Cynllunio Cymru* (2002). Roedd y cyntaf yn datgan cefnogaeth gyffredinol i ddatblygu economaidd ac arallgyfeirio gwledig tra bod yr ail yn fwy soffistigedig, gan roi arweiniad manwl ar ddatblygiad cynaliadwy ac arallgyfeirio gwledig. Rhoddir cefnogaeth benodol i'r economi werdd, clystyrau busnes a thechnoleg, a diwallu anghenion cymdeithasol sefydledig drwy fathau penodol o ddatblygu. Awgrymir hefyd y dylai awdurdodau cynllunio lleol baratoi strategaethau datblygu gwledig integredig er mwyn hwyluso'r broses o arallgyfeirio o fewn yr economi wledig.

**Polisïau cynllun datblygu:** Gan fod yr arweiniad cenedlaethol diweddar yn gymharol newydd dim ond ar rai o'r cynlluniau datblygu diweddaraf y mae wedi dylanwadu. Serch hynny, rhydd y cynlluniau gefnogaeth gyffredinol i arallgyfeirio gwledig, gan ganolbwyntio'r rhan fwyaf o'r datblygiadau ar aneddiadau mwy. Dyrennir amrywiaeth o safleoedd o dri math ar gyfer datblygu economaidd: safleoedd strategol; safleoedd ar gyfer anghenion lleol; a safleoedd dwysedd is o ansawdd uchel.

**Penderfyniadau rheoli datblygu:** O'r 199 o geisiadau a wnaed ar gyfer gweithgareddau datblygu economaidd yn ystod y tair blynedd diwethaf ar draws yr aneddiadau enghreifftiol, cymeradwywyd 87% ohonynt, gwrthodwyd 8% ohonynt a thynnwyd 5% ohonynt yn ôl, sy'n agos at y gyfradd gymeradwyaeth gyffredinol yn y DU. Fel arfer mae'r rhesymau dros wrthod yn ymwneud â materion sy'n gyffredin i bob math o gais cynllunio ac anaml y maent yn ymwneud â'r egwyddor o ddatblygu economaidd. Yn fwyaf aml bydd amodau yn ymdrin â materion cynllunio cyffredin a phan fyddant yn ceisio rheoli agweddau ar y defnydd, anaml y ceir gwrthwynebiadau. Dim ond cyfran fach o faich gwaith awdurdodau cynllunio yw ceisiadau datblygu economaidd gwledig, gan mai dim ond nifer fach ohonynt a dderbynnir (7 cais cynllunio ar gyfartaledd bob blwyddyn mewn tref farchnad lled drefol gyda phoblogaeth o 8,000 o bobl). Felly nid oes llawer i awgrymu fod penderfyniadau rheoli datblygiad yn rhwystr arwyddocaol i ddatblygu economaidd. Y brif broblem yw'r cyfnod hir o amser a gymerir wrth benderfynu ar fwyafrif y ceisiadau cynllunio hyn, a all gael sgîl-effaith sylweddol iawn ar fusnes bach.

## CASGLIADAU

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau yn awgrymu bod polisi cynllunio yn gyffredinol yn croesawu datblygu economaidd.

Ond rôl adweithiol sydd gan y system gynllunio ar y cyfan, yn bennaf oherwydd na all wneud llawer i gyfeirio datblygiad o'r fath yn absenoldeb pwysau sylweddol am ddatblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

Yn bwysig, mae'r chwe thref marchnad enghreifftiol wedi dangos, yn groes i'r farn gyffredin, bod yno ysbryd entrepreneuraidd y gall economïau newydd ffynnu arno yn amlwg mewn ardaloedd gwledig wedi'i gysylltu ag amgylchiadau lleol. Maent hefyd wedi dangos cymhlethdodau amrywiol economïau a chymunedau aneddiadau gwledig. Ond ar hyn o bryd nid yw'r system gynllunio yn deall nac yn ymdrin â'r cymhlethdodau hyn. Dim ond rhai o'r materion perthnasol yr ymdrinnir â hwy o fewn Strategaethau Datblygu Economaidd a dogfennau tebyg. Noda swyddogion cynllunio nad ydynt yn teimlo bod digon o gysylltiad rhyngddynt â'r economi leol. Noda swyddogion datblygu economaidd gysylltiadau amrywiol, sy'n aml yn wan, â'u cydweithwyr cynllunio.

Felly mae effaith y system gynllunio ar ddatblygu economaidd gwledig, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn isel.

## ARGYMHELLION

Roedd yr astudiaeth hon yn ymwneud â nodi sut y gallai'r system gynllunio chwarae rôl fwy cadarnhaol wrth annog datblygu economaidd gwledig mewn ardaloedd gwledig.

Yn unol â syniadau eraill sy'n dod i'r amlwg, mae'r astudiaeth hon yn gadarn o blaid yr angen i gydlynu ac integreiddio'r polisïau, y rhaglenni a'r gweithgareddau niferus sydd bellach yn effeithio ar yr economi wledig. Mae hefyd yn gadarn o blaid datblygu polisïau a chamau

gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o gyfleoedd ac anghenion lleol. Cytunir yn gyffredinol y dylai egwyddorion cynaladwyedd fod yn sail i ddatblygu gwledig yn y dyfodol. Ystyrir fod datblygiad a chyfranogiad cymunedau ym maes datblygu gwledig yn hanfodol. Nodir datblygu strategaethau datblygu gwledig integredig, fel yr argymhellir gan *Polisi Cynllunio Cymru* (2002), fel un ffordd o gynorthwyo'r system gynllunio wrth gymryd ymagwedd fwy pro-actif a gweithio gydag anghenion a chyfleoedd lleol.

O ystyried hynny, gwneir yr argymhellion canlynol.

NI ddylid newid deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd ond argymhellir y canlynol:

### Arweiniad cenedlaethol

***1***: *Mae angen paratoi cynlluniau datblygu yn gynnar er mwyn cysylltu â chynlluniau a strategaethau eraill* (gan adlewyrchu'r polisi cynllunio cenedlaethol cyfredol)**.**

***2:*** *Dylai Cynllun Gofodol Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol ymdrin â datblygu gwledig integredig.*

***3:*** *Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol reoli'r broses o baratoi a defnyddio strategaethau datblygu gwledig integredig, gan gynnwys y goblygiadau o ran adnoddau***.**

**4:** *Wrth i strategaethau datblygu gwledig integredig gael eu datblygu ledled Cymru, dylai Llywodraeth y Cynulliad (a) monitro datblygiad y strategaethau a darparu adnodd o strategaethau wedi'u cwblhau a dogfennau cysylltiedig ar y we; a (b) darparu asesiad rheolaidd o'r gwaith ar strategaethau datblygu gwledig integredig gan ddiweddaru polisi ac arweiniad cenedlaethol yn unol â hynny.*

***5:*** *Dylai Llywodraeth y Cynulliad annog pob cynllun a strategaeth sy'n cael eu paratoi ar gyfer ardaloedd gwledig i ystyried yr angen am feddwl integredig***.**

**6:** *Mae angen arweiniad pellach ar yr economi werdd a chlystyrau busnes a thechnoleg mewn diwygiad o TAN 6***.**

***7:*** *Dylai cynrychiolwyr cenedlaethol o'r gymuned ffermio nodi'r anghenion tebygol o ran datblygu ar gyfer ychwanegu gwerth at gynnyrch fferm***.**

***8:*** *Dylai'r RTPI/CLILC gynnal cyfres o weithdai rhanbarthol ar ddatblygu gwledig integredig ar gyfer y gymuned gynllunio***.**

**9:** *Dylai'r RTPI/CLILC hyrwyddo rôl bro-actif cynllunio wrth arallgyfeirio'r economi wledig.*

***10:*** *Dylai Llywodraeth y Cynulliad amlygu Ansawdd Bywyd cymaint â CMC fel dangosydd o hyfywdra a chynaliadwyedd cymunedau ac economïau gwledig.*

### Arweiniad lleol

***11:*** *Dylai awdurdodau lleol ystyried paratoi strategaeth datblygu gwledig integredig i dywys a chydlynu polisi, rhaglenni a phenderfyniadau sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig.*

***12:*** *Dylai awdurdodau cynllunio lleol seilio eu polisïau ar gyfer eu hardaloedd gwledig ar ddealltwriaeth glir o amgylchiadau lleol***.**

***13*:** *Dylai polisïau cynlluniau datblygu ar gyfer arallgyfeirio gwledig fod yn seiliedig ar feini prawf.*

***14*:** *Dylai polisïau (a phenderfyniadau) lleol ystyried arallgyfeirio gwledig sy'n ymwneud â chynnyrch coedwigaeth yn yr un ffordd ag arallgyfeirio gwledig sy'n ymwneud â chynnyrch amaethyddol.*

### Gweithdrefnau lleol

***15*:** *Gallai awdurdodau lleol ystyried sefydlu ffora i roi cyngor ar ddyfodol economïau gwledig lleol***.**

***16:*** *Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cyswllt rheolaidd rhwng gwahanol adrannau ac is-adrannau'r awdurdod sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ag arallgyfeirio'r economi wledig***.**

***17:*** *Dylid penodi swyddogion rheoli datblygu gyda chefndir neu hyfforddiant ym maes datblygu economaidd gwledig i ymdrin â cheisiadau ar gyfer datblygu economaidd.*

***18:*** *Dylid sicrhau bod cyngor ar gael yn hawdd cyn gwneud cais. Dylid cofnodi unrhyw gyngor a roddir cyn gwneud cais.*

***19:*** *Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cynhyrchu rhestr wirio ar gyfer datblygu economaidd er mwyn caniatáu i ymgeiswyr gael argraff gynnar o'r gofynion ar gyfer datblygu o'r fath.*

**Gwaith ymchwil pellach**

***20:*** *Dylid gwneud gwaith ymchwil i rolau trefi marchnad yng Nghymru yn yr oes sydd ohoni ac yn y dyfodol.*

***21:*** *Dylid gwneud gwaith ymchwil i natur cymudo yng Nghymru wledig.*

***22:*** *Dylid gwneud gwaith ymchwil i effeithiau datblygu ar safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth wledig.*

***23:*** *Mae angen dealltwriaeth well o ddyfodol gweithio o gartref i'r economi wledig.*

***24:*** *Dylid gwneud gwaith ymchwil i'r gydberthynas rhwng yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a'r system gynllunio yng Nghymru wledig.*

Land Use Consultants
Awst 2002

# CYNNWYS

**Cydnabyddiaethau**

**Crynodeb Gweithredol**

**1. Cyflwyniad ..... 1**

**2. Cefndir a chyd-destun ..... 15**

**3. Polisïau cynllunio ..... 34**

**4. Nodweddion y trefi marchnad a'u haneddiadau cysylltiedig ..... 48**

**5. Adolygu ceisiadau cynllunio ..... 68**

**6. Canfyddiadau allweddol ..... 83**

**7. Argymhellion ..... 99**

**Llyfryddiaeth**

**Atiodiad 1: Ymgynghoreion Cenedlaethol**

# TABLAU

Tabl 1.1: Yr aneddiadau enghreifftiol - parth y gogledd ..... 8

Tabl 1.2: Yr aneddiadau enghreifftiol: parth y de ..... 8

Tabl 1.3: Wardiau sy'n cynrychioli'r aneddiadau unigol ..... 12

Tabl 2.1: CMC y pen yng Nghymru ..... 15

Tabl 3.1: Y cynlluniau a adolygwyd ..... 38

Tabl 3.2: Dyraniadau safle ar gyfer datblygu diwydiannol o fewn yr aneddiadau enghreifftiol ..... 44

Tabl 4.1: Nodweddion socio-economaidd yn ôl sir ..... 50

Tabl 4.2: Gwasanaethau yn ôl tref ..... 50

Tabl 4.3: Cyfanswm nifer yr unedau busnes a'r cyflogeion (Lled Drefol) ..... 51

Tabl 4.4 a: % yr unedau busnes yn ôl nifer y cyflogeion ..... 51

Tabl 4.4 b: % y cyflogeion yn ôl maint yr uned ..... 52

Tabl 4.5: Unedau busnes a chyflogeion yn ôl sector (Lled Drefol) ..... 52

Tabl 4.6: Gwasanaethau yn ôl tref ..... 55

Tabl 4.7: Cyfanswm nifer yr unedau busnes a'r cyflogeion (Gwledig Hygyrch) ..... 56

Tabl 4.8 a: % yr unedau busnes yn ôl nifer y cyflogeion (Gwledig Hygyrch) ..... 56

Tabl 4.8 b: % y cyflogeion yn ôl maint yr uned (Gwledig Hygyrch) ..... 56

Tabl 4.9: Unedau busnes a chyflogeion yn ôl sector (Gwledig Hygyrch) ..... 57

Tabl 4.10: Nodweddion socio-economaidd yn ôl Sir ..... 60

Tabl 4.11: Gwasanaethau yn ôl tref ..... 60

Tabl 4.12: Cyfanswm nifer yr unedau busnes a'r cyflogeion (Gwledig Anghysbell) ..... 61

Tabl 4.13 a: % yr unedau busnes yn ôl nifer y cyflogeion .... 61
Tabl 4.13 b: % y cyflogeion yn ôl maint yr uned .... 61
Tabl 4.14: Unedau busnes a chyflogeion yn ôl sector (Gwledig Anghysbell) .... 62
Tabl 4.15: Cymhariaeth o ran nifer yr unedau bach rhwng y trefi marchnad a'u haneddiadau cyfagos .... 64
Tabl 4.16: Cymhariaeth o ran % y busnesau amaethyddol rhwng y trefi marchnad a'u haneddiadau cyfagos .... 64
Tabl 4.17: Patrymau teithio i'r gwaith .... 65
Tabl 5:1: Nifer y ceisiadau cynllunio yn ôl anheddiad (cyfansymiau tair blynedd) .... 72
Tabl 5.2: Ceisiadau economaidd y pen o'r boblogaeth (trefi marchnad) .... 72
Tabl 5.3: Ceisiadau economaidd y pen o'r boblogaeth (aneddiadau cyfagos) .... 73
Tabl 5.4: Ceisiadau economaidd sy'n ymwneud ag ystadau diwydiannol .... 73
Tabl 5.5: Y 15 gweithgaredd datblygu economaidd mwyaf poblogaidd .... 74
Tabl 5.6: Ceisiadau economaidd o fewn trefi marchnad unigol[1] .... 74
Tabl 5.7: Ehangu busnesau .... 75
Tabl 5.8: Goblygiadau Gweithgaredd Arallgyfeirio ar Arwynebedd Llawr .... 78
Tabl 5.9: Cyfraddau cymeradwyaeth .... 79
Tabl 5.10: Penderfyniadau cynllunio yn ôl math o ddatblygiad .... 79
Tabl 5.11: Cyfraddau cymeradwyaeth yn ôl math o anheddiad .... 80
Tabl 5.12: Rhesymau dros wrthod yn ôl gweithgaredd economaidd .... 80
Tabl 5.13: Amodau .... 81

# FFIGURAU

Ffig 1.1: Parth yr astudiaeth .... 5
Ffig 1.2: Parth y Gogledd .... 6
Ffig 1.3: Parth y De .... 7
Ffig 2.1: Cyflogaeth yn ôl sector .... 17
Ffig 2.2: Busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn ôl sector .... 18
Ffig 2.3: Ardaloedd Amcan 1,2 ac ardaloedd trosiannol .... 24
Ffig 5.1: Math o dref farchnad a gweithgaredd arallgyfeirio .... 76
Ffig 5.2: Gweithgaredd datblygu economaidd yn ôl math o anheddiad .... 77

# BLYCHAU

Blwch 1.1: Dewis astudiaethau achos .... 11

# 1. CYFLWYNIAD

1.1. Cynhaliwyd yr astudiaeth hon o'r *Economi Wledig a'r System Gynllunio* gan Land Use Consultants (LUC) mewn cydweithrediad â Phrifysgol Gorllewin Lloegr (UWE) ac Atlantic Consultants ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r astudiaeth hon ategu'r gwaith a gwblhawyd gan LUC ac UWE ar ran Llywodraeth y Cynulliad a oedd yn ystyried *Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio* (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2001).

1.2. Un o elfennau allweddol polisi Llywodraeth y Cynulliad yw cynorthwyo i ddatblygu cymunedau gwledig cynaliadwy a llewyrchus, o fewn economi wledig gref, sy'n gartref i amrywiaeth eang o fusnesau sy'n manteisio'n llawn ar adnoddau a chyfleoedd busnes lleol.

1.3. Mae Llywodraeth y Cynulliad, llawer o awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn pryderu am effaith incwm gostyngol ffermydd ar gymunedau lleol a'r economi wledig, ffaith a amlygwyd gan argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau, ac maent yn ceisio nodi mesurau priodol i wrth-droi'r duedd hon. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod yn rhaid i'r system gynllunio ddarparu polisïau cynllunio priodol er mwyn i economi wledig eang a chryf ddatblygu tra'n darparu ar gyfer cefn gwlad cynaliadwy.

## DIBEN AC AMCANION

1.4. Yn erbyn y cefndir hwn, bu nodau ac amcanion y gwaith ymchwil hwn fel a ganlyn.

1.5. **Diben** y gwaith ymchwil fu:

- *"nodi graddfa a natur yr anghenion cynllunio sy'n deillio o'r newidiadau tebygol i'r economi wledig o ganlyniad i newidiadau i'r diwydiant amaethyddol;*
- *ymchwilio i sut y gall y system gynllunio reoli busnesau mewn ffordd gadarnhaol wrth iddynt ddatblygu a'u hannog i wneud hynny mewn ardaloedd gwledig er mwyn cynorthwyo wrth gynnal cymunedau gwledig."*

1.6. Fel y nodir ym mharagraff 1.8 isod, bu ffocws yr astudiaeth hon ar ddatblygu economaidd **o fewn trefi a phentrefi gwledig.** O fewn y lleoliadau diffiniedig hyn, **amcanion** y gwaith ymchwil oedd:

- *"sefydlu sut y gellir defnyddio'r system gynllunio, polisïau cynllunio, cyngor technegol, amodau a rhwymedigaethau cynllunio a dulliau eraill i hwyluso datblygu economaidd, heb gael effaith andwyol ar yr amgylchedd, diwylliant lleol ac amcanion cynllunio eraill. Dylid rhoi pwyslais arbennig ar dwristiaeth wledig a phrosesu cynnyrch amaethyddiaeth a choedwigaeth lleol ond heb eithrio mathau eraill o ddatblygu (ee aml-gyfrwng, biodechnoleg, cynnyrch amgylcheddol, gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon a hamdden);*
- *archwilio pa mor briodol y mae gwahanol fathau a graddau o ddatblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig ac archwilio effaith y mentrau hyn ar yr amgylchedd ac isadeiledd, gan argymell meini prawf y gellir asesu datblygu economaidd cynaliadwy yn eu herbyn;*

- *gwneud argymhellion ar sut i gynyddu effeithiau cadarnhaol a gwella effeithiau negyddol y system gynllunio ar ddatblygu economaidd gwledig;*

- *asesu'r polisi cynllunio cyfredol ar gyfer rheoli datblygu economaidd yng nghefn gwlad;*

- *ystyried y posibilrwydd o ddiwygio deddfwriaeth eilaidd/llacio rheolaethau cynllunio er mwyn annog mathau mwy cynaliadwy o brojectau arallgyfeirio a gwneud argymhellion;*

- *ystyried anghenion datblygu gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru wledig (ee gwledig anghysbell, gwledig datblygedig) ac ystyried pa un a yw'r polisïau cynllunio cyfredol yn darparu'n ddigonol ar eu cyfer, a gwneud argymhellion;*

- *ystyried y posibilrwydd o gymryd camau cadarnhaol i annog datblygiad cynaliadwy."*

### Beth yw Cymru wledig?

1.7. I ryw raddau, cyfyngir ar unrhyw ymchwiliad i gyflwr yr economi wledig yng Nghymru, gan ddiffyg diffiniad cytûn o 'Gymru wledig'. Yn wir, argymhellodd Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Llywodraeth y Cynulliad y dylid cytuno ar ddiffiniad cyson o Gymru wledig. Drwy amrywiaeth o astudiaethau, cynigiwyd amrywiol ddehongliadau ac yn ddiweddar daethpwyd i gytundeb bras o fewn dogfennau polisi cenedlaethol a baratowyd gan Lywodraeth y Cynulliad (er enghraifft fel y gwelir yn *Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* 2001). Cymera fod awdurdodau unedol Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro a Phowys yn rhan o Gymru wledig, er gwaethaf yr anfantais amlwg eu bod yn cynnwys ardaloedd trefol sylweddol eu maint a bod yr ardaloedd awdurdod unedol sy'n weddill (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir y Fflint, Merthyr, Castell-nedd a Phort Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Tor-faen, Bro Morgannwg a Wrecsam) hefyd yn cynnwys ardaloedd sylweddol eu maint o gefn gwlad (yn y rhaniad hwn, eithriwyd awdurdodau Caerdydd a Chasnewydd sy'n bennaf drefol). Felly mae'r diffiniad benthyg hwn ar gyfer Cymru wledig yn ddefnyddiol ond efallai nad yw'n darparu darlun cyflawn.

## FFOCWS YR ASTUDIAETH HON

1.8. Fel y nodwyd yn y brîff ar gyfer yr astudiaeth hon, *"mae arallgyfeirio gwledig, yn wahanol i arallgyfeirio ar ffermydd, yn ymwneud ag arallgyfeirio economi trefi a phentrefi gwledig wrth iddynt symud o ddarparu gwasanaethau cymorth amaethyddol i ddarparu ffynonellau cyflogaeth newydd (ee twristiaeth a TG)"*. Ffocws yr astudiaeth hon, felly, fu'r rhyngweithio rhwng datblygu economaidd a chynllunio o fewn **trefi a phentrefi gwledig.** Yn arbennig, canolbwyntiodd yr astudiaeth ar gyfanswm o chwe ardal enghreifftiol ledled Cymru, wedi'u rhannu i:

- Dwy ardal sy'n nodweddiadol o leoliadau **lled drefol**

- Dwy ardal sy'n nodweddiadol o ardaloedd **gwledig hygyrch**

- Dwy ardal sy'n nodweddiadol o ardaloedd **gwledig anghysbell**

1.9. O fewn pob un o'r ardaloedd enghreifftiol hyn detholwyd hierarchaeth o aneddiadau:

- Tref farchnad
- Dau bentref
- Dau bentref bach/ardaloedd o aneddiadau gwasgaredig

1.10. Rhoddodd hyn gyfanswm enghreifftiol o chwe thref farchnad, 12 pentref, a 12 anheddiad gwasgaredig yn sail i'r gwaith ymchwil hwn i bolisïau cynllunio, ceisiadau cynllunio a ffactorau eraill sy'n effeithio ar arallgyfeirio gwledig.

### Dewis yr aneddiadau enghreifftiol

1.11. Gan nad oes unrhyw ffordd glir o ddosbarthu Cymru wledig yn gategorïau lled drefol, gwledig hygyrch a gwledig anghysbell ar hyn o bryd, nodwyd hierarchaethau o aneddiadau enghreifftiol fel a ganlyn:

a) Yn y Cyfarfod Sefydlu ar gyfer yr ymchwil, yn seiliedig ar wybodaeth y Gr□p Llywio client, nodwyd ardaloedd chwilio bras, gan symud o ardaloedd lled drefol tybiedig, drwy ardaloedd gwledig hygyrch, i ardaloedd gwledig anghysbell.

b) O fewn pob un o'r ardaloedd chwilio hyn, gan ddefnyddio data economaidd a data arall, nodwyd tair neu bedair tref farchnad a oedd wedi'u dosbarthu'n amlwg o fewn pob categori o ardal wledig. Hynny yw, teimlwyd ei bod yn bwysicach nodi aneddiadau gwledig enghreifftiol a oedd yn nodweddiadol o'r gwahanol gategorïau o ardal wledig, yn hytrach na threulio amser yn ceisio diffinio'r ffin rhwng y gwahanol gategorïau o ardal wledig (a fyddai rywfaint yn fympwyol beth bynnag).

c) Wedyn nodwyd yr hierarchaeth aneddiadau (pentrefi ac aneddiadau gwasgaredig) a wasanaethir gan bob tref farchnad, eto gan ddefnyddio'r data economaidd uchod.

d) Yn olaf, cytunwyd ar y trefi marchnad a ddewiswyd mewn cyfarfod (estynedig) o'r Gr□p Llywio ar gyfer y gwaith ymchwil hwn. Wedyn dilyswyd y dewis hwn a gwnaed y dewis terfynol o ran aneddiadau cysylltiedig mewn dau weithdy, un yn cael ei gynnal o fewn pob un o'r prif ardaloedd chwilio.

1.12. Penderfynwyd y dylai'r ddau brif baramedr y cytunwyd arnynt i helpu i ddewis ardaloedd chwilio, gyda'i gilydd, adlewyrchu:

- gwahanol ardaloedd daearyddol Cymru

- gwahanol fathau o benodiad amgylcheddol, gan gwmpasu Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ac Arfordiroedd Etifeddiaeth posibl.

### Y meini prawf a ddefnyddiwyd i nodi gwahanol fathau o anheddiad

1.13. Y meini prawf allweddol a ddefnyddiwyd i ddiffinio trefi marchnad yng Nghymru oedd:

- tref gyda phoblogaeth o rhwng 3,000 – 5,000. Mewn ardaloedd gwledig hygyrch ac anghysbell gallai'r boblogaeth fod yn llai na hynny, er y dylai'r dref fod yn ganolfan gwasanaethau amlwg ar gyfer yr ardaloedd gwledig o'i hamgylch - gweler isod

- dylai'r dref fod yn safle i farchnad bresennol neu farchnad hanesyddol (da byw a/neu farchnad Siarter)

- dylai fod gan y dref swyddogaeth glir fel canolfan wasanaethau'r ardal wledig o'i hamgylch, wedi'i mynegi gan bresenoldeb:
  - o leiaf un ysgol gynradd
  - o leiaf un ysgol uwchradd
  - o leiaf un gwesty
  - gwasanaethau ariannol gan gynnwys o leiaf un banc ac o bosibl gymdeithas adeiladu
  - gwasanaethau meddygol fel meddygfa neu ganolfan feddygol
  - gwasanaethau proffesiynol (ee cyfreithiwr)
  - o leiaf pum siop, gan gynnwys siopau cymharol fel dillad
  - swyddfa bost


1.14. Y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddiffinio **pentref mawr** oedd: presenoldeb swyddfa bost, ysgol gynradd neu dafarn, tra y diffiniwyd **aneddiadau gwasgaredig** fel ardaloedd heb unrhyw wasanaethau ond yn cynnwys tua 20-40 o dai.

### Yr aneddiadau enghreifftiol a ddewiswyd

1.15. O ganlyniad i'r ymarfer hwn dewiswyd parth y gogledd a pharth y de **(Ffig 1.1)**, gyda'r chwe thref farchnad ganlynol yn llunio sail i'r gwaith ymchwil hwn:

**Parth y Gogledd (Ffig 1.2)**
- Llanelwy (Lled Drefol)
- Rhuthun (Gwledig Hygyrch)
- Y Bala (Gwledig Anghysbell)

**Parth y De (Ffig 1.3)**
- Rhydaman (Lled Drefol)
- Llandeilo (Gwledig Hygyrch)
- Tregaron (Gwledig Anghysbell)




Atgynhyrchwyd o wybodaeth Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, Hawlfraint y Goron, Land Use Consultants, Rhif y Drwydded ALD852368

**Cymru**


**Ffigur 1.1:**
**Parth yr Astudiaeth**

**Allwedd**

- Parth yr Astudiaeth
- Tref Farchnad
- Ffin genedlaethol
- Arfordir

LAND USE CONSULTANTS
43 Chalton Street
London NW1 1JD
Ffôn: 020 7383 5784
Ffacs: 020 7383 4798
Luc@london.landuse.co.uk

2216.01_wales_figure1_welsh_version




Atgynhyrchwyd o wybodaeth Arolwg Ordnans gyda chaniatad Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, Hawlfraint y Goron, Land Use Consultants, Rhif y Drwydded ALD852368

# Cymru


**Ffigur 1.2:**
**Parth y Gogledd**

**Allwedd**

- Parth yr Astudiaeth
- Tref Farchnad
- Pentref Mawr
- Anheddiad Gwasgaredig
- Ffin genedlaethol
- Arfordir

LAND USE CONSULTANTS
43 Chalton Street
London NW1 1JD
Ffôn: 020 7383 5784
Ffacs: 020 7383 4798
Luc@london.landuse.co.uk

2216.01_wales_figure2_welsh_version




**Ffigur 1.3:**
**Parth y De**

1.16. Felly roedd yr hierarchaeth aneddiadau terfynol y cytunwyd arni ac a oedd yn sail i'r gwaith ymchwil hwn fel y nodir yn **Nhablau 1.1**ac **1.2**.

### Tabl 1.1: Yr aneddiadau enghreifftiol - parth y gogledd

**Llanelwy (Lled Drefol)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | Poblogaeth yr anheddiad | Poblogaeth y ward* |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | **Llanelwy** | 3,384 (1) | 3,399 |
| Pentref | Rhuallt | 607 (2) | 1,454 |
| Pentref | Trefnant | 1,243 (1) | 1,722 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Bont-newydd | <100 (2) | 1,930 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Groesffordd Marli | 382 (2) | 1,720 |

**Rhuthun (Gwledig Hygyrch)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | Poblogaeth yr anheddiad | Poblogaeth y ward* |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Rhuthun | 5,299 (1) | 5,029 |
| Pentref | Cyffylliog | 473 (1) | 1,075 |
| Pentref | Pwll Glas | 497 (2) | 2,059 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Melin-y-Wig | 120 (2) | 2,361 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Pentre-Celyn | 655 (2) | 1,351 |

**Y Bala (Gwledig Anghysbell)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | Poblogaeth yr anheddiad | Poblogaeth y ward |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | **Y Bala** | 1,922 (4) | 1,922 |
| Pentref | Cerrigydrudion | 790 (5) | 1,470 |
| Pentref | Llanuwchllyn | 275 (4) | 926 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Llandderfel | 347 (4) | 1,552 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Frongoch | 78 (4) | 1,552 |

Mae poblogaethau aneddiadau yn seiliedig ar nifer o ffynonellau, gyda'r ffynonellau diweddaraf yn cael eu dewis lle y bo'n bosibl:

(1) Amcangyfrif o Boblogaethau Cymunedau, 1999 Cyngor Sir Dinbych
(2) Poblogaethau Aneddiadau Data cyfrifiad 1991 a ddelir gan Wasanaethau Gwybodaeth Cyngor Sir Dinbych. Noder yn achos rhai aneddiadau, fod yr ystadegau ar gyfer y boblogaeth yn cyfuno aneddiadau fel a ganlyn:
  - Groesffordd Marli a Chefnmeiriadog – 382
  - Pwll Glas ac Efenechtyd – 497
  - Pentre-Celyn a Chraig Fechan - 655
(3) Amcangyfrifon Cynghorau Cymuned 2000, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
(4) Poblogaethau Aneddiadau cyfrifiad 1991, Cyngor Sir Gwynedd

### Tabl 1.2: Yr aneddiadau enghreifftiol: parth y de

**Rhydaman (Lled Drefol)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | Poblogaeth yr anheddiad | Poblogaeth y ward |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Rhydaman | 8,100 (5) | 5,153 |
| Pentref | Capel Hendre | 1,000 (5) | 3,200 |
| Pentref | Llandybie | 2,900 (5) | 3,537 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Milo | <100 (5) | 2,200 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Pantyffynnon | 1,200 (5) | 1,215 |

**Llandeilo (Gwledig Hygyrch)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | Poblogaeth yr anheddiad | Poblogaeth y ward |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Llandeilo | 1,645 (5) | 1,708 |
| Pentref | Cwmifor | <100 (5) | 1,666 |
| Pentref | Talyllychau | 400 (5) | 968 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Derwen Fawr | <100 (5) | 1,740 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Trapp | <100 (5) | 1,155 |

**Tregaron (Gwledig Anghysbell)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | Poblogaeth yr anheddiad | Poblogaeth y ward |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Tregaron | 940 (6) | 1,177 |
| Pentref | Llangeitho | 130 (6) | 1,460 |
| Pentref | Pontrhydfendigaid | 430 (6) | 2,052 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Blaenpennal | 20 (6) | 1,460 |
| Anheddiad Gwasgaredig | Cwmystwyth | 40 (6) | 1,837 |

Mae poblogaethau aneddiadau yn seiliedig ar nifer o ffynonellau, gyda'r ffynonellau diweddaraf yn cael eu dewis lle y bo'n bosibl:

(5) Poblogaethau Aneddiadau data cyfrifiad 1991 a ddelir gan Wasanaethau Gwybodaeth Cyngor Sir Caerfyrddin. Noder: mae'r ffigur ar gyfer Rhydaman yn cynnwys Pantyffynnon
(6) Amcangyfrifon Poblogaethau Ardaloedd Bach Ceredigion 1996

Daw'r ffigurau ar gyfer poblogaethau Wardiau o Gyfrifiad 1991. Dyma'r arolwg cynhwysfawr diweddaraf o'r boblogaeth sydd ar gael o hyd. Ni fydd data o Gyfrifiad 2001 ar gael tan 2003. Fodd bynnag, nid yw ystadegau Ward yn awgrym cywir o faint aneddiadau - mae aneddiadau yn cynnwys nifer o Wardiau nad ydynt o reidrwydd yn dilyn ffiniau'r anheddiad. Yn yr un modd, mewn ardaloedd gwledig, gallai un Ward unigol gwmpasu ardal sylweddol gan gynnwys nifer o aneddiadau. Mae'r amcangyfrifon o'r poblogaethau ar gyfer yr aneddiadau unigol yn amlygu cyfyngiadau data am Wardiau. Er enghraifft, ym Mlaenpennal a Chwmystwyth, yr amcangyfrifir bod gan yr aneddiadau 20 o bobl yn y naill a 40 o bobl yn y llall, dengys y data cyfatebol ar gyfer y Ward boblogaethau o fwy na 1,000 yr un.

---

1.17. Mae'n rhaid pwysleisio mai astudiaeth genedlaethol yw'r astudiaeth sy'n edrych ar oblygiadau cynllunio arallgyfeirio gwledig. Defnyddiwyd aneddiadau enghreifftiol (fel y'u disgrifir uchod) i lywio'r gwaith ymchwil ac i sicrhau bod y casgliadau y deuir iddynt yn seiliedig ar realiti. Fodd bynnag, ni honnir mewn unrhyw ffordd fod y wybodaeth a gyflwynir ar yr aneddiadau unigol yn darparu dadansoddiad trwyadl o bob agwedd ar eu heconomi leol. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen astudiaeth fanylach, ar wahân.

## METHODOLEG YR YMCHWIL

1.18. Roedd y tasgau penodol yr ymgymerwyd â hwy fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn fel a ganlyn:

1. **Gosod y cyd-destun: *adolygiad o lenyddiaeth ac ymgynghoriadau cenedlaethol:*** Er mwyn darparu cyd-destun i'r astudiaeth, cynhaliwyd sgyrsiau wyneb yn wyneb a dros y ffôn gydag amrywiaeth o sefydliadau cenedlaethol (a

nodir yn **Atodiad 1**). Fe'u hategwyd gan adolygiad helaeth o lenyddiaeth (ceir **llyfryddiaeth** ar ddiwedd yr adroddiad hwn).

2. **Dewis aneddiadau enghreifftiol:** Fel y disgrifir uchod.

3. **Gweithdai cyntaf:** Cynhaliwyd gweithdy cychwynnol gyda rhanddeiliaid rhanbarthol a lleol o fewn Parth y Gogledd (yn Rhuthun) a Pharth y De (yn Llandeilo) er mwyn:
   - nodi'r aneddiadau enghreifftiol
   - archwilio cymeriad cyfredol yr aneddiadau hyn
   - nodi cyfyngiadau a chyfleoedd ar gyfer arallgyfeirio a datblygu'r economi leol.

   Ar gyfer pob gweithdy gwahoddwyd dros 40 o bobl i fynychu gan gynnwys cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol, a chynrychiolwyr lleol: Awdurdod Datblygu Cymru, Asiantaethau Menter, Is-adran Bwyd a Datblygu Ffermio y Cynulliad, Cyswllt Busnes, Cyswllt Ffermio, Bwrdd Croeso Cymru, Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol, Ffederasiwn Busnesau Bach, Ffora Economaidd, Cynghorau Tref a Chymuned, Siambrau Masnach, CLA, FUW, NFU Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Comisiwn Coedwigaeth, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Menter a Busnes, Menter Môn, Grwpiau LEADER, Coed Cymru a grwpiau lleol eraill yn ôl y cyngor a gafwyd. Roedd nifer y bobl a oedd yn bresennol yn y gweithdy cyntaf yn Rhuthun yn siomedig (10 o bobl) oherwydd y'i cynhaliwyd yn ystod y cyfnod prysur cyn y Nadolig. Roedd bron i 40 o bobl yn bresennol yn yr ail weithdy yn Llandeilo, a gynhaliwyd ychydig ar ôl cyfnod y Nadolig. Yn y ddau achos, roedd y trafodaethau o gymorth wrth ddatblygu gwell dealltwriaeth leol o'r ardaloedd a oedd yn rhan o'r astudiaeth.

4. **Adolygu polisïau'r cynllun datblygu:** Adolygwyd polisïau cynllunio cenedlaethol a chynlluniau datblygu'r awdurdodau hynny a oedd yn gyfrifol am Barth y Gogledd a Pharth y De.

5. **Adolygu ystadegau yn seiliedig ar wardiau:** Er mwyn helpu i ddeall cymeriad economaidd yr aneddiadau a ddewiswyd dadansoddwyd amrywiaeth o gyfresi data economaidd cymaradwy gan gynnwys *Arolwg Enillion Newydd 2001; Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru 2000;* strwythur cyflogaeth yn ôl sectorau diwydiannol ar yr *Ymchwiliad Busnes Blynyddol (ABI)*, y *Gofrestr Busnes Rhyng Adrannol* a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), yr *Arolwg Gweithlu Blynyddol*, gwybodaeth am ddiweithdra gan yr ONS; patrymau teithio i'r gwaith yn seiliedig ar Gyfrifiad 1991 gan NOMIS a Chynlluniau Trafnidiaeth Leol Cynghorau Sir; gwerthoedd eiddo yn seiliedig ar Gofnodion y Gofrestrfa Dir o werthiannau eiddo ac elw ar eiddo gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). Nodir y Wardiau y seiliwyd y data arnynt yn **Nhabl 1.3.**

6. **Adolygu cofrestrau cynllunio:** Adolygwyd cofrestrau cynllunio'r holl awdurdodau cynllunio lleol perthnasol (acll) er mwyn nodi'r holl geisiadau cynllunio ar gyfer gweithgareddau economaidd yn ystod y cyfnod o dair

blynedd o fis Mai 1998 – Mai 2001 yng nghyd-destun yr aneddiadau enghreifftiol. Nodwyd ceisiadau perthnasol fel y rhai a oedd o fewn yr aneddiadau neu o fewn un filltir i'r aneddiadau. Cyflawnwyd hyn gyda chymorth sylweddol gan yr acll perthnasol. Ar gyfer pob cais a nodwyd, cwblhawyd ffurflen wedi'i pharatoi ymlaen llaw ac wedi'i chysylltu â chronfa ddata yn swyddfeydd pob acll. Wedyn, dadansoddwyd y data hwn.

7. **20 o Astudiaethau Achos:** O'r sampl uchod o geisiadau cynllunio, dewiswyd cyfanswm o 20 o astudiaethau achos i'w hadolygu ymhellach. Fe'u dewiswyd yn erbyn y meini prawf a nodir ym **Mlwch 1.1.** Ar gyfer pob astudiaeth achos cynhaliwyd ymweliad safle a chyfweliad gyda'r ymgeisydd wedi'u hategu gan adolygiad o ffeiliau'r achos cynllunio a thrafodaethau gyda'r swyddog rheoli datblygu, lle y bo'n berthnasol. Roedd ffocws yr astudiaethau achos hyn ar (a) deall natur busnes gwledig, ei gyflogeion a manteision ac anfanteision y lleoliad gwledig a ddewiswyd, a (b) olrhain hanes cynllunio'r busnes a'r dylanwad a gafodd cynllunio arno. Cynhyrchwyd yr astudiaethau achos fel Atodiad ar wahân i'r adroddiad hwn.

**Dewis astudiaethau achos** **Blwch 1.1**

Meini prawf ar gyfer dewis

- O leiaf un enghraifft o bob tref farchnad
- O leiaf un enghraifft o ddatblygu mewn pentref lled drefol a phentref gwledig hygyrch/anghysbell (hy aneddiadau gwledig ac eithrio trefi marchnad)
- Graddoliad ar draws gwahanol raddfeydd o ddatblygu o rai bach i rai mawr
- Rhaniad un/dau draean rhwng busnesau newydd ac ehangu busnesau presennol
- Ffocws ar weithgareddau economaidd 'newydd' a anogir gan bolisi ee prosesu bwyd
- O leiaf un enghraifft o bob un o'r prif sectorau - manwerthu; tafarndai/gwestai/arlwyo, diwydiant ysgafn, twristiaeth; swyddfeydd; gweithdai.
- O leiaf dau wrthodiad.

**8**. **Arolwg o fusnesau gwledig gan ddefnyddio holiaduron:** Yn ogystal â'r astudiaethau achos, anfonwyd holiaduron drwy'r post at bob ymgeisydd a nodwyd o'r cofrestrau cynllunio. Roedd yr holiadur hwn yn cwmpasu pwyntiau tebyg i'r Astudiaethau Achos ond yn anochel ar lefel fwy arwynebol. O'r 199 o holiaduron a anfonwyd, dychwelwyd 24 ohonynt, sef cyfradd ymateb o 12%. Roedd y gyfradd hon yn is na'r disgwyl ond serch hynny llwyddodd i roi dealltwriaeth well o'r busnesau a'u profiad o'r system gynllunio.

9. **Cyfweliadau gyda swyddogion cynlluniau lleol, swyddogion rheoli datblygu a swyddogion datblygu economaidd**: Gan fanteisio ar yr holl wybodaeth a gasglwyd drwy'r astudiaeth, cynhaliwyd cyfarfodydd neu sgyrsiau ffôn gyda'r swyddogion uchod yn yr awdurdodau lleol a oedd yn berthnasol i'r aneddiadau enghreifftiol. Canolbwyntiodd y trafodaethau hyn ar wella sail y dystiolaeth mewn perthynas â'r aneddiadau unigol, deall y ffactorau a oedd yn llywio polisïau a phenderfyniadau unigol, a safbwyntiau o ran sut y gallai fod angen newid polisïau a gweithdrefnau cynllunio yn y dyfodol er mwyn annog arallgyfeirio gwledig cynaliadwy.

10 **Ail weithdai:** Yn olaf, cynhaliwyd dau weithdy pellach ar ddechrau mis Mai 2002 yn Rhuthun a Llandeilo. Anfonwyd gwahoddiadau at y rheini a wahoddwyd i'r cylch cyntaf o weithdai yn ogystal ag eraill a argymhellwyd yn y cyfamser. Roedd tua 12 o bobl ymhob gweithdy. Er bod y niferoedd yn isel, roedd y trafodaethau yn ddefnyddiol iawn wrth ddatblygu ffordd o feddwl. Diben y gweithdai hyn oedd cael sylwadau am y wybodaeth a gasglwyd drwy'r astudiaeth a thrafod gofynion pwysicaf y system gynllunio o ran cyflawni arallgyfeirio gwledig cynaliadwy.

**Tabl 1.3: Wardiau sy'n cynrychioli'r aneddiadau unigol**

**Llanelwy (Lled Drefol)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | ACLl | Wardiau 1991 |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Llanelwy | Sir Ddinbych | Dwyrain Llanelwy a Gorllewin Llanelwy |
| Pentref | Rhuallt | | Tremeirchion |
| Pentref | Trefnant | | Trefnant |
| Anheddiad Gwasgaredig | Bont-newydd | Conwy | Llansannan |
| Anheddiad Gwasgaredig | Groesffordd Marli | Sir Ddinbych | Trefnant |

**Rhuthun (Gwledig Hygyrch)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | ACLl | Wardiau 1991 |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Rhuthun | Sir Ddinbych | Rhuthun |
| Pentref | Cyffylliog | | Llanynys |
| Pentref | Pwll Glas | | Efenechtyd |
| Anheddiad Gwasgaredig | Melin-y-Wig | | Corwen |
| Anheddiad Gwasgaredig | Pentre-celyn | | Llanfair Dyffryn Clwyd |

**Y Bala (Gwledig Anghysbell)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | ACLl | Wardiau 1991 |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Y Bala | Gwynedd | Y Bala |
| Pentref | Cerrigydrudion | Conwy | Uwchaled |
| Pentref | Llanuwchllyn | Gwynedd | Llanuwchllyn |
| Anheddiad Gwasgaredig | Llandderfel | | Llandderfel |
| Anheddiad Gwasgaredig | Frongoch | | Llandderfel |

**Rhydaman (Lled Drefol)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | ACLl | Wardiau 1991 |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Rhydaman | Sir Gaerfyrddin | Rhydaman<br>Myddynfych<br>Pantyffynnon<br>Pontamman |
| Pentref | Capel Hendre | | Saron |
| Pentref | Llandybie | | Llandybie |
| Anheddiad Gwasgaredig | Milo | | Llanfihangel Aberbythych |
| Anheddiad Gwasgaredig | Pantyffynnon | | Pantyffynnon |

**Llandeilo (Gwledig Hygyrch)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | ACLl | Wardiau 1991 |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Llandeilo | Sir Gaerfyrddin | Castell Llandeilo |
| Pentref | Cwmifor | | Castell |
| Pentref | Talyllychau | | Talley |
| Anheddiad Gwasgaredig | Derwen Fawr | | Llanegwad |
| Anheddiad Gwasgaredig | Trapp | | Ffairfach |

**Tregaron (Gwledig Anghysbell)**

| Math o anheddiad | Anheddiad | ACLl | Wardiau 1991 |
|---|---|---|---|
| Tref Farchnad | Tregaron | Ceredigion | Tregaron |
| Pentref | Llangeitho | | Llangeitho |
| Pentref | Pontrhydfendigaid | | Lledrod |
| Anheddiad Gwasgaredig | Blaenpennal | | Llangeitho |
| Anheddiad Gwasgaredig | Cwmystwyth | | Melindŵr |

## STRWYTHUR YR ADRODDIAD

1.19. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y strwythur canlynol:

- Mae'r ddwy Bennod nesaf yn nodi cyd-destun cyffredinol yr astudiaeth: mae **Pennod 2: Cefndir a Chyd-destun** yn adolygu perfformiad yr economi wledig ar y lefel genedlaethol a'r polisïau, y strategaethau a'r mentrau perthnasol sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol, wedi'i lywio gan adolygiad helaeth o lenyddiaeth. Caiff hyn ei gymharu â'r prif sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriadau cenedlaethol. Wedyn ym **Mhennod 3** ystyrir y cyd-destun cynllunio cenedlaethol ar gyfer arallgyfeirio gwledig a'r polisïau cynllunio ar gyfer arallgyfeirio gwledig o fewn cynlluniau datblygu statudol yr aneddiadau enghreifftiol a gwmpesir gan yr astudiaeth hon.

- Ym **Mhennod 4** a **5,** canolbwyntir ar yr aneddiadau enghreifftiol er mwyn ceisio deall tueddiadau a phatrymau o ran gweithgareddau arallgyfeirio economaidd gwledig. Mae **Pennod 4: Nodweddion y Trefi Marchnad a'u Haneddiadau Cysylltiedig** yn amlinellu cymeriad economaidd yr aneddiadau enghreifftiol yn

seiliedig ar ystadegau y gellir eu cymharu'n genedlaethol, astudiaethau mwy lleol lle roeddent ar gael, a chanlyniadau'r 20 o astudiaethau achos, tra bod **Pennod 5: Ceisiadau Cynllunio** yn dadansoddi perfformiad economaidd y Trefi Marchnad gan gyfeirio at geisiadau cynllunio perthnasol; yr holiadur drwy'r post i ymgeiswyr a'r astudiaethau achos. Hefyd ceir dadansoddiad o safbwyntiau'r swyddogion Rheoli Datblygu.

- Ym **Mhennod 6** ceir seibiant o'r holl ddata a gasglwyd er mwyn trafod **Canfyddiadau Allweddol** yr astudiaeth a'u hystyried yng ngoleuni llenyddiaeth arall ac amcanion polisi cenedlaethol.

- Yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir ym Mhennod 6, noda **Pennod 7** gyfres o **Argymhellion.**

# 2. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

## TROSOLWG O'R ECONOMI WLEDIG YNG NGHYMRU

2.1. Archwiliodd tri adroddiad diweddar gan Lywodraeth y Cynulliad gyflwr yr economi wledig yng Nghymru: *Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2000-2006 (*2000), adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar *Arallgyfeirio'r Economi Wledig* (2001), a *Cymru'n Ennill: Dadansoddiad Economaidd* (2001).

2.2. Yn y rhagair i *Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* crynhodd Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig: "*Mae economi wledig Cymru yn cyflwyno sialensau a chyfleoedd. Mae ganddi lawer o gryfderau - ansawdd ei hamgylchedd, ei hymdeimlad o gymuned a hunaniaeth ddiwylliannol, gweithlu â'r gallu i addasu a'r gallu i gynhyrchu cynnyrch amaethyddol o ansawdd uchel - ond hefyd wendidau - dibyniaeth ar ddiwydiannau traddodiadol â gwerth ychwanegol isel yn aml, sector ffermio sy'n dirywio ac yn dibynnu ar gymorthdaliadau, sail economaidd gul a diamddiffyn ac isadeiledd trafnidiaeth a gwasanaethau gwael."*

2.3. Noda *Cymru'n Ennill: Dadansoddiad Economaidd* hefyd raddfa'r anawsterau economaidd sy'n wynebu Cymru wledig: *"Mae economi Cymru yn adnewyddu ac yn ailddyfeisio ei hun yn barhaus. Mae cyfnod estynedig o newid strwythurol ar waith."* (2.1) ac *"Yn fwy diweddar, trawyd rhannau o Gymru gan nifer o ergydion mawr…mae'r economi wledig yn wynebu sialensau enfawr."* (2.2) a noda ar y cyfan fod perfformiad economi Cymru yn gymharol wael o'i gymharu â rhanbarthau eraill y DU ar y rhan fwyaf o ddangosyddion economaidd.

2.4. Dengys *Cymru'n Ennill* nad yw Cymru ar y cyfan yn perfformio cystal â chyfartaledd y DU yn nhermau CMC, ac mewn ardaloedd mwy gwledig fod y perfformiad yn amrywio ond ar y cyfan yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Ardaloedd gwledig mwy anghysbell sy'n perfformio waethaf, gyda'r CMC isaf y pen ar Ynys Môn ac yn Ne Orllewin Cymru, tra bod ardaloedd yn nwyrain y wlad yn perfformio'n sylweddol well (**Tabl 2.1**).

**Tabl 2.1: CMC y pen yng Nghymru**

| **Ardal** | **CMC y pen o'r boblogaeth (cyfartaledd y DU = £100)** | | |
|---|---|---|---|
| | **1994** | **1996** | **1998** |
| **Cymru gyfan** | **82.5** | **82.6** | **80.2** |
| **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | **71.5** | **72.3** | **70.2** |
| Cyfartaledd awdurdodau mwy gwledig Gorllewin Cymru * | 71.1 | 70.55 | 68.67 |
| Cyfartaledd awdurdodau mwy trefol Gorllewin Cymru | 72.75 | 74.0 | 72.65 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dwyrain Cymru** | **102.6** | **101.1** | **97.8** |
| Cyfartaledd awdurdodau mwy gwledig Dwyrain Cymru* | 89.4 | 88.85 | 89.9 |
| Cyfartaledd awdurdodau mwy trefol Dwyrain Cymru | 105.8 | 105.0 | 100.1 |

Ffynhonnell: *Cymru'n Ennill: Dadansoddiad Economaidd* (yn seiliedig ar ardaloedd NUTS[1]).


* Nid yw'r rhain yn cyfateb yn union â'r awdurdodau 'gwledig' a restrir ym mhara 1.7.

2.5. Wrth ddadansoddi'r farchnad lafur yn ôl y naw ardal awdurdod unedol (gwledig) yng Nghymru[2] ceir darlun gwahanol. Ymhob un ond dau o'r awdurdodau gwledig mae'r gyfradd gweithgarwch economaidd a'r gyfradd ddiweithdra yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Felly mae mwy o bobl yn gweithio yng Nghymru wledig na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond am elw is gan fod cynhyrchiant 8% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (*Cymru'n Ennill,* 2001) a 12.4% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yng nghanol Cymru. Adlewyrchir hyn hefyd yn yr enillion cyfartalog is yng Nghymru wledig (*Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* 2001) gyda chymysgedd galwedigaethol o swyddi llafur a sgiliau isel ac arferion gweithio hyblyg, yn arbennig gweithio rhan amser a hunan-gyflogaeth yn amlwg mewn ardaloedd fel canol Cymru. Ond ynghudd o fewn yr ystadegau hyn ceir amrywiadau sylweddol iawn, o gyfradd ddiweithdra o 64% yng Ngwynedd o'i gymharu â 81% ym Mhowys (74% ar gyfer Cymru gyfan). Mae hyn yn awgrymu bod economïau gwahanol rannau o Gymru wledig yn gweithredu mewn gwahanol ffyrdd. At hyn, awgrymwyd fod y gyfradd ddiweithdra gudd yng Nghymru wledig tua tair gwaith yn uwch na'r gyfradd ddiweithdra swyddogol (Huggins, 2001).

2.6. Dengys dadansoddiad sectoraidd o ddiweithdra ymhlith pobl sy'n byw yn y naw awdurdod unedol gwledig, o'u cymharu â gweddill Cymru, fod swyddi trigolion gwledig a threfol yn gymharol debyg. Y sector cyhoeddus yw'r cyflogwr mwyaf yn y ddau achos, ond manwerthu a gwasanaethau yw'r cyflogwr mwyaf ond un mewn ardaloedd gwledig yn wahanol i weithgynhyrchu yn yr ardaloedd trefol. Y gwahaniaeth amlwg arall yw cyflogaeth ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth, sy'n cynnwys 8% o gyflogeion gwledig ond dim ond 1% o gyflogeion trefol. Mae prosesu bwyd a gweithgareddau cysylltiedig yn ychwanegu 2% o gyflogeion ar gyfer Cymru gyfan (*Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2000-2006,* 2000).

[1] Dosbarthiad hierarchaeth o unedau gofodol yw NUTS, a grëwyd gan y Swyddfa Ystadegau Ewropeaidd er mwyn cynnal dadansoddiadau ystadegol ar draws yr Undeb Ewropeaidd
[2] Cyf para 1.7

**Ffig 2.1: Diweithdra yn ôl sector**





Ffynhonnell: *Arallgyfeirio'r Economi Wledig* (2001)

2.7. Fodd bynnag, wrth archwilio proffil mentrau gwledig (**Ffig 2.2**), daw patrwm gwahanol i'r amlwg. Busnesau Amaethyddol a choedwigaeth yw'r mwyaf niferus mewn ardaloedd gwledig, wedi'u dilyn gan wasanaethau manwerthu a gwasanaethau eraill. Serch hynny, dylid cofio gan mai dim ond ar gyfer busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW y mae ystadegau ar gael, ni chynrychiolir y cyflogwr mwyaf, sef y sector cyhoeddus, na rhai busnesau llai. Ond o ystyried y ddau ddadansoddiad hyn gyda'i gilydd mae'n amlwg nad oes cyfatebiaeth rhwng nifer y cyflogeion yn yr amrywiol sectorau, yn arbennig ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth, a nifer y busnesau.

2.8. Gellir egluro hyn yn rhannol gan y ffaith bod busnesau amaethyddol yn gymharol fach. Yn y naw awdurdod gwledig, mae gan 40% o'r busnesau drosiant o lai na £50,000 o'u cymharu â dim ond 20% yng ngweddill Cymru (*Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* 2001) a dim ond 3% ohonynt sydd â throsiant o dros £1M, o'i gymharu â 9% yng ngweddill Cymru.

2.9. Fodd bynnag, esboniad pwysig arall yw rôl cymudo mewn ardaloedd gwledig. Mae cymudo o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol yn duedd gref sy'n cynyddu mewn sawl rhan o Brydain wledig gan olygu nad yw nifer gynyddol o bobl, er yn byw mewn ardal wledig, yn gweithio yno. Mae'r cydberthnasau hyn hefyd yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru wledig ond nid oes data cyfredol a chywir ar gael am gymudo. Nid yw'r Ardaloedd Teithio i'r Gwaith yn seiliedig ar gyfrifiad 1991 bellach yn gyfredol ac maent wedi'u seilio ar raddfa rhy eang i nodi manylion cymudo gwledig. Mae hyn yn fwlch arwyddocaol iawn wrth ystyried gwybodaeth am berfformiad yr economi wledig.

**Ffig 2.2: Busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn ôl sector**




Ffynhonnell: *Arallgyfeirio'r Economi Wledig* (2001)

### Amaethyddiaeth a'r diwydiannau sy'n ymwneud â'r tir

2.10. Mae amaethyddiaeth wedi dioddef yn sylweddol ers canol y 1990au. Mae cryfder y bunt, y gostyngiad mewn cymorthdaliadau amaethyddol, prisiau nwyddau gostyngol ledled y byd, effeithiau BSE ac yn olaf argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau wedi bod yn ergyd galed i amaethyddiaeth yng Nghymru gyda'i dibyniaeth uchel ar laeth, cig eidion a defaid. Roedd rhagolygon 2000/01 ar gyfer incwm net ar ffermydd 80% yn is mewn termau real na'r cyfartaledd ar gyfer y tair blynedd hyd at 1991/2 a dim ond £4,100 oedd y rhagamcan ar gyfer incwm ffermydd ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn. Yn ystod y deng mlynedd hyd at 1998, gostyngodd y gweithlu amaethyddol 6%. Rhwng 1998 a 2000 gostyngodd 10% arall (*Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* 2001). O ganlyniad, mae strwythur ffermydd teuluol yn erydu gyda'r duedd yn symud tuag at unedau mwy yn ogystal â ffermydd llai, sy'n aml yn ffermydd rhan amser.

2.11. Mae argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau wedi cynyddu'r tueddiadau hyn, gyda gostyngiadau o £62 miliwn yng nghyfanswm incwm amaethyddiaeth, £120 miliwn ym maes twristiaeth, a £19 miliwn mewn sectorau eraill (Midmore, 2002 a 2002).

2.12. Hyd yn oed cyn Clwy'r Traed a'r Genau, gan gynnwys cymorthdaliadau, dim ond 1.4% oedd cyfraniad amaethyddiaeth i'r CMC yng Nghymru yn 2000. Yn hanfodol, o ddiystyru cymorthdaliadau, dim ond 0.6% oedd ei chyfraniad ac yn agos at 0% o ystyried cymorth anuniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (*Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* 2001).

2.13. Yn erbyn y cefndir hwn, mae gobaith mawr y bydd arallgyfeirio ar ffermydd yn helpu ffermwyr i wyrdroi'r gostyngiad o ran incwm ar ffermydd. Ond dangosodd adolygiad o weithgareddau arallgyfeirio diweddar ar ffermydd yng Nghymru a Lloegr (McNally, 2001) fod y gyfradd gadael yn agos iawn i'r gyfradd ddechrau ar gyfer y rhan fwyaf o

fathau o fentrau arallgyfeirio ac mai dim ond cyfraniad cymharol fach a wna'r rhan fwyaf o weithgareddau arallgyfeirio i incwm ffermydd ar gyfartaledd. Serch hynny, awgrymodd astudiaeth gynharach i luosweithgaredd ar ffermydd yng Nghymru (Bateman a Ray, 2000) fod lluosweithgaredd wedi'i hen sefydlu mewn llawer o achosion yn hytrach nag ymateb i'r pwysau cyfredol ar incwm ar ffermydd.

2.14. Yn nhermau coedwigaeth, dengys ymchwil a gynhaliwyd ar ran y Comisiwn Coedwigaeth, y Gymdeithas Tyfwyr Coed ac Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) (Munday a Roberts, 2001) fod y diwydiant coedwigaeth yng Nghymru yn darparu bron i 4000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, dros £400 miliwn o gynnyrch gros a'i fod yn cynhyrchu gwerth £80 miliwn o wariant heb fod yn gyflogau yn yr economi yng Nghymru.

### Twristiaeth

2.15. Mae twristiaeth yn ddiwydiant allweddol mewn ardaloedd gwledig, ac amlygwyd ei gyfraniad hanfodol i'r economi wledig gan argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau. Mae gwariant twristiaeth gan ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr dydd yn cyfrannu dros £2.0 biliwn yn uniongyrchol i'r economi yng Nghymru, sy'n gyfwerth â 7% o'r CMC (yn sylweddol uwch nag amaethyddiaeth). Mae Cymru yn denu cyfran o 8% o holl wariant twristiaeth y DU ond mae ei chymeriad yn dymhorol iawn gyda 60% o'r holl wariant gwyliau yn digwydd yn ystod mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst. Yn ogystal, marchnad gartref a wasanaethir yn bennaf gan Gymru, gan ddenu cyfran o ddim ond 1.4% o'r holl wariant gan ymwelwyr o dramor yn y DU (*Cyflawni ein Potensial,* 2000).

### Busnesau bach a chanolig eu maint (SMEs)

2.16. Busnesau bach a chanolig eu maint (llai na 250 o gyflogeion) yw dros 90% o'r holl fusnesau yng Nghymru. Er enghraifft, yng Nghanolbarth Cymru mae 80% o'r busnesau yn cyflogi llai na 10 o bobl. Yn bwysig, dengys ymchwil a gynhaliwyd ar ran Awdurdod Datblygu Cymru (*Small and Medium-sized Enterprises in Wales,* 2001) fod gan y cwmnïau llai hyn gysylltiadau lleol llawer gwell na'r cwmnïau cyfatebol mwy o faint: mae dros bedwar o bob pump o'r gweithlu sy'n gweithio mewn busnesau bach a chanolig eu maint yn byw o fewn taith 30 munud o'u gweithle; mae dros hanner eu cwsmeriaid, eu cystadleuwyr a'u darparwyr gwasanaethau wedi'u lleoli'n lleol; a phrynir traean o'r deunyddiau a ddefnyddir yn lleol, gyda'r nodweddion hyn yn arbennig o nodweddiadol o'r sector amaethyddol.

### Strwythur y boblogaeth ac addysg

2.17. Mae poblogaeth y naw awdurdod gwledig yng Nghymru (para 1.7) yn tyfu, gan gynyddu 2% rhwng 1991 a 1999, yn unol â gweddill Cymru. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd y boblogaeth 15-29 oed 9%, er bod y gostyngiad ar gyfer gweddill Cymru yn uwch ar 12%. Yng Nghymru wledig, roedd 23% o'r boblogaeth dros oedran ymddeol ym 1999 o'i gymharu â 19% ar gyfer gweddill Cymru, gydag ardaloedd mwy anghysbell o Gymru wledig yn debygol o fod yn gartref i ganran uwch o bobl wedi ymddeol (*Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* 2001).

2.18. Noda'r Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2000-2006 (2000) "*Nad yw llawer o bobl ifanc ac oedolion mewn ardaloedd gwledig - yn arbennig rhannau mwy ymylol Gorllewin*

*Cymru - yn cyflawni eu gwir botensial.*" (t.57). Serch hynny, mae cymwysterau pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru wledig yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yng Ngwynedd, Ynys Môn a Sir Benfro mae lefelau nifer yr oedolion heb unrhyw gymwysterau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 22%. Ond fel y darganfu'r project Sgiliau Dyfodol Cymru mae pobl ifanc a chymwys yn allfudo ac o ganlyniad ceir prinder sgiliau.

2.19. Amlygir y tueddiadau hyn gan astudiaeth fwy manwl o newid demograffig yng Ngogledd Orllewin Cymru (Jones et al, 2001). Noda'r astudiaeth hon fod Ynys Môn yn disgwyl colli tua 10% o'i phoblogaeth erbyn 2016, gyda'r disgwyliad y bydd poblogaeth gweddill y rhanbarth yn aros yn gymharol sefydlog, ond gyda cholled net o blith yr ifanc. Y prif resymau a nodir gan y rheini sy'n gadael yw cyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig, cyflogau isel, addasiad cymdeithasol (yn y rheini sy'n dychwelyd i fro eu mebyd), a mynediad gwael i wasanaethau allweddol. Yn aml bydd myfyrwyr ysgol a choleg yn gadael o ganlyniad i'w dyheadau o ran addysg uwch a chyflogaeth, er y byddant o bosibl yn dychwelyd i fagu eu plant hwy eu hunain. Hefyd, nododd llawer o gyflogwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd cyflogi staff â chymwysterau addas.

### Yr iaith Gymraeg

2.20. Yn nhermau siaradwyr Cymraeg, mae tua 19% o'r boblogaeth yng Nghymru yn siarad Cymraeg (500,000). Fodd bynnag, mae canran y siaradwyr Cymraeg yn sylweddol uwch mewn ardaloedd gwledig. Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Chonwy yw'r pum awdurdod unedol â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg, gyda dros 50% o'r boblogaeth (3+ oed) naill ai'n gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn Gymraeg yn y pedwar awdurdod cyntaf o'u plith (*Welsh Tourism Business Monitor,* Chwefror 2002).

### Ffyrdd a hygyrchedd

2.21. Mae ffyrdd yn elfen hanfodol o isadeiledd gwledig. Daeth yr adolygiad o'r rhaglen cefnffyrdd yng Nghymru, *Driving Wales Forward* (1998) i'r casgliad "*nad oedd unrhyw achos naill ai ar sail traffig neu ar sail amgylcheddol dros adeiladu ffyrdd drwy ganol Cymru. Strategaeth y Cynulliad yw cyflwyno gwelliannau arwyddocaol yn y gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rhwng y gogledd a'r de gan ategu'r gwasanaethau hyn gyda gwelliannau rheolaidd ar raddfa gymharol fach ar rwydwaith y cefnffyrdd*". Mae gwasanaethau rheilffordd yn wael i'r rhan fwyaf o Gymru wledig. **Felly mae daearyddiaeth Cymru wledig yn diffinio ei hygyrchedd cymharol wael fel paramedr na ellir ei symud ar gyfer datblygu economaidd.**

### Technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

2.22. Ar y cyfan mae Cymru ar ei hôl hi o ran ei defnydd o'r rhan fwyaf o dechnolegau a chymwysiadau gwybodaeth a chyfathrebu fel ffonau symudol, e-bost a defnydd busnes a domestig o'r Rhyngrwyd ac mae'r galw am wasanaethau band uwch ar hyn o bryd yn is yng Nghymru nag yn y DU gyfan (*Ubiquitous Broadband for Wales, 2001*). O fewn y Deyrnas Unedig, dim ond Gogledd Iwerddon sydd â defnydd TGCh is. Mae hyn yn rhannol am nad yw'n ddarbodus i ddarparwyr masnachol wasanaethu llawer o Gymru wledig. Nododd y *Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2000-2006* (2000) *"rhaniad cryf rhwng cwmnïau sy'n defnyddio TGCh a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Mae llawer o*

*gwmnïau nad ydynt yn manteisio ar TGCh, ond ymddengys fod y rhai sy'n berchen ar y dechnoleg yn ei defnyddio. Mae'r defnydd o Rwydweithiau Ardal Leol o fewn busnesau yn isel ond mae'r rheini sy'n berchen ar y Rhwydweithiau a systemau e-bost yn eu defnyddio mewn ffyrdd datblygedig."* (t.57).

### Ansawdd amgylcheddol uchel

2.23. Mae llawer o economi Cymru wledig yn dibynnu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ansawdd amgylcheddol uchel yr ardal. Mae amgylchedd Cymru wledig yn gonglfaen hanfodol i'w heconomi. Lluniwyd yr amgylchedd hwn gan arferion amaethyddol. Ond dros yr hanner canrif diwethaf, gyda nifer cynyddol o ddefaid a newid o wair i silwair, mae agweddau ar amrywiaeth amgylcheddol wedi gostwng, o bosibl ar draul hir dymor yr economi.

2.24. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (*Valuing our Environment,* 2001), mae rhwng 40% a 70% o'r gyflogaeth ym maes twristiaeth yn dibynnu'n uniongyrchol ar amgylchedd o werth uchel. Ac efallai na roddwyd cydnabyddiaeth gystal i'r cyfraniad economaidd uniongyrchol a wnaed gan gynlluniau amaeth-amgylchedd (cynllun peilot Tir Cymen a'r cynllun Tir Gofal cenedlaethol erbyn hyn) sydd wedi'u hanelu at wella perfformiad amgylcheddol ffermio. Er enghraifft, dengys astudiaethau y bu i ffermydd a oedd yn rhan o'r cynllun amaeth-amgylchedd peilot Tir Cymen gyflogi dwywaith cymaint o lafur achlysurol a chefnogi'r economi leol drwy ddarparu gwaith i gontractwyr, ac annog mentrau arallgyfeirio fel cynhyrchu gatiau a chamfeydd pren (Banks a Marsden, 2000). Ceir enghraifft o hyn ym Mharc Cenedlaethol Eryri lle y buddsoddodd Tir Cymen, gan gynnwys tua 344 o ffermydd, dros £3 miliwn i'r economi leol (Cymdeithas yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, 2000), gan ddangos buddiannau economaidd yn ogystal ag amgylcheddol a chymdeithasol ymagweddau o'r fath.

### Crynodeb o'r materion allweddol

2.25. Yn gryno, felly, o'r amrywiaeth eang o adroddiadau a gynhyrchwyd ar economi Cymru wledig, nodir nifer o faterion cyffredin, gan gynnwys:

- Cysylltiadau gwael o fewn rhanbarthau
- Hygyrchedd ac isadeiledd trafnidiaeth gwael, gan gynyddu costau dosbarthu
- Gormod o ddibyniaeth ar sector amaethyddol sy'n dirywio a diwydiannau eraill yn seiliedig ar adnoddau naturiol
- Dibyniaeth sylweddol ar y sector cyhoeddus o ran cyflogaeth
- Cyflogaeth uchel ym maes twristiaeth ond yn seiliedig ar swyddi tymhorol â chyflog isel
- Cyfraddau busnesau newydd isel
- Lefelau cynhyrchiant isel sy'n golygu nad oes llawer o gymhelliant i arloesi, dangos entrepreneuriaeth na diweddaru technoleg
- Defnydd isel o gyfleusterau TG a'r rhyngrwyd gan fusnesau yn gyffredinol
- Dosbarthiad cyfoeth anwastad ledled y wlad
- Anghydbwysedd o ran strwythur oedran o ganlyniad i nifer y bobl ifanc sy'n allfudo
- Prinder sgiliau wedi'i waethygu gan allfudo

- Gwariant isel ar ymchwil a datblygiad
- Llawer o'r boblogaeth yn byw mewn aneddiadau gwasgaredig
- Diffyg gwasanaethau sylfaenol
- Yr amgylchedd o ansawdd uchel fel conglfaen i botensial economaidd yr ardal.

## POLISI AR GYFER YR ECONOMI WLEDIG YNG NGHYMRU

2.26. Mae cynllun strategol Llywodraeth y Cynulliad *Gwell Cymru* (1999), yn nodi datblygiad cynaliadwy fel y fframwaith trawsfwaol ar gyfer pob polisi, strategaeth, rhaglen a chynllun grant a baratoir gan Lywodraeth y Cynulliad. O fewn y cyd-destun cyffredinol hwn, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, cynhyrchwyd amrywiaeth eang o ddogfennau polisi ac ariannu yn cwmpasu Cymru wledig. Ystyrir polisi cynllunio cenedlaethol ar wahân ym Mhennod 3 ond isod ceir amlinelliad o bolisïau, strategaethau a mentrau allweddol eraill sy'n berthnasol i Gymru wledig.

- **Y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol: *Cymru'n Ennill* (2001)**. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar *Agenda Economaidd Newydd i Gymru* (1998) gan anelu at "*Cyflawni economi ffyniannus yng Nghymru sy'n ddeinamig, yn gynhwysol ac yn gynaliadwy, yn seiliedig ar fusnesau llwyddiannus, arloesol gyda phobl fedrus â chymhelliant uchel…Rydym am i Gymru fod yn wlad a chanddi ddiwylliant arbennig a chreadigol gyda dwyieithrwydd yn realiti cynyddol. Bydd y diwylliant hwn yn ffynnu lle bydd y gydberthynas rhwng pobl, eu hysgolion a'u colegau, eu gweithleoedd a'u hamgylchedd yn gryf…O gyfuno mentrau lleol gellir cyflawni effaith genedlaethol, er enghraifft drwy gyd farchnata a datblygu ein diwydiannau diwylliannol a thwristiaeth o ansawdd uchel".*

- **Cynllun corfforaethol Awdurdod Datblygu Cymru: *Economi Newydd i Gymru* (2001).** Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar gymorth eang i fusnesau gwledig tra'n nodi "*Nid llywodraethau nac awdurdodau datblygu sy'n cynhyrchu llewyrch economaidd - dim ond busnesau a all wneud hynny*" [para. 5.1]. Mae gwasanaethau amrywiol yr Awdurdod yn treiddio i bob agwedd ar yr economi wledig ac o dan ei gynllun corfforaethol mae'n gorff arweiniol ar nifer o Gynlluniau Gweithredu Rhanbarthol o dan gynigion Amcan 1, yn ogystal â chymryd rhan mewn Cynlluniau Gweithredu Is-ranbarthol a Lleol eraill. Ymhlith mentrau'r Awdurdod sydd o bwys arbennig o fewn cyd-destun ardaloedd gwledig mae: **Menter yn y Gymuned** sy'n cefnogi projectau cymunedol; **Cyswllt Busnes** gyda rhwydwaith o ganolfannau cyngor busnes un cam yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth; y **Gyfarwyddiaeth Fwyd** sy'n hyrwyddo Blas ar Gymru; a **Menter a Busnes** sy'n hyrwyddo menter fel rhan o iaith a diwylliant Cymru.

- **Y strategaeth genedlaethol ar gyfer amaethyddiaeth: *Ffermio ar gyfer y Dyfodol: Cyfeiriad newydd i ffermio yng Nghymru* (2001)**. Mae'r strategaeth hon yn nodi lle amaethyddiaeth yn y Gymru wledig fodern. Mae'n cefnogi ffermio teuluol ac yn ceisio cynnal cymunedau gwledig ymarferol a chytbwys drwy broses o addasu. Y canlyniadau dymunol yw: bwyd a chynnyrch nad yw'n fwyd, sy'n ddiogel ac yn iach; cefn gwlad sy'n weledol ddeniadol ac yn gyfoethog o ran bioamrywiaeth, archaeoleg, hanes a diwylliant; cynnyrch bwyd lleol arbennig sy'n helpu i hyrwyddo twristiaeth; a chyfraniad yr holl ffactorau hyn i ddelwedd gadarnhaol i Gymru yn y byd. Ategir y strategaeth gan 50 o bwyntiau gweithredu

sy'n integreiddio ffermio'n glir i'r economi wledig ehangach ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer dyfodol ffermio yng Nghymru.

- ***Y Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2000-2006* (2000).** Mae'r cynllun hwn yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflwyno cymorth i ffermwyr (ac eithrio'r taliadau cymhorthdal cynhyrchu uniongyrchol o dan y Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin). Mae'r cynllun yn parhau i roi cymorth i Ardaloedd Llai Ffafriol (LFAs) ond o dan system ddiwygiedig o lwfansau iawndal LFA, ac mae'n darparu cymorth sylweddol i gynlluniau amaeth-amgylchedd gydag arian hefyd ar gael i goedwigo tir amaethyddol. Fe'u hategir gan y *Mesurau di-gyswllt* sy'n gweithredu y tu allan i ardaloedd Amcan 1, ac sy'n cefnogi ffurfiau eraill ar arallgyfeirio ar ffermydd drwy ddarparu ar gyfer hyfforddiant, a chymorth ar gyfer prosesu a marchnata ymhlith eraill. Mae'r rhain yn cysylltu ac yn ategu'r arian sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau tebyg o dan Amcan 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

- ***Cyswllt Ffermio.*** Un o fentrau penodol Llywodraeth y Cynulliad yw hon sy'n cyflwyno cyngor am ddim, technolegau a thechnegau cynhyrchu newydd i ffermwyr yn unigol wedi'u cysylltu â ffermydd a grwpiau arddangos, i gynorthwyo ag arallgyfeirio, gwella ymarferoldeb busnes a helpu ffermwyr i fanteisio ar farchnadoedd newydd ar gyfer eu cynnyrch a'u gwasanaethau. Mae'n ddull cyflwyno pwysig ar gyfer y strategaeth amaethyddiaeth genedlaethol a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

- **Strategaeth deng mlynedd Bwrdd Croeso Cymru: *Cyflawni Ein Potensial* (2000).** Mae gan y strategaeth hon bedair thema allweddol: cynaliadwyedd, ansawdd, gallu cystadleuol a phartneriaeth sy'n cysylltu i gyfres o bwyntiau gweithredu. Yn ogystal mae gan y Bwrdd Croeso nifer o strategaethau pwysig eraill gan gynnwys y **Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol** sy'n cydnabod bod twristiaid *"bellach yn edrych am brofiad yn hytrach na chyrchfan…mae'r angen am ddilysrwydd yn hanfodol yn hyn o beth*".

- **Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) *Cynllun Corfforaethol 2002-2005***. ELWa yw'r enw a roddir ar Gyngor Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Nodau ei gangen addysg a hyfforddiant yw meithrin sgiliau hanfodol yn y boblogaeth yng Nghymru, annog dysgu gydol oes, gwella'r defnydd o'r sail wybodaeth yng Nghymru, darparu sgiliau ar gyfer busnes, ac annog cymunedau sy'n dysgu. Yn y Cynllun Corfforaethol, nodir yr economi fel y gyntaf o dair blaenoriaeth. Nodir amrywiaeth o fesurau fel ariannu Prentisiaethau Modern, ailhyfforddi gweithwyr i ddiwallu anghenion o ran sgiliau, a helpu i ddatblygu un porth ar gyfer cymorth busnes. Caiff rhaglenni eu teilwra i anghenion pob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru.

- **Strategaeth Coetir Cymru: *Coetiroedd i Gymru* (2001).** Fel y nodir yn y ddogfen hon, y genhadaeth genedlaethol ar gyfer coetiroedd yw diogelu ac ehangu coedwigoedd a choetiroedd yng Nghymru a chynyddu eu gwerth i gymdeithas a'r amgylchedd. Wedyn trefnir camau gweithredu i bum maes cyffredinol: *Coetiroedd i Bobl; Pwyslais Newydd ar Reoli Coetiroedd; Cymru fel Lleoliad ar gyfer Diwydiant Coedwigoedd o'r Radd Flaenaf; Amgylchedd Amrywiol ac Iach;* a *Twristiaeth, Hamdden ac Iechyd.* Nodir y camau gweithredu pwysig canlynol i gefnogi economi

coetiroedd: "*darparu cymorth busnes effeithiol i ddiwydiannau coedwigoedd yng Nghymru; datblygu'r gadwyn gyflenwi coed, datblygu cynnyrch a marchnata; darparu cymorth i goetiroedd fferm a'r economi wledig ehangach; a meithrin datblygiad ynni y gellir ei adnewyddu sy'n defnyddio coed".*

- **Fforwm Gwledig Cymru: *Cymru Wledig 2000: Y Ffordd Ymlaen:*** Mae'r strategaeth hon yn pwysleisio tair egwyddor i dywys y broses o ddatblygu Cymru wledig yn y dyfodol: integreiddio (sectoraidd, sefydliadol a daearyddol); cynaliadwyedd (golwg hir dymor o gefn gwlad a chymdeithas wledig); cyfranogiad (cynyddu capasiti a chyfranogiad cymunedau).

- ***Y Cynllun Adfer Gwledig* (2001)**. Cynhyrchwyd y cynllun hwn gan Lywodraeth y Cynulliad mewn ymateb i argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau gan ryddhau £65 miliwn i fynd i'r afael â materion ar sail thematig. O dan y cynllun hwn, mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cyngor busnes a chyngor technegol, gyda strategaethau ar wahân ar gyfer marchnata a thwristiaeth. Mae'r **Fenter Marchnata Gwledig** a'r **Gronfa Datblygu Gwledig** wedi cydlynu gweithgareddau i hyrwyddo twristiaeth wledig ac mae'r **Cynllun/Pecyn Offer Adfywio Cymunedol** yn helpu i fynd i'r afael â meysydd o angen penodol.

2.27. Yn ogystal â'r uchod, er ei fod bellach wedi'i gyhoeddi ers tair blynedd, darparodd *Cymru Wledig: Datganiad gan y Bartneriaeth Wledig*[3] (1999) gyfres gydlynus o argymhellion polisi i Gymru wledig gyda'r nod o gynorthwyo wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru. Nododd y datganiad yr ystod eang o ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a diwylliannol sy'n gyfrifol, gyda'i gilydd, am lunio dyfodol Cymru wledig, darparu cydlyniant economaidd a chymdeithasol a datblygu gwledig cynaliadwy.

2.28. Mae'r holl ddogfennau strategaeth a pholisi uchod yn cysylltu â'r rhaglenni ariannu Ewropeaidd, yn bennaf:

- *Rhaglen Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer Gorllewin Cymru a Rhaglen Amcan 1 y Cymoedd ar gyfer 2000-2006* (2000). Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rhaglen ar gyfer cyflwyno Amcan 1 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan adlewyrchu'r anawsterau economaidd penodol a wynebir gan yr ardaloedd hyn, gyda'r prif nod o hyrwyddo datblygiad ac addasiad strwythurol rhanbarthau y mae eu datblygiad ar ei hôl hi.


- *Rhaglen Amcan 2 Dwyrain Cymru a'r Rhaglen Drosiannol (2000-2006).* Nod y rhaglen hon yw helpu rhanbarthau yr effeithiwyd yn ddifrifol arnynt gan broblemau strwythurol, fel dirywiad diwydiannol, gwledig, trefol a socio-economaidd.

[3] Sefydlwyd y Bartneriaeth Wledig i Gymru ym mis Tachwedd 1998 fel corff ymgynghorol sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth eang o sefydliadau i gyfrannu at ddatblygu polisïau a rhaglenni gwledig ar gyfer y dyfodol. Mae'r sefydliadau fel a ganlyn: CPRW, ELWa, CLA, CCW, Asiantaeth yr Amgylchedd, FUW, Ffederasiwn Busnesau Bach, Fforwm, Comisiwn Coedwigaeth, Sefydliad Iechyd Gwledig, Partneriaeth Canolbarth Cymru, NFU, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Fforwm Economaidd Gogledd Cymru, Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Menter Cymru, Rhwydwaith LEADER Cymru, CLILC, Fforwm Gwledig Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Bywyd Gwyllt Cymru a Chyswllt Cefn Gwlad, Asiantaeth Datblygu Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru.

- *Dogfen Rhaglennu Sengl LEADER + Cymru 2000-2006* (2001). Mae'r ddogfen hon yn nodi'r fframwaith ar gyfer cyflwyno LEADER + mewn ardaloedd o Gymru gyda phoblogaeth o lai na 120 o drigolion fesul kilometr sgwâr.

- *Rhaglen Menter Gymunedol INTERREG IIIa Iwerddon/Cymru 2000-2006* (2001). Eto noda'r ddogfen hon y fframwaith ar gyfer cyflwyno'r rhaglen Ewropeaidd hon o fewn yr ardaloedd cymwys sy'n cwmpasu rhanbarthau NUTS III yr UE yng Nghymru (gan gynnwys Gwynedd, Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a rhan o Gonwy).

**Ffig 2.3: Ardaloedd Amcan 1, 2 ac ardaloedd trosiannol**




*Mainstream European Structural Fund Programme Areas 2000-2006 - Ardaloedd Rhaglen Prif Ffrwd y Gronfa Strwythurol Ewropeaidd 2000-2006*

*Objective 1 Area - Ardal Amcan 1*

*Objective 2 Areas - Ardaloedd Amcan 2*

*Transitional Objective 2 Areas - Ardaloedd Trosiannol Amcan 2*

*Transitional Objective 3b Areas - Ardaloedd Trosiannol Amcan 3b*

*Local Authority Boundary - Ffin Awdurdod Lleol*

2.29. Yn ogystal, ymhlith y mentrau cymunedol perthnasol eraill mae: y fenter *Pobl mewn Cymunedau* (Llywodraeth y Cynulliad) sy'n cefnogi adfywio cymdogaethau gan gynnwys projectau yng Ngwynedd a Chonwy; *Y Fenter Trefi Marchnad*[4] a fu ar waith gan Awdurdod Datblygu Cymru rhwng 1996 a 2000 yn cwmpasu deg tref yng nghanolbarth Cymru (gan gynnwys Tregaron) a anogodd cymunedau lleol i ddod ynghyd i ymdrin ag adfywio lleol; a'r *Pecyn Offer Adfywio Cymunedol* a sefydlwyd yn lle'r *Fenter Trefi Marchnad* yng nghanolbarth Cymru ac a ddilynwyd gan y *Fenter Trefi Bach a Phentrefi* debyg yng Ngogledd Cymru, gyda mentrau cyffelyb bellach yn cael eu sefydlu yn Ne Cymru a De Ddwyrain Cymru.

2.30. Tra bod strategaethau perthnasol eraill sy'n cwmpasu'r economi wledig ehangach a thirlun wedi'i ffermio yn cynnwys: *Tasglu Tir Uchel* (2001) a archwiliodd yr argyfwng mewn ffermio tir uchel (cyn argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau) a'r angen am fesurau brys i ymdrin â'r problemau hyn; strategaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol *Valuing the Environment* (2001); a pholisi'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad ar gyfer yr economi wledig *Towards a Sustainable Economy: A strategy for agriculture and rural business* (2000) a *Rural Regeneration: CLA's policy framework for business diversification* (2001).

2.31. Drwy'r dogfennau polisi a strategaeth hyn a thrwy'r amrywiaeth o fentrau a nodir uchod a'r sylwebaethau arnynt, ceir nifer o themâu a ailadroddir yn rheolaidd, sy'n anelu'n rhannol at ymdrin â'r materion a nodir ym mhara 2.26:

- **Hyrwyddo arallgyfeirio'r economi wledig mewn ffordd gynaliadwy:** Bellach mae'r egwyddor hon yn ganolog i bob dogfen strategol sy'n ymwneud â dyfodol ardaloedd gwledig. Fel y nodwyd gan Fforwm Gwledig Cymru "*Rhaid i'r ymdrechion barhau i annog arallgyfeirio cyflogaeth ac i osgoi dibyniaeth ormodol ar sail economaidd gul fel ag achosodd broblemau mor ddifrifol yn y gorffennol"*. Y themâu a nodwyd gan Ddatganiad y Bartneriaeth Wledig (1999) i gyflawni dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru wledig oedd: Hyrwyddo Datblygiad Busnes; Gwasgaru Llewyrch Economaidd; Datblygu Sgiliau i Gyfateb ag Anghenion Busnesau; Atgyfnerthu Cymunedau; Gwella Mynediad i Wasanaethau Gwledig; Buddsoddi mewn Isadeiledd Gwledig; Gwella'r Amgylchedd Gwledig; a Datblygu Strategaeth Wledig i Gymru.

- **Amrywiaeth o ymagweddau a mentrau heb eu cydlynu** ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru wledig. Mae nifer arbennig o fawr o asiantaethau yng Nghymru sy'n gyfrifol am hyrwyddo datblygu economaidd. O ganlyniad, gofynnwyd sawl gwaith am esboniad o gyfrifoldebau gwledig gwahanol sefydliadau fel Awdurdod Datblygu Cymru ac ELWa a gwell prosesau ar gyfer gwerthuso perfformiad asiantaethau a pholisïau *(Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* 2000*)*. Yn yr un modd, un o wendidau tybiedig LEADER 1 a LEADER 11 oedd i'r rhaglenni gael eu datblygu heb ystyried mentrau a rhaglenni eraill. Yn ogystal, nododd amrywiaeth o

[4] Yn nodweddiadol, sefydlodd y trefi bwyllgor gan gyflogi swyddog datblygu, a ariannwyd gan y Fenter, a fu'n datblygu'r project ac yn gwneud ceisiadau am arian cyfalaf pellach. Ymhlith y projectau a sefydlwyd gan y Fenter roedd digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon, gwelliannau amgylcheddol, ymdrechion i adfywio mentrau manwerthu a mentrau masnachol eraill a chyfleusterau newydd ar gyfer busnes, hamdden a diwylliant.

sylwebwyr yr angen am weithdrefnau gwneud cais symlach wedi'u cydlynu'n well ar gyfer gwahanol lifoedd arian. Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn daeth Midmore (2001 a 2002) i'r casgliad fod yr amrywiaeth cynyddol o strategaethau i fynd i'r afael â phroblemau polisi gwledig wedi arwain at fwy o raniad a diffyg integreiddio wrth fynd i'r afael â'r materion cymhleth a wynebir gan ardaloedd gwledig.

- **Yr angen i integreiddio:** Yn dilyn y thema uchod, mae galw i gydnabod y rhyngddibyniaeth rhwng yr economi, dysgu gydol oes, cymunedau, yr amgylchedd, a meysydd polisi eraill fel iechyd a thrafnidiaeth. Yn gysylltiedig â hyn ceir galw am well dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng ardaloedd trefol a gwledig (*Cymru'n Ennill*, 2001 ac *Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* 2000*)*. Fel y nodir gan Fforwm Gwledig Cymru "*Mae'r rhaniad rhwng buddiannau economaidd, cymunedol ac amgylcheddol yn artiffisial a rhaid ei leihau i'r eithaf. Nid oes unrhyw raniadau pendant rhwng dimensiynau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a gwleidyddol bywyd gwledig. Mae cysylltiad agos rhwng newidiadau yn yr economi wledig a datblygiadau cymdeithasol a diwylliannol; maent hefyd yn helpu i lunio'r ecoleg a'r amgylchedd naturiol. Mae angen ymagwedd integredig sy'n rhoi sylw i'r cysylltiadau rhwng yr holl elfennau hyn ac sy'n ceisio sicrhau y gellir gwneud iddynt gydweithio"*. (Datganiad Llangollen Fforwm Gwledig Cymru, 1998).

- **Gweithio gyda ffactorau lleol - adeiladu dyfodol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o anghenion lleol:** Mor gynnar â 1995, roedd arweiniad cenedlaethol *Cynllunio ar gyfer Arallgyfeirio Gwledig* wedi nodi y dylid seilio polisïau cynllunio ar gyfer arallgyfeirio gwledig ar ddealltwriaeth o anghenion penodol ardaloedd lleol. Yn yr un ffordd, cydnabu'r Datganiad gan y Bartneriaeth Wledig bod angen gweithredu ar lefel ranbarthol a lleol er mwyn ymdrin ag amgylchiadau penodol gwahanol gymunedau gwledig ac er mwyn sicrhau perchenogaeth a rheolaeth leol. Yn *Cymru'n Ennill* (2001) cydnabyddir na all strategaeth Cymru gyfan adlewyrchu "*yr amrywiaeth o syniadau a chyfleoedd sy'n codi ar lefelau rhanbarthol a lleol yng Nghymru"*. O ganlyniad, mae Awdurdod Datblygu Cymru yn cynhyrchu cyfres o Gynlluniau Gweithredu Strategol (SAPs) yn seiliedig ar themâu i adlewyrchu gwahanol ardaloedd Cymru a'u nodweddion arbennig. Ac fel y pwysleisiwyd gan Midmore (2002) *"mae polisi gwledig heb amrywiadau yn rhy gaeth i ddarparu'r atebion hyblyg, lleol sydd eu hangen i ystyried y materion hyn* [y problemau sy'n wynebu ardaloedd gwledig]*"*. Mewn nifer o strategaethau, pwysleisir nodi a thargedu anghenion lleol boed o ran isadeiledd, cymorth i ficro-fusnesau neu ddatblygu cymunedau.

- **Gweithio gyda chymunedau lleol - ymagweddau o'r bôn i'r brig:** Yn rhannol mewn ymateb i'r angen i adlewyrchu amgylchiadau lleol, rhoddir pwyslais cynyddol ar ymrymuso cymunedau a datblygu gweledigaethau a strategaethau hir dymor lleol wedi'u hwyluso gan gydlynydd project, fel y gwnaed o dan y *Fenter Trefi Bach a Phentrefi.* Yn wir, daeth gwerthusiad Sefydliad Tavistock (2000) o'r *Fenter Trefi Marchnad* i'r casgliad nad 'ychwanegiad dewisol' i ddatblygu economaidd yw datblygu cymunedol ond rhan hanfodol ohono. Felly rhydd *Arallgyfeirio'r Economi Wledig* (2001) bwyslais ar bolisïau cenedlaethol cydlynus ar gyfer ardaloedd gwledig "*wedi'u cyflwyno gan gymunedau ac awdurdodau lleol gyda chynaliadwyedd yn greiddiol iddynt"* gan ganolbwyntio ar ddatblygiad economaidd cymunedau drwy gynyddu capasiti, gweithio aml-asiantaeth a gweithredu o dan

arweiniad y gymuned, tra yr argymhella strategaeth Awdurdod Datblygu Cymru y dylai awdurdodau lleol weithio fel arweinwyr cymunedau i roi camau gweithredu lleol ar waith. Amlygir y pwyslais hwn ar adfywio cymunedau yng Nghynlluniau Gweithredu Adfer Gwledig fel *Cynllun Gweithredu Adfer Gwledig Fforwm Economaidd Gogledd Cymru* (2002) a gwaith Fforwm Gwledig Cymru.

- **Cymorth i fusnesau lleol:** Pwysleisir yr angen i gynyddu nifer y busnesau lleol llwyddiannus yn hytrach na dibynnu ar fewnfuddsoddi (*Cymru'n Ennill,* 2001 a *Cymru Wledig, 2000*). Felly un o bedair blaenoriaeth strategol Strategaeth Awdurdod Datblygu Cymru yw *Cynyddu Cyfranogiad* sy'n pwysleisio y bydd cyfleoedd gwaith newydd yn ddibynnol ar ddenu busnes newydd i Gymru **a** chynorthwyo twf busnesau sy'n bodoli eisoes. Er nad yw wedi'i anelu'n benodol at fusnes lleol, mae *Arallgyfeirio'r Economi Wledig* (2001) yn argymell y dylid gwella'r ddarpariaeth o gyngor a chyllid sydd ar gael i fusnesau gwledig, targedu busnesau yng Nghymru wledig mewn ffordd bro-actif, mwy o fenthyciadau bach ar gyfer busnesau gwledig, a chanllawiau symlach i gymorth ariannol. Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i feithrin mentrau lleol a gwella'r ddarpariaeth o weithleoedd a datblygu prosesau magu busnes fel ffyrdd o feithrin busnesau newydd.

- **Annog arloesedd ac entrepreneuriaeth:** Wedi'u cysylltu â'r uchod, mae'r *Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru* (2000) a *Cymru'n Ennill* (2001) yn annog arloesedd ac entrepreneuriaeth ac o dan Strategaeth Coetiroedd Cymru mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn cydweithio gyda phartneriaid eraill i ymestyn cynnyrch coetiroedd. Nodir yr angen am arloesedd ac entrepreneuriaeth gan Awdurdod Datblygu Cymru fel blaenoriaeth strategol arall - *Menter.*

- **Symud i fyny'r gadwyn werth:** Mae ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol yn thema a ailadroddir drwy bob polisi a strategaeth genedlaethol fwy neu lai. Mae'n ganolog i'r *Cynllun Datblygu Gwledig* (2000)*, Amcan 1, LEADER +, INTERREG 111a, Arallgyfeirio'r Economi Wledig* (2001) ac mae'n ffocws canolog i *Ffermio ar gyfer y Dyfodol* (2001). Mae'r strategaeth olaf hon yn cyflwyno dewis rhwng parhau i gystadlu mewn marchnadoedd ar gyfer nwyddau amaethyddol a bwyd sylfaenol lle y mae'r gystadleuaeth yn seiliedig ar brisiau, neu symud tuag at ffocws ar gynnyrch o ansawdd uchel, gwerth ychwanegol wedi'u brandio wedi'u hanelu at farchnadoedd mwy arbenigol. Bydd hyn yn gofyn am well cydweithrediad rhwng ffermwyr, defnyddio TGCh ac ymestyn y sail amaethyddol bresennol er mwyn creu economi fwy amrywiol yn seiliedig ar y tir gan gynnwys garddwriaeth, biomas a choetiroedd fferm, amaeth-dwristiaeth a physgodfeydd. Fel y pwysleisiwyd gan Midmore (2002) *"I raddau helaeth, dim ond drwy wella ansawdd y cynnyrch y cynyddir incwm Cymru wledig (a hynny'n arbennig o wir ar gyfer amaethyddiaeth a thwristiaeth, gan fod marchnadoedd cost isel yn orlawn ac yn annhebygol o gyflwyno rhagolygon ar gyfer twf posibl yn y dyfodol)".*

- **Annog yr ifanc i aros neu ddychwelyd i Gymru wledig**: Ailystyrir y maes hwn yn rheolaidd gan y mentrau 'o'r bôn i'r brig' ac, yn deillio o'r camau gweithredu a nodwyd yn *Cymru'n Ennill* (2001), gwnaed gwaith ymchwil yn ystod 2002 ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda chymorth gan Bartneriaeth Wledig Cymru ar *Age Balanced Communities in Rural Wales.* Ymchwiliodd y gwaith hwn i'r ffactorau sy'n arwain at allfudo ymhlith pobl ifanc o ardaloedd gwledig a'r

rheini sy'n gweithredu fel rhwystrau iddynt ddychwelyd. Bydd hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu yn cynnig amrywiaeth o fesurau i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc aros mewn rhai ardaloedd gwledig neu ddychwelyd iddynt.

- **Datblygu sgiliau ac annog diwylliant dysgu:** Pwysleisir gwelliant cynhwysfawr mewn sgiliau yn *Arallgyfeirio'r Economi Wledig* (2001) a'r *Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru* (2000), felly hefyd bwyslais ar ddatblygu cysylltiadau busnes-addysg a lledaenu arfer da. Mae ELWa wedi addo cyflwyno ymateb arloesol ac integredig i anghenion dysgu unigolion, busnesau a chymunedau ac mae gwaith fel Projectau Datblygu Trefi Gogledd Cymru o dan arweiniad ELWa wedi dangos bod mesurau yn seiliedig ar bobl yn hanfodol er mwyn gwireddu gwerth buddsoddiadau cyfalaf.

- **Datblygu'r economi yn seiliedig ar wybodaeth:** Ystyrir fod datblygu economi yn seiliedig ar wybodaeth yn ffordd bwysig o drawsnewid lles economaidd a chymdeithasol y wlad (*Arallgyfeirio'r Economi Wledig*, 2001, *Cymru'n Ennill,* 2001). Fe'i hystyrir hefyd yn rhan annatod o unrhyw strategaeth i wella gwerth cynnyrch yn seiliedig ar y tir - gan ddarparu offer marchnata hanfodol. Dadleuir y byddai telathrebu lled band uwch yn caniatáu gwell cydnawsedd ym maes darlledu, cyhoeddi a'r rhyngrwyd (*Ubiquitous Broadband for Wales,* 2001*).* O dan y flaenoriaeth strategol *Technoleg Gwybodaeth* mae gan Awdurdod Datblygu Cymru rôl flaenllaw yn y maes hwn. Ymhlith y targedau ar gyfer 2003 mae rhwydwaith o ganolfannau TGCh yn ogystal â Chanolfannau Arloesedd ymhob un o ranbarthau'r Awdurdod.

- **Atgyfnerthu twristiaeth:** Nodir twristiaeth fel diwydiant canolog ar gyfer dyfodol yr economi wledig yn y dogfennau polisi diweddaraf, gyda'r cyswllt hanfodol rhwng twristiaeth ac amgylchedd o ansawdd uchel yn cael ei danlinellu. Ystyrir fod natur unigryw hanes Cymru, ei hiaith a'i ffordd o fyw oll yn asedau arbennig i'r diwydiant twristiaeth, fel y pwysleisir gan *Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol* y Bwrdd Croeso ac *INTERREG 3a*. Rhoddir pwyslais hefyd ar y cyswllt gyda chwaraeon gwledig fel genweirio (*Cymru'n Ennill,* 2001 a *Ffermio ar gyfer y Dyfodol,* 2001).

- **Cysylltu â'r amgylchedd ac annog yr economi werdd:** Ystyrir fod amgylchedd gwyrdd a glân yn hanfodol fel cefndir i economi wledig iach. Mae hefyd yn hanfodol wrth ychwanegu gwerth i gynnyrch lleol, wrth annog twristiaeth, yn ogystal â darparu catalydd ar gyfer datblygiadau a thechnolegau cynaliadwy newydd fel dal ynni gwastraff (*Cymru'n Ennill,* 2001). Yn hanfodol ystyrir fod amgylchedd ac etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru wledig yn elfen hanfodol o ansawdd bywyd cymunedau gwledig. *"Mae profiad y fenter Trefi Marchnad yn ailbwysleisio mewn ardaloedd gwledig bod ansawdd bywyd a'r amgylchedd yn hanfodol o ran lle a sut y mae pobl am fyw, gweithio ac ymweld a lle y mae busnesau am gael eu lleoli. Mae datblygu cymdeithasol yn gyfystyr â datblygu economaidd"* (Sefydliad Tavistock, 2000), thema a ailadroddir yn strategaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol *Valuing the Environment* (2001).

2.32. Nodwyd llawer o'r themâu hyn yn yr ymgynghoriadau cyhoeddus a oedd yn rhan o'r astudiaeth hon.

## YMGYNGHORIADAU CENEDLAETHOL

2.33. Nodir rhestr lawn o'r ymgynghoreion cenedlaethol y cysylltwyd â hwy fel rhan o'r astudiaeth hon yn **Atodiad 1.** Ymhlith y themâu pwysig a godwyd yn ystod yr ymgynghoriadau hyn roedd:

### Yr economi wledig yng Nghymru

2.34. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion yn glir fod yn rhaid i amaethyddiaeth barhau yn elfen hanfodol o'r economi wledig, gan bwysleisio ei phwysigrwydd anuniongyrchol yn ogystal ag uniongyrchol i fentrau a chymunedau gwledig. Pwysleisiwyd pwysigrwydd coedwigaeth hefyd.

2.35. Felly ystyriwyd mai'r tir a'r amgylchedd gwledig oedd prif asedau Cymru wledig. Mae profiad FMD wedi pwysleisio'r arwyddocâd bras hwn gan y teimlwyd ei effeithiau yn helaeth. Cafwyd cefnogaeth dda tuag at sicrhau bod polisïau yn ychwanegu gwerth at amrywiaeth o gynnyrch gwledig. Nodwyd hefyd fod amrywiaeth y cynnyrch yn bwysig.

2.36. Yn y cyd-destun hwn pwysleisiwyd fod y broses o ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a datblygu cynlluniau amaeth-amgylchedd yn debygol o ddylanwadu'n gryf ar ddyfodol yr economi wledig. Ystyriwyd fod ansawdd amgylchedd Cymru a hunaniaeth ddiwylliannol gref yn fantais 'brand' allweddol y dylid ei diogelu.

2.37. Nododd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion fod yr economi wledig yng Nghymru yng nghanol cyfnod o newid yr oedd angen ei reoli'n ofalus. Dadleuwyd nad oedd yr economi wledig yn dirywio ond bod angen ei deall yn iawn. Pwysleisiwyd eto mai busnesau bach a chanolig eu maint yw'r rhan fwyaf o fusnesau gwledig yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn ficro-fusnesau. Nodwyd hunan-gyflogaeth, gweithio o gartref a lluosweithgaredd fel elfennau cynyddol gyffredin. Nodwyd fod llawer o gwmnïau a ehangodd eu gorwelion yn llwyddo yn eu maes.

2.38. Cydnabuwyd fod prinder cyfleoedd cyflogaeth i'r ifanc a'r rhai sy'n meddu ar sgiliau. Ystyriwyd fod colli pobl ifanc o ardaloedd gwledig a'r boblogaeth fwy oedrannus yn un o'r problemau mwyaf dybryd sy'n wynebu ardaloedd gwledig. Ystyriwyd fod gwarchod iaith a diwylliant Cymru yn hanfodol. Roedd mewnfudo hefyd yn ffactor allweddol ond ni nodwyd awgrymiadau manwl o ran sut y dylid mynd i'r afael â'r tueddiadau hyn.

2.39. Fel y nodwyd yn y dogfennau polisi, ystyriwyd fod TGCh yn bwysig iawn i ddyfodol yr economi wledig, ond nid oedd y defnydd ohoni yn gyffredin ar hyn o bryd ac ni allai ddisodli gofynion busnes angenrheidiol eraill.

2.40. Nodwyd bod angen datblygu Cymru fewndirol fel cyrchfan twristiaeth allweddol yn hytrach nag ardal i deithio drwyddi. Dylai hyn fod yn seiliedig ar ddarpariaeth berthnasol a gwreiddiol o ansawdd, a fyddai'n gofyn am gasgliad wedi'i ganolbwyntio'n well o ddata am dwristiaeth (ee y ddarpariaeth o welyau yn ôl maint y gwesty); hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd Cymru; datblygu rhwydweithiau lleol fel rhwydweithiau twristiaeth fferm; uwchraddio'r isadeiledd twristiaeth, fel hawliau tramwy; a chanolbwyntio'r ddarpariaeth ar farchnadoedd wedi'u diffinio'n glir.

2.41. Roedd yr angen am *realaeth* yn elfen gyffredin yn yr holl sylwadau hyn. Teimlwyd fod cyfleoedd arallgyfeirio yn ymwneud yn bennaf â mentrau bach eu maint, gan adeiladu ar adnoddau amgylcheddol, twristiaeth ac ansawdd sy'n bodoli eisoes. Teimlwyd hefyd bod angen pwyslais ar gysylltiadau - cysylltu gweithgareddau sy'n bwydo oddi ar ei gilydd, a hyrwyddo gweithio portffolio a darparu swyddi sy'n agos at gronfeydd llafur sy'n bodoli eisoes ac sy'n datblygu. Roedd yr angen am gyfleusterau dechrau a magu bach hefyd yn thema gyffredin, felly hefyd gymorth i fusnesau cynhenid sy'n tyfu a chymorth a hyfforddiant i bobl leol.

2.42. Rhybuddiodd y CBI yn benodol yn erbyn y cysyniad y gallai'r sector cyhoeddus gynllunio economïau lleol. Roedd angen realaeth o ran cryfderau a gwendidau ardal benodol er mwyn sicrhau y gallai polisïau lwyddo yn hytrach na nodi uchelgais yn unig. Yn hytrach teimlwyd y dylid eu targedu at yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn amodau'r farchnad sydd ohoni a gweithredu ar isadeiledd hanfodol, llafur a hyfforddiant, ac anghenion cymorth grant, yn y cyd-destun hwn. **Felly mae lleoliad yn nodwedd sefydlog i'w ystyried gyda phersbectif hir dymor, yn arbennig o gofio natur gynyddol 'annibynnol' mentrau gwledig. Ystyriwyd fod natur ymylol y rhan fwyaf o Gymru wledig yn ffactor arwyddocaol a oedd yn effeithio ar ddatblygiad yr economi wledig, ond gallai natur ymylol hefyd fod yn gryfder drwy gadw cymunedau cadarn a chydlynus.**

2.43. Gan ddod â'r pwyntiau hyn ynghyd, nododd yr ymgynghoreion yr angen am *weledigaeth*. Roedd angen integreiddio elfennau niferus yr economi wledig, a fyddai'n gofyn am ddealltwriaeth drwyadl o'r economi leol a hefyd yn ei gwneud yn ofynnol rhoi p□er i gymunedau lleol a'u cynnwys wrth ddatblygu eu cynigion hwy eu hunain - ystyriwyd fod hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni perchenogaeth leol.

### Cynllunio

2.44. Roedd cytundeb cyffredinol nad yw cynllunio yn cyfyngu ar ddatblygiad yr economi wledig ond nad yw'n gwneud llawer i gynorthwyo'r broses, sef pwynt a ailadroddir drwy gydol yr adroddiad hwn. Mae cynllunio ar gyfer arallgyfeirio gwledig yng Nghymru yn baradocsaidd. Mae cynllunio'n gweithio orau pan fydd galw am ddatblygiad. Nid dyma'r achos mewn sawl rhan o Gymru wledig lle y caiff datblygu economaidd ei annog yn gyffredinol yn hytrach na'i reoli.

2.45. Felly rhoddir sylw i'r ffordd y gallai'r broses gynllunio fod yn fwy pro-actif. Y farn gyffredinol, os nad unfrydol, oedd nad yw'r *diwylliant* cynllunio, os nad ei bolisïau, yn gydnaws ag annog arallgyfeirio gwledig. Ystyrir fod y broses gynllunio yn geidwadol, yn osgoi risgiau a bod ganddi ddealltwriaeth wael o ddatblygu economaidd a busnes. Hefyd, mae'r broses gynllunio wedi'i chydlynu'n wael â gweithgareddau datblygu economaidd ac yn aml mae awdurdodau lleol yn methu â chyflwyno un wyneb i'r gymuned fusnes.

2.46. Ystyriwyd hefyd nad oedd y broses gynllunio yn ddigon ymatebol i newidiadau yn amodau'r farchnad nac yn ddigon hyblyg gydag achosion unigol. Serch hynny, prin oedd y gefnogaeth i *lai* o gynllunio. Deallwyd fod gan y broses gynllunio rôl hanfodol wrth ddiogelu amgylchedd Cymru - ei hased economaidd mwyaf gwerthfawr. Yn ogystal, teimlwyd yn aml fod gan y broses gynllunio ffocws gormodol ar drefi gyda dealltwriaeth wael o faterion gwledig. Roedd angen gwell dealltwriaeth o ddatblygu

economaidd gwledig, ac yn arbennig o rinweddau arbennig gwahanol ardaloedd gwledig, er mwyn i'r broses gynllunio allu ymateb yn well i anghenion lleol. Dylai'r broses gynllunio hefyd gynnwys pobl leol yn fwy wrth lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau a chael ei hintegreiddio'n well gyda chynigion eraill ar gyfer datblygu economaidd a chyllid.

2.47. Dau bwynt arall a godwyd hefyd oedd: yr angen i roi mwy o sylw i gynllunio mewn ardaloedd gwledig a'r angen i ystyried mentrau coedwigaeth yn yr un ffordd ag yr ystyrir mentrau arallgyfeirio ar ffermydd.

2.48. Yn achos gweithgareddau coedwigaeth a choetiroedd, mynegwyd pryder yn y gweithdai a gynhaliwyd yn Rhuthun efallai na fydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn cefnogi gweithgareddau arallgyfeirio coetiroedd, fel llosgi golosg. Mae trafodaethau pellach gyda'r Comisiwn Coedwigaeth wedi nodi yn eu profiad hwy bod awdurdodau cynllunio lleol yn barod iawn i dderbyn gweithgareddau arallgyfeirio coedwigaeth ac ychwanegu gwerth ac y byddant yn eu cefnogi drwy'r broses gynllunio. Daw'r prif broblem cynllunio i'r amlwg pan ddefnyddir gweithgaredd arallgyfeirio coetiroedd fel cyfiawnhad dros annedd gweithiwr ym maes coedwigaeth. Yn yr achosion hyn bydd awdurdodau cynllunio yn ymwrthod yn gryf ag unrhyw elfen breswyl yn unol ag arweiniad cenedlaethol (TAN 6, paragraff 52), gan adlewyrchu'r ffaith mai anaml iawn y bydd gweithgareddau rheoli coetiroedd a gweithgareddau gwerth ychwanegol cysylltiedig yn cyfiawnhau annedd breswyl. Serch hynny, erys rhai gweithwyr coetir o'r farn nad yw'r gymuned gynllunio yn rhoi cymaint o bwys ar weithgareddau coetir o'u cymharu ag arallgyfeirio ar ffermydd. Mae angen ymdrin â'r amgyffrediad hwn.

### Crynodeb

- Nid yw'r economi wledig yng Nghymru yn perfformio cystal â'r economi gyffredinol yng Nghymru. Mae'r cyfraddau gweithgarwch yn uwch na'r cyfartaledd, ond mae cyflogau a chynhyrchiant yn is.

- Mae cyflogaeth wledig a threfol yng Nghymru yn gymharol debyg ond ymhlith nodweddion gwledig nodweddiadol mae dibyniaeth ar amaethyddiaeth, sydd wedi dioddef dirywiad difrifol ers canol y 1990au, twristiaeth, y sector cyhoeddus a gwasanaethau. Sail economaidd gymharol gul a diamddiffyn a ddarperir ganddynt.

- Mae cymudo yn ffactor arwyddocaol i drigolion a busnesau gwledig ond nid oes data manwl ar gael ar batrymau cymudo.

- Mae busnesau bach a chanolig eu maint yn holl bwysig i'r economi wledig yng Nghymru ac mae'r ffaith eu bod yn defnyddio llafur, adnoddau a marchnadoedd lleol yn fantais benodol.

- Mae'r boblogaeth mewn sawl rhan o Gymru wledig yn cynyddu, yn unol â'r boblogaeth genedlaethol yn gyffredinol. Serch hynny, ceir colled net o ran pobl ifanc sy'n waeth mewn rhai ardaloedd gwledig mwy anghysbell lle mae'r golled absoliwt yn y boblogaeth hefyd yn achos pryder o hyd.

- Mae sgiliau a chymwysterau'r boblogaeth wledig yn wannach na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond mae cymwysterau pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn well, gan ddangos bod pobl ifanc a chymwys yn tueddu i adael Cymru wledig.

- Mae'r defnydd o TGCh yng Nghymru wledig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Nodir natur anghysbell llawer o Gymru wledig yn y rhwydwaith ffyrdd fel rhwystr economaidd, ond ni chaiff y broblem ei datrys drwy raglen sylweddol o adeiladu ffyrdd.

- Ceir arwyddion cryf bod cyflwr yr economi wledig yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae'r diffyg diffiniad cytûn ar gyfer Cymru wledig a'r diffyg ystadegau manwl yn rhwystr i ddealltwriaeth fwy cydlynus o'r economi wledig.

- Erbyn hyn ceir swm sylweddol o bolisïau a rhaglenni ar gyfer datblygu economaidd gwledig yng Nghymru. Ymhlith y themâu cyffredin mae:
    - pwysigrwydd parhaus yr amgylchedd gwledig ac amaethyddiaeth
    - yr angen i ychwanegu mwy o werth at gynnyrch a phobl yn yr economi wledig
    - yr angen i ddeall a gweithio gyda'r amrywiaeth o economïau gwledig lleol
    - pwysigrwydd busnes cynhenid yn ogystal â mewnfuddsoddi
    - hyrwyddo sectorau arloesol fel TGCh a'r economi werdd
    - yr angen am bolisïau wedi'u cydlynu'n well
    - pwysigrwydd datblygu cymunedau.

- Mae cynhyrchiant a gweithgarwch entrepreneuraidd yn gymharol isel, a gellir priodoli hyn yn rhannol i ddiffyg sgiliau, yn arbennig sgiliau sy'n gysylltiedig â TGCh. Heb welliannau i'r ddarpariaeth TGCh yng Nghymru wledig gallai'r rhaniad technolegol presennol waethygu.

- Mae gan gynlluniau amaeth-amgylchedd fel y peilot Tir Cymen a'r Tir Gofal cenedlaethol fanteision economaidd ehangach amlwg.

- Mae llwyddiant rhaglenni ar gyfer adfywio gwledig yn amrywiol. Ymhlith yr elfennau llwyddiannus mae cynnwys y gymuned leol mewn ffordd bwrpasol, adeiladu ar adnoddau a galluoedd sy'n bodoli eisoes, amcanion a chymorth hir dymor a rhoi ystyriaeth lawn i natur arbennig yr ardal leol.

- Ceir cytundeb barn cryf y dylai polisïau ar gyfer arallgyfeirio'r economi wledig fod yn realistig, wedi'u hintegreiddio, ac wedi'u gwreiddio mewn dealltwriaeth glir o anghenion lleol a nodweddion lleol arbennig. Er mwyn i'r broses gynllunio gymryd rhan fwy pro-actif ym maes arallgyfeirio gwledig, mae angen dealltwriaeth well o'r economi leol, wedi'i mynegi o fewn polisïau sy'n fwy soffistigedig ac yn fwy ymatebol yn lleol, a thrwy newid o fewn y diwylliant cynllunio.

# 3. POLISÏAU CYNLLUNIO

3.1. Mae'r Bennod hon yn archwilio polisi cynllunio ar gyfer arallgyfeirio gwledig. Mae'n edrych ar bolisi cynllunio cenedlaethol a pholisïau cynlluniau datblygu ardaloedd yr astudiaeth. Archwiliodd ymchwil gynharach, *Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio* (2001) a wnaed ar ran Llywodraeth y Cynulliad, yn helaeth i gyflwr polisïau cynlluniau datblygu gwledig yng Nghymru, yn arbennig o'u cymharu â disgwyliadau *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999). Nid ailadroddwyd yr ymarfer hwn yn yr astudiaeth hon, er bod canlyniadau'r astudiaeth flaenorol hon yn parhau i ddarparu cyd-destun.

## POLISI CENEDLAETHOL

3.2. Yn ddiweddar newidiwyd polisi cynllunio cenedlaethol yng Nghymru yn sylweddol wrth i *Polisi Cynllunio Cymru* (Mawrth 2002) ddisodli *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999), yn dilyn ymgynghori ar *Polisi Cynllunio Drafft Cymru* a gynhyrchwyd ym mis Chwefror 2001. Fodd bynnag, pennodd *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999) yr hinsawdd polisi ar gyfer llunio'r rhan fwyaf o'r cynlluniau datblygu. Felly mae'n darparu'r cyd-destun ar gyfer pob cynllun datblygu sy'n bodoli eisoes. Felly adolygir ei gynnwys yn fras cyn bwrw ati i ystyried y prif newidiadau a gyflwynwyd yn sgîl *Polisi Cynllunio Cymru* (2002).

### Arweiniad Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf (1999)

3.3. Mae *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999) yn cynnwys (para 3.2.1) pedwar amcan bras o ran datblygiad cynaliadwy sy'n cyfateb â diffiniad Brundtland (1987) o ddiwallu anghenion economaidd a chymdeithasol, diogelu'r amgylchedd a sicrhau y defnyddir adnoddau yn ddoeth. Gan ymdrin â datblygu economaidd, mae o blaid datblygu economaidd o fewn lleoliadau trefol sy'n bodoli eisoes (para 10.1.3), yn arbennig lleiniau arfordirol poblog de Cymru a gogledd ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y pwyslais y mae'r Llywodraeth wedi'i roi ar greu dosbarthiad tecach o swyddi a buddsoddi ledled Cymru. Mae cymoedd ac ardaloedd gwledig de Cymru yn ddwy ardal darged a ddiffiniwyd. Yn ogystal, anogir cefnogaeth i nodi safleoedd ar gyfer Pentrefi Diwydiannol a allai fod yn lleoliad i gwmnïau technoleg bach a chanolig eu maint.

3.4. Gan ymdrin â datblygu economaidd gwledig mae'r Arweiniad yn cyfeirio at *Good Practice Guide (Planning for Rural Diversification*) Adran yr Amgylchedd (1995) ac yn pwysleisio amcanion economaidd y Llywodraeth ar gyfer ardaloedd gwledig. Yn fras, "*Dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n annog datblygu economaidd ac arallgyfeirio mewn ardaloedd gwledig*" (10.3.4). Ystyrir fod rhai gweithgareddau masnachol a diwydiannol ysgafn yn ddefnydd amgen derbyniol mewn ardaloedd gwledig, ac ystyrir fod prosesu cynnyrch amaethyddol yn weithgaredd arallgyfeirio posibl ar ffermydd a all gyfrannu at yr economi wledig. Mae'r arweiniad yn amlygu y bydd anghenion economaidd a chymdeithasol yr ardal, ac ystyriaethau amgylcheddol a thraffig, oll yn ffactorau perthnasol i'w hystyried.

3.5. O fewn y Bennod Cefn Gwlad (para 5 .1.1) mae arweiniad polisi Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau y dylai datblygu yng nghefn gwlad "*fod o fudd i'r economi wledig a chynnal neu wella'r amgylchedd* ".

3.6. Ceir llai na thudalen o arweiniad ar ddatblygu mewn ardaloedd gwledig.

### Polisi Cynllunio Cymru (2002)

3.7. Mae *Polisi Cynllunio Cymru (2002)* yn ymhelaethu'n sylweddol ar y polisi blaenorol ar ddatblygiad cynaliadwy gan nodi "*Mae gan y system gynllunio rôl hanfodol wrth gyflwyno datblygiad cynaliadwy yng Nghymru.*" (2.1.5). Noda naw egwyddor ac 18 o amcanion ar gyfer cynllunio'r defnydd o dir ar gyfer datblygiad cynaliadwy. Yn eu tro, nodir blaenoriaethau polisi ar gyfer ardaloedd trefol a gwledig. Y blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd gwledig yw sicrhau:

- *"cymunedau gwledig **cynaliadwy** gyda mynediad i wasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel;*
- *economi leol lewyrchus ac amrywiol lle y caiff gweithgareddau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth eu hategu gan dwristiaeth gynaliadwy a mathau eraill o gyflogaeth mewn cefn gwlad gweithredol; a*
- *cefn gwlad deniadol, ecolegol gyfoethog a hygyrch lle caiff yr amgylchedd a bioamrywiaeth eu gwarchod a'u gwella."* (2.4.4)

3.8. Nodir cymhlethdod adnoddau ac anghenion gwledig:

*"Mae cefn gwlad yn adnodd deinamig, aml-bwrpas. Yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd, rhaid ei warchod a, lle y bo'n bosibl, ei wella er mwyn ei werth ecolegol, daearegol, ffisiograffig, hanesyddol, archeolegol ac amaethyddol ac er mwyn ei dirlun a'i adnoddau naturiol, gan gydbwyso'r angen i warchod y nodweddion hyn yn erbyn anghenion economaidd, cymdeithasol a hamdden cymunedau lleol ac ymwelwyr."* (2.4.5)

Felly hefyd yr angen dilynol i integreiddio polisïau:

*"Er mwyn gwireddu'r nodau a'r blaenoriaethau hyn, bydd yn hanfodol integreiddio polisïau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn llawn."* (2.4.6)

3.9. Gan ymdrin â lleoliad **datblygiadau newydd mewn ardaloedd gwledig,** noda *Polisi Cynllunio Cymru*:

*"Dylid lleoli unrhyw ddatblygiadau yng nghefn gwlad o fewn neu gerllaw yr aneddiadau hynny lle y gellir darparu orau ar eu cyfer yn nhermau isadeiledd, mynediad a gwarchod cynefinoedd a thirlun. Gallai mewnlenwi neu fân estyniadau i aneddiadau presennol fod yn dderbyniol, ond rhaid parhau i gadw rheolaeth lem ar adeiladau newydd yng nghefn gwlad agored heb fod gerllaw aneddiadau presennol neu ardaloedd a ddyrannwyd ar gyfer datblygu o fewn CDU. Dylai pob datblygiad newydd barchu cymeriad yr ardal gyfagos a bod o faint a dyluniad priodol."* (2.5.7)

3.10. Ymhelaethir yn sylweddol ar bolisi ar yr economi wledig ac arallgyfeirio gwledig yn adran 7.3 - *Hyrwyddo arallgyfeirio yn yr economi wledig.* Ceir sawl elfen polisi newydd. Yn arbennig mae Adran 7.3.1 yn cyflwyno'r syniad y dylai **strategaeth datblygu**

**gwledig integredig** fod wrth wraidd polisïau'r cynllun datblygu, gan ailadrodd thema'r Bennod olaf bod angen i gynigion arallgyfeirio gael eu gwreiddio'n lleol:

*"Mewn ardaloedd gwledig dylai awdurdodau lleol baratoi strategaeth datblygu gwledig integredig i hwyluso'r broses o arallgyfeirio'r economi wledig, gan geisio darparu ar gyfer diwydiannau gwledig traddodiadol a mentrau newydd. Gellir lleoli llawer o weithgareddau masnachol a gweithgynhyrchu ysgafn (er enghraifft prosesu cynnyrch amaethyddol a chynnyrch coetiroedd) mewn ardaloedd gwledig heb achosi aflonyddwch annerbyniol neu effeithiau andwyol eraill. Mae gan fentrau bach ran hanfodol i'w chwarae wrth hyrwyddo gweithgarwch economaidd iach mewn ardaloedd gwledig, a all gyfrannu at allu cystadleuol yn lleol ac yn genedlaethol. Mae busnesau newydd mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol er mwyn cynnal a gwella cymunedau gwledig, ond anaml y bydd datblygiadau sydd ond yn cynnig budd economaidd byr dymor yn briodol."* (7.3.1)

3.11. Eglura Adran 7.5.1 y dylai'r strategaeth datblygu gwledig integredig fod yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy a chael ei theilwra i asedau ac anghenion penodol yr ardal.

3.12. Ymdrinia Adran 7.3.2 â safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd:

"*Er y gellir creu cyflogaeth mewn lleoliadau gwledig i ryw raddau drwy ailddefnyddio adeiladau presennol, bydd angen datblygiadau newydd mewn sawl rhan o Gymru wledig. Mae safleoedd ar gyfer datblygiadau newydd yn debygol o fod yn fach ac felly, ac eithrio arallgyfeirio ar ffermydd a datblygu amaethyddol lle mae meini prawf ar wahân yn berthnasol, dylid eu lleoli yn gyffredinol o fewn ffiniau aneddiadau diffiniedig, yn ddelfrydol lle ceir darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus sefydledig. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gan rai diwydiannau ofynion penodol o ran tir na ellir eu bodloni o fewn aneddiadau. Ni ddylai diffyg safleoedd cyflogaeth wedi'u dyrannu atal awdurdodau rhag darparu ar gyfer mentrau gwledig priodol ar raddfa fach mewn aneddiadau gwledig bach neu aneddiadau cyfagos."*

3.13. Wrth ddarparu cefnogaeth gadarnhaol i **arallgyfeirio ar ffermydd** mae Adran 7.3.3 *Polisi Cynllunio Cymru* yn ceisio hyrwyddo gweithgareddau arallgyfeirio o fewn ffermydd a gerllaw ffermydd yn ddarostyngedig i rai camau diogelu penodol:

*"Dylai awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at ddatblygu yn gysylltiedig ag arallgyfeirio ar ffermydd mewn ardaloedd gwledig, waeth pa un a gaiff ffermydd eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus ai peidio. Er y dylid rhoi ystyriaeth gychwynnol i addasu adeiladau ffermydd presennol, gallai darparu adeilad newydd wedi'i gynllunio mewn modd sensitif ar fferm weithredol o fewn canolfannau fferm sy'n bodoli eisoes fod yn briodol lle nad oes cyfle i addasu."*

3.14. Mae Adran 7.4 *Polisi Cynllunio Cymru* yn gwbl newydd wrth hyrwyddo'r economi werdd, clystyrau busnes a thechnoleg a mentrau cymdeithasol, fel a ganlyn:

*"Dylai awdurdodau cynllunio lleol gefnogi'r symudiad tuag at economi werdd drwy annog datblygu clystyrau o ddefnyddiau diwydiannol a masnachol a fydd yn manteisio'n amgylcheddol ar gyd-leoli, yn arbennig drwy ddatblygu technolegau ac arferion llif gwastraff (h.y. rhwydweithiau eco-ddiwydiannol).* (7.4.1)

*Dylai awdurdodau cynllunio lleol hefyd geisio cefnogi datblygu clystyrau busnes a thechnoleg arloesol. Mae angen i bolisïau CDU nodi rhwydweithiau ac ardaloedd clwstwr posibl, gan*

*egluro'r meini prawf a ddefnyddiwyd i'w categoreiddio, a'r cysylltiadau i bolisïau sy'n ymwneud â chreu'r isadeiledd trafnidiaeth, amgylcheddol a thelathrebu sydd ei angen i gynnal rhwydweithiau o'r fath.* (7.4.2)

*Wrth lunio polisïau CDU ac wrth ystyried cynigion datblygu dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried y posibilrwydd y gallai mathau penodol o fusnesau fod yn arbennig o bwysig wrth ddarparu cyfleoedd i grwpiau cymdeithasol sydd o dan anfantais o fewn y farchnad lafur. Dim ond drwy ddadansoddi'r amgylchiadau mewn llefydd penodol ar adegau penodol y gellir gweld a yw hyn yn wir, a bydd angen adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd."* (7.4.3)

3.15. Felly mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) wedi ychwanegu manylion sylweddol i'r polisi ar gyfer datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig, yn bennaf mewn perthynas â'r angen am strategaeth integredig arweiniol ar gyfer datblygu gwledig yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o amgylchiadau lleol, ac yn cynnig llawer mwy o fanylion am y mathau o ddatblygu i'w hannog.

### Crynodeb

3.16. Ymhlith y pwyntiau allweddol a ddaw i'r amlwg o'r adolygiad cryno hwn o *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) mae:

- Mae polisi cynllunio cenedlaethol Cymru wedi newid yn ddiweddar gyda chyhoeddi *Polisi Cynllunio Cymru* (2000), sy'n cyflwyno elfennau newydd arwyddocaol i'r polisi ar gyfer cynaliadwyedd gwledig a datblygu economaidd.

- Cynyddir y polisi ar gyfer cynaliadwyedd gwledig yn sylweddol, gan gydnabod amrywiaeth yr adnoddau a'r anghenion gwledig, a'r angen i integreiddio polisïau i ymdrin â hwy.

- Trosglwyddir cefnogaeth gref tuag at arallgyfeirio gwledig o'r arweiniad blaenorol a bellach disgwylir i awdurdodau lleol baratoi **strategaeth datblygu gwledig integredig** i hwyluso'r broses o arallgyfeirio'r economi wledig, yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac wedi'i theilwra at asedau ac anghenion penodol yr ardal.

- Mae polisi cenedlaethol yn ei gwneud yn amlycach y bydd angen datblygiadau newydd mewn sawl rhan o Gymru wledig, ac y dylid eu lleoli fel arfer o fewn aneddiadau neu'n agos atynt.

- Mae'r anogaeth i'r economi werdd yn newydd, felly hefyd clystyrau busnes a thechnoleg arloesol a thargedu busnesau a fydd yn diwallu anghenion cymdeithasol ardal.

## POLISÏAU'R CYNLLUN DATBLYGU

3.17. Adolygwyd y cynlluniau canlynol fel rhan o'r astudiaeth hon. Cyfyngwyd yr adolygiad i'r polisïau hynny a oedd yn ymwneud yn fwyaf uniongyrchol â'r economi wledig.

**Tabl 3.1: Y cynlluniau a adolygwyd**

| | | |
|---|---|---|
| Llanelwy a Rhuthun | CDU Sir Ddinbych | Cynllun ar Adnau 1999, Newidiadau arfathedig 2000 |
| Y Bala | Cynllun Strwythur Gwynedd | Mabwysiadwyd 1993 |
| | Cynllun Lleol Eryri(1) | Mabwysiadwyd 1999 |
| Rhydaman a Llandeilo | Cynllun Lleol Dinefwr | Mabwysiadwyd 1998 |
| Tregaron | Cynllun Lleol Ceredigion | Drafft ar Adnau 1998, Newidiadau arfaethedig 1999 |
| | CDU Ceredigion | Cyn-adnau 2001 |
| Cerrigydrudion a Bont-newydd | Cynllun Lleol Bwrdeistref Colwyn | Mabwysiadwyd 1999 |
| | CDU Conwy | Drafft 2001 |

### Strategaeth Gyffredinol

3.18. Roedd sawl egwyddor gyffredinol a fyddai'n effeithio ar ddatblygu economaidd yn amlwg yn strategaethau cyffredinol y cynlluniau a adolygwyd.

3.19. **Crynhoi o fewn aneddiadau sy'n bodoli eisoes:** Mae pum cynllun, gan gynnwys y CDU, yn nodi y byddai'n well crynhoi datblygiadau o fewn aneddiadau sy'n bodoli eisoes, gyda rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygu y tu allan i'r aneddiadau hyn.

CDU Drafft Conwy: Polisi ST2

"*Caiff datblygiadau eu crynhoi o fewn y prif ardaloedd trefol a'r prif bentrefi.*"

CDU Sir Ddinbych: Strategaeth Polisi 6

"*Caiff datblygiadau newydd eu lleoli'n bennaf o fewn aneddiadau ac ardaloedd cyflogaeth sy'n bodoli eisoes. Dim ond y tu allan i ffiniau datblygu diffiniedig y caniateir unrhyw ddatblygiadau h.y. dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir datblygu yng nghefn gwlad agored ac ar ardaloedd o'r arfordir nas datblygwyd …*"

3.20. **Economi wledig:** Er bod pob cynllun yn cefnogi datblygu economaidd, dim ond o fewn pump o strategaethau'r cynlluniau, gan gynnwys y tri CDU, y nodwyd pwysigrwydd cynnal a gwella'r economi wledig a sicrhau ei bod yn iach ac yn amrywiol. Ar y llaw arall, nodwyd yr angen i ddiogelu'r amgylchedd a'r tirlun yn y rhan fwyaf o strategaethau'r cynlluniau.

CDU Drafft Conwy: Polisi ST9

*"Bydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn cydweithredu gyda sefydliadau eraill i ddenu ac annog datblygu yn y cymunedau gwledig a fydd yn darparu cyflogaeth ac yn cynyddu amrywiaeth y cyfleoedd cyflogaeth."*

CDU Sir Ddinbych: Strategaeth Polisi 8 Cyflogaeth

*"Er mwyn sicrhau economi leol iach ac amrywiol:*

*mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer cyfanswm o 167ha (413 erw) o dir cyflogaeth dros gyfnod y Cynllun…*

*yn gyffredinol caiff tir ac eiddo a ddyrennir neu a ddefnyddir gan ddiwydiant a busnes eu cadw a'u diogelu at y dibenion hynny;*

*…caniateir sefydlu, datblygu ac ehangu cwmnïau a busnesau bach (gan gynnwys gweithio o gartref), datblygu amaethyddol ac arallgyfeirio'r economi wledig yn amodol ar gamau diogelu o ran priffyrdd, amwynderau a'r amgylchedd."*

CDU Cyn-adnau Ceredigion: Amcan E1

*"Darparu ar gyfer menter busnes cynhenid a mewnfuddsoddi drwy ddarparu amrywiaeth o safleoedd sy'n adeiladu ar gryfderau economaidd a marchnadadwy'r Sir mewn ffordd gynaliadwy."*

3.21. **Isadeiledd trafnidiaeth:** Nodwyd pwysigrwydd lleoli datblygiadau gerllaw'r isadeiledd trafnidiaeth yn strategaethau CDU Conwy, Cynllun Lleol Colwyn, CDU Sir Ddinbych a Chynllun Lleol Eryri, gyda'r ddau olaf yn nodi'n benodol y nod o leihau'r angen i deithio. Mae Cynllun Lleol a CDU Ceredigion hefyd yn cynnwys y nod o leihau'r angen i deithio wrth gyfiawnhau ei ffordd o ddyrannu tir cyflogaeth.

Cynllun Lleol Colwyn: Polisi CG9

"*Bydd y Cyngor Bwrdeistref yn ceisio sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, bod datblygiadau yn gynaliadwy yn amgylcheddol a'u bod yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau drwy:*

*…sicrhau bod datblygiadau wedi'u lleoli'n briodol mewn perthynas â'r isadeiledd trafnidiaeth gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus ac osgoi unrhyw ddatblygiadau a fyddai'n creu symudiadau diangen gan gerbydau;…"*

Cynllun Lleol Eryri: Polisi PC2

*"Bydd yr NPA yn annog egwyddorion cynaliadwyedd drwy ganiatáu datblygiadau sy'n:*

*…iv) lleihau'r angen am symudiadau trafnidiaeth modur diangen i'r eithaf ac yn annog defnydd effeithlon o drafnidiaeth gyhoeddus,…"*

3.22. **Yr iaith Gymraeg:** Mynegwyd pryder o ran gwarchod yr iaith Gymraeg mewn pum cynllun, gyda CDU Conwy yn datgan na fyddai datblygiadau a fyddai'n tanseilio statws yr iaith Gymraeg mewn cymunedau yn cael eu hannog (ST11). Roedd polisi tebyg ond mwy cyffredinol o fewn Cynllun Strwythur Gwynedd o ran yr angen i reoli graddfa, cyfradd a chyflwyniad datblygiadau fel na chaiff cymunedau eu gormesu gan newid, felly hefyd CDU Ceredigion (GEN 3.1) sy'n cynnig y bydd pob datblygiad yn amodol ar asesiad yn hyn o beth. Yn yr un modd, mynegodd Cynlluniau Lleol Colwyn a Cheredigion yr angen i ddiogelu rhinweddau cymdeithasol a diwylliannol.

3.23. **Twristiaeth:** Mae twristiaeth hefyd yn rhan bwysig o'r rhan fwyaf o strategaethau o fewn cynlluniau datblygu, fel yr awydd i weld projectau twristiaeth bach yng nghefn gwlad ac o fewn aneddiadau gwledig yn Sir Ddinbych (Strategaeth Polisi 9).

CDU Sir Ddinbych: Strategaeth Polisi 9,

*"Cynigion twristiaeth ar ffurf:*

*…caniateir projectau twristiaeth bach yn seiliedig ar yr amgylchedd adeiledig neu naturiol yng nghefn gwlad ac o fewn aneddiadau gwledig lle byddant yn darparu isadeiledd, llety ac atyniadau priodol a lle byddant yn atgyfnerthu ac yn arallgyfeirio'r diwydiant twristiaeth heb effeithio'n annerbyniol ar fuddiannau cymdeithasol, priffyrdd, amwynderau, etifeddiaeth neu amgylcheddol."*

### Datblygu economaidd

3.24. Roedd pob un o'r cynlluniau yn gadarn o blaid datblygu economaidd, er nad cymaint yng Nghynllun Lleol Eryri lle mai diogelu'r amgylchedd yw'r brif flaenoriaeth, gan adlewyrchu statws y Parc Cenedlaethol. Mae'r gefnogaeth gref hon yn adlewyrchu canfyddiadau blaenorol yr adroddiad *Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio* (2001). Y prif gyfrwng o wireddu'r gefnogaeth hon tuag at ddatblygu economaidd yw drwy ddyrannu safleoedd ar gyfer datblygu economaidd fel y trafodir ar wahân isod.

3.25. Yn annisgwyl, efallai, ni ddaw arallgyfeirio economaidd i'r amlwg fel thema gadarn ym mhenodau'r cynlluniau sy'n ymdrin â datblygu economaidd, er yr ymdrinnir ag arallgyfeirio'r economi wledig yn y rhan fwyaf o gynlluniau (fel y trafodir isod).

3.26. Fel y nodwyd eisoes, mae'r rhan fwyaf o gynlluniau yn canolbwyntio datblygiadau ar aneddiadau er mai dim ond tri o'r cynlluniau a nododd ei bod yn well ganddynt ailddefnyddio tir llwyd. Ond o fewn y cynlluniau, gwneir eithriadau i'r rheol hon ar gyfer agweddau penodol ar arallgyfeirio gwledig, gan gynnwys ailddefnyddio adeiladau gwledig a datblygiadau ar ymyl aneddiadau a all helpu i gefnogi'r economi leol.

CDU Sir Ddinbych: Polisi EMP5

*"Caniateir datblygiadau cyflogaeth bach, y tu allan i ffiniau datblygu yn yr achosion canlynol:*

*drwy addasu adeiladau presennol ar yr amod:*

[rhestrir sawl maen prawf ar gyfer addasu adeiladau]

*ii)o dan amgylchiadau eithriadol lle nad oes unrhyw dir neu adeilad ar gael o fewn ffin datblygu pentrefi mawr neu fach, caniateir datblygiadau cyflogaeth bach ar ymyl aneddiadau…*[yn amodol ar feini prawf]*".*

CDU Drafft Conwy: Polisi IND5

*"Mae'n bosibl y caniateir datblygiadau diwydiannol neu swyddfa ar safleoedd nas dyrannwyd sydd wedi'u lleoli o fewn aneddiadau gwledig neu â chysylltiadau da â hwy ar yr amod bod graddfa a chymeriad y datblygiad arfaethedig yn gydnaws ag amwynderau deiliaid eiddo cyfagos, yr anheddiad gwledig a'r amgylchedd yn gyffredinol."*

CDU Drafft Conwy: Polisi IND6

*"Caniateir datblygu neu ehangu mentrau bach eu maint er mwyn arallgyfeirio ac atgyfnerthu'r economi wledig ar yr amod bod y datblygiad arfaethedig*

- *yn cynnwys ailddefnyddio ac addasu adeilad gwledig traddodiadol neu ei fod yn adeilad sydd wedi'i integreiddio'n dda i fferm; ac*

- *yn gydnaws ag amwynder deiliaid eiddo cyfagos a'r amgylchedd yn gyffredinol."*

### Arallgyfeirio gwledig

3.27. Dangosodd y rhan fwyaf o'r cynlluniau gefnogaeth gref tuag at ddatblygu'r economi wledig, ac arallgyfeirio gwledig yn benodol. Nid oedd cefnogaeth o'r fath mor amlwg yng Nghynllun Strwythur Gwynedd (1993), nad ymdriniodd yn amlwg ag arallgyfeirio gwledig ac na chysylltodd arallgyfeirio gwledig ag unrhyw rai o'i bolisïau gweithgaredd-benodol, ond roedd yn cynnwys polisi o blaid cynigion i "…*ehangu nifer ac amrywiaeth y cyfleoedd cyflogaeth o fewn yr economi wledig*…"(Polisi B9).

3.28. Yn ogystal â pholisïau ar wahân o blaid arallgyfeirio ar ffermydd (Cynllun Lleol Dinefwr, Cynllun Lleol Colwyn a CDU Ceredigion), mae sawl un o'r cynlluniau yn cynnwys polisïau gweithgaredd-benodol, sy'n cysylltu'r broses o hyrwyddo gweithgareddau penodol ag arallgyfeirio gwledig neu arallgyfeirio ar ffermydd. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau yr ymdrinnir â hwy yn cynnwys gweithio o gartref (dau gynllun), siopau fferm, mentrau bach yn gyffredinol a mentrau masnachol a diwydiannol ysgafn yn fwy penodol, a llety i dwristiaid a thwristiaeth wledig yn gyffredinol. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

Cynllun Lleol Eryri: Testun cyflwyno i Bolisi C7

*"Yn draddodiadol, lleolwyd amrywiaeth o ddiwydiannau crefft a wneir o'r cartref o fewn ardaloedd gwledig. Mae'r NPA yn awyddus i gefnogi gweithio o gartref wrth i ddatblygiadau ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu alluogi i'r gwaith hwn gael ei gyflawni yn ehangach. Mae gweithio o gartref yn cynnig cyfleoedd arbennig i ddatblygu cyflogaeth newydd … Gallai gweithio o gartref hefyd helpu i atal pobl leol rhag gadael y Parc …"*

CDU Sir Ddinbych: Polisi TSM5

*"Caniateir cynigion i ddatblygu a gwella twristiaeth wledig mewn perthynas â phrif bentrefi a phentrefi, ac yng nghefn gwlad yn seiliedig yn bennaf ar ddefnyddio, ailddefnyddio neu addasu adeiladau presennol* [yn amodol ar feini prawf]…"

"*Ceir llawer o gyfleoedd twristiaeth mewn ardaloedd gwledig o ran addasu adeiladau presennol. Ar yr amod y bydd cynigion o'r fath yn parhau yn gyffredinol ansylweddol ac na fyddant yn datblygu'n ormodol o'u cymharu â'u man cychwyn, gallant wneud cyfraniad amhrisiadwy i'r economi, y gymuned a'r amgylchedd lleol …"* (testun ategol i Bolisi TSM5, CDU Sir Ddinbych).

3.29. Yn ogystal mae CDU Ceredigion yn cynnwys polisi sy'n ceisio annog cymysgedd a hyblygrwydd o ran cyflogaeth wledig:

CDU Cyn-adnau Ceredigion: Polisi E2.1

*"Dylid cynllunio datblygiad newydd at ddibenion cyflogaeth gan ystyried hyblygrwydd wrth ei ddefnyddio. Dylai safleoedd cyflogaeth ddarparu ar gyfer cymysgedd o unedau o wahanol feintiau, gan gynnwys unedau newydd, i wasanaethu amrywiaeth eang o fusnesau posibl, ac i hwyluso'r broses o ehangu mentrau llwyddiannus ar y safleoedd hynny. Dylid ystyried y cyfle i glystyru a defnyddiau cymdogion da wrth ddethol lleoliadau ar gyfer datblygiadau arfaethedig."*

3.30. Fel y dangosir ym mholisïau IND6 uchod (CDU Conwy) a TSM5 (CDU Sir Ddinbych), yn gyffredinol nodir yn y rhan fwyaf o gynlluniau ei bod yn well ailddefnyddio neu addasu adeiladau yn hytrach na chodi adeiladau newydd ar gyfer datblygu economaidd, ac yn aml cynhwysir ailddefnyddio adeiladau fel maen prawf ar gyfer caniatáu eithriadau i bolisïau cyffredinol sy'n canolbwyntio datblygiadau newydd ar aneddiadau presennol neu'n agos at isadeiledd trafnidiaeth presennol. Yn nodweddiadol mae ailddefnyddio neu addasu yn amodol ar feini prawf gan gynnwys y dylai'r adeilad fod yn strwythurol gadarn ac yn briodol ar gyfer y defnydd newydd, ac na chaiff yr ailddatblygiad unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar amwynder yr ardal, neu na fydd yn ymwthio i'r tirlun mewn ffordd annymunol.

3.31. Ar y cyfan, mae cwmpas a manylder polisïau ar gyfer datblygu economaidd ac arallgyfeirio gwledig yn amrywio'n sylweddol rhwng cynlluniau. Yn bwysig, er gwaethaf anogaeth i wneud hynny ers 1995, prin yw'r dystiolaeth yn y cynlluniau o asesu anghenion economaidd a chymdeithasol lleol a ffactorau lleol eraill yn systematig fel sail i bolisi wedi'i deilwra at amgylchiadau lleol. Mae rhai polisïau yn ymdrin â materion penodol fel gweithio o gartref a thwristiaeth, ond ar y cyfan mae'r polisïau yn gymharol gyffredinol, ond cefnogol.

3.32. O'u cymharu â disgwyliadau *Polisi Cynllunio Cymru* (2002), nid yw cwmpas a manylder y polisïau a geir o fewn y cynlluniau datblygu presennol yn bodloni'r arweiniad cenedlaethol newydd. Ystyrir goblygiadau'r sefyllfa hon ym Mhennod 6.

### Polisi etifeddiaeth adeiledig sy'n effeithio ar ddatblygu economaidd

3.33. Weithiau bydd pryderon sy'n ymwneud ag etifeddiaeth yn deillio o gynigion datblygu economaidd. Mae pob cynllun yn cynnwys polisïau sy'n rheoli estyniadau neu addasiadau i adeiladu rhestredig, a datblygiadau sy'n effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth, lleoli Henebion Cofrestredig a safleoedd archeolegol. Yn nodweddiadol dim ond os bydd y datblygiad arfaethedig yn parchu prif nodweddion yr adeilad/safle, ei leoliad ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb arbennig y caniateir estyniadau neu addasiadau o'r fath. Yn gyffredinol gwrthwynebir dymchwel adeiladau rhestredig oni fydd amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, lle na ellir atgyweirio'r adeilad. Yn achlysurol mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys polisïau sy'n awgrymu na ddylai newid defnydd adeiladau gael effaith andwyol ar eu pwysigrwydd cadwraethol.

### Polisi trafnidiaeth sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig

3.34. Er i sawl un o'r cynlluniau nodi'r anawsterau a wynebir gan eu hardaloedd gwledig o ganlyniad i lefel uchel o berchenogaeth a dibyniaeth ar geir, nid oes gan y rhan fwyaf o'r cynlluniau bolisi wedi'i gyfeirio'n benodol at ardaloedd gwledig. Yn hytrach, mae'r cynlluniau yn cynnwys polisïau trafnidiaeth sydd yr un mor berthnasol i ardaloedd trefol neu aneddiadau a chefn gwlad agored. Mae eithriadau cyfyngedig yn cynnwys polisi sy'n rheoli effeithiau amgylcheddol llwybrau fferm a choedwig yng Nghynllun Lleol Eryri, polisi sy'n rheoli safonau dylunio priffyrdd mewn ardaloedd gwledig yng Ngheredigion a hen bolisi a oedd yn berthnasol i ychwanegu neu ehangu meysydd parcio mewn ardaloedd gwledig (a oedd yn ei gwneud yn ofynnol sicrhau y gallai ffyrdd mynediad ymdopi â'r traffig ychwanegol arfaethedig) yng Nghynllun Strwythur Gwynedd.

3.35. Y tu hwnt i'r polisïau hyn, mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau yn ceisio annog datblygu rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, llwybrau troed a llwybrau seiclo a lleihau'r angen i deithio yn gyffredinol. Fel rhan o'r ymagwedd hon, mae cynlluniau fel Cynllun Lleol Colwyn, CDU Conwy a Chynllun Lleol Eryri yn cynnwys polisïau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd sy'n debygol o gynhyrchu nifer fawr o deithiau gael eu gwasanaethu gan gyfleusterau trafnidiaeth digonol. Er enghraifft:

Cynllun Lleol Eryri: Polisi TR7

"Bydd yr NPA yn ystyried ceisiadau ag iddynt oblygiadau mynediad neu draffig mewn perthynas â Hierarchaeth Ffyrdd y Cynllun Strwythur. Gwrthodir cynigion sy'n cyflwyno swm sylweddol uwch o draffig ar ffyrdd bach neu ffyrdd dosbarthu sirol, oni ellir gwella'r ffordd ymhellach mewn modd sensitif … Gwrthodir cynigion datblygu a fyddai'n cynhyrchu symudiadau traffig ychwanegol oherwydd eu lleoliad anghysbell mewn perthynas â gwasanaethau lleol neu drafnidiaeth gyhoeddus hefyd. Fodd bynnag, bydd yr NPA yn caniatáu cynigion a fyddai'n lleihau symudiadau traffig i'r eithaf oherwydd eu lleoliad o fewn trefi neu bentrefi neu'n gyfagos atynt …"

3.36. Mae polisïau o'r fath yn ategu polisïau eraill a gynhwysir yn y cynlluniau sy'n ceisio atal datblygiadau newydd mawr rhag cael eu lleoli yng nghefn gwlad, lle nad oes cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus a ffyrdd o gael mynediad heb foduron. Ar y llaw arall, rhydd cynlluniau h□n fel Cynllun Strwythur Gwynedd lai o bwyslais ar leihau'r angen i deithio a hyrwyddo'r integreiddiad rhwng trafnidiaeth a chynllunio defnydd tir.

### Tir a ddyrannwyd ar gyfer datblygu economaidd

3.37. Nodir y prif ddyraniadau tir ar gyfer datblygu economaidd mewn perthynas â'r aneddiadau sy'n rhan o'r astudiaeth hon yn **Nhabl 3.2**. Y cyd-destun polisi uchod sydd wedi tywys y dyraniadau hyn fel y crynhoir isod:

- Dosberthir lleoliad tir cyflogaeth yn **CDU Sir Ddinbych** drwy brif aneddiadau'r Sir a nodir ei fod '…*yn hanfodol ac yn fanteisiol wrth ddarparu ar gyfer gwahanol anghenion cwmnïau, boed yn gwmnïau a ddaw i'r ardal neu'n gwmnïau cynhenid. Lle bynnag y bo'n bosibl, defnyddiwyd safleoedd nas defnyddir yn ddigonol neu safleoedd gwag yn hytrach na safleoedd ar ymyl aneddiadau neu safleoedd tir glas annibynnol. Rhaid i leoliadau ar gyfer datblygu cyflogaeth fod yn hygyrch i gyflogeion o ardaloedd preswyl a llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus ond eto rhaid iddynt alluogi nwyddau a gwasanaethau i symud yn effeithlon." (*Polisi Emp1). Mae'r math o dir cyflogaeth a ddyrennir yn seiliedig ar dri math o safle: (a) strategol (yn agos at lwybrau strategol neu brif lwybrau gyda'r gallu i ddenu amrywiaeth o gwmnïau, yn arbennig rhai mawr), (b) safleoedd lleol (wedi'u lleoli'n dda ar gyfer y boblogaeth leol) a (c) safleoedd o ansawdd uchel ar gyfer defnyddiau ansawdd uchel dwysedd isel.

- Mae **Cynllun Strwythur Gwynedd** yn nodi'r trefi mawr o fewn ardal yr awdurdod lleol fel y lleoliadau ar gyfer datblygu diwydiannol ar sail tir neu adeiladau addas, isadeiledd cynhaliol, cysylltiadau, agosrwydd i farchnadoedd, gweithlu addas a diffyg cyfyngiadau amgylcheddol mawr. "*O fewn y Parc Cenedlaethol, nodir y Bala a Dolgellau fel Prif Ganolfannau lle y darperir y rhan fwyaf o gyflogaeth, tai a chyfleusterau cymunedol newydd yn ystod cyfnod y cynllun*" (para 8.35).

- Mae **Cynllun Lleol Dinefwr** yn dyrannu amrywiaeth o safleoedd o wahanol feintiau ar gyfer cyflogaeth er mwyn "*…sicrhau dewis digonol o leoliadau o fewn ardal y Cynllun ar gyfer projectau sy'n creu cyflogaeth newydd …*" (para 4.9.1) hyd at yr uchafswm tir cyflogaeth a ganiateir yn y Dosbarth gan y Cynllun Strwythur. Mae'r ddau ddyraniad tir cyflogaeth mwyaf yn ardal Cynllun Lleol Dinefwr wedi'u lleoli yn Rhydaman a Chapel Hendre. Dewisir Rhydaman fel *"y ganolfan boblogaeth fwyaf o fewn Ardal y Cynllun Lleol, yn unol â pholisïau'r Cynllun Strwythur"* ac ystyrir Capel Hendre "*…fel y prif ganolfan diwydiannol ar gyfer strategaeth cyflogaeth ardal y cynllun oherwydd ei agosrwydd cymharol i draffordd yr M4 ac i'r prif ganolfannau poblogaeth eraill"* (para 4.9.6).

  - Yng **Nghynllun Lleol Ceredigion**, ynghyd â phedair tref arall, nodwyd Tregaron fel canolfan cyflogaeth leol lle mae'r Cyngor yn dymuno annog twf economaidd er mwyn arallgyfeirio'r economi wledig a helpu i gynyddu incwm lleol a lleihau'r angen i gymudo i ganolfannau cyflogaeth mwy. Gwna'r cynllun hefyd ddyraniadau mwy mewn tair canolfan cyflogaeth strategol (Aberystwyth, Aberteifi, a Llanbedr Pont Steffan) er mwyn helpu i gynyddu cyfraddau cyflogaeth a lleihau'r angen i deithio.

**Tabl 3.2: Dyraniadau safle ar gyfer datblygu diwydiannol o fewn yr aneddiadau enghreifftiol**

| Tref | ACLI | Polisi | Dyraniad | Maint (ha) | Defnyddiau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llanelwy** | CDU Sir Ddinbych | EMP1 | Tir i'r dwyrain o Barc Busnes Llanelwy | 16.5 | B1, B2 swyddfa, diwydiannol ysgafn, ymchwil a datblygiad gyda siopau cyfleustra lleol i ddiwallu anghenion cyflogeion. |
| **Rhuthun** | | EMP1/ MDA2 | Glasdir, Rhuthun | 28 | Ardal datblygu cymysg fawr |
| **Y Bala** | Cynllun Lleol Eryri | C1 | Ar yr ymyl ond o fewn ffin anheddiad y Bala | 3.1 | Defnyddiau cyflogaeth ar raddfa fawr |
| Cerrigydrudion | | C1 | Dyraniad hanesyddol wedi'i leoli ychydig y tu allan i ffin yr anheddiad | 1.2 | Defnyddiau B1/B2 |
| **Rhydaman** | Cynllun Lleol Dinefwr | DLPE2 | Cyfres o dua 5 safle o fewn ffin anheddiad cynllun lleol Rhydaman/ Pantyffynnon, gyda thua hanner y dyraniad ar dir rhwng Rhydaman/ Pantyffynnon a'r ardal gyfagos ym Mhen-y-banc | 30.2 (uchafswm maint y safleoedd unigol 7 ha) | Amrywiaeth o ddefnyddiau cymysg |
| Capel Hendre | | | Ar ymyl yr anheddiad o fewn ffin yr anheddiad | 23.64 | Diwydiannol a warysau |
| | | | Tir llwyd (Emlyn Brickworks) ychydig dros hanner milltir o Gapel Hendre o fewn terfynau datblygu Penygroes | 18.33 | Defnydd cymysg |
| | | | Dau safle sy'n ffurfio estyniad i Barc Busnes Cross Hands dros filltir o ymyl Capel Hendre | 7.09 | Defnydd cymysg |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llandybie | | | Ar ymyl y pentref gan ddarparu estyniadau i ddau Barc Busnes | 9.99 | B1/B2 a B8 |
| Pantyffynnon | | | O fewn Pantyffynnon | 7.9 | Defnydd cymysg |
| | | | Ar ymyl Pantyffynnon ond o fewn ffin yr anheddiad | 6 | Defnydd cymysg |
| **Llandeilo** | | | O amgylch ffin yr anheddiad ond o fewn terfynau'r anheddiad | 3.97 | B1/B2 |
| **Tregaron** | Cynllun Lleol Ceredigion | | Dau safle ar ymyl yr anheddiad o fewn ffin ddatblygu Tregaron | Safle bach | |
| Pontrhydfendigaid | | | Tir llwyd ar ymyl yr anheddiad | Safle bach | |

- Mae **Cynllun Lleol Colwyn** yn egluro ei ddyraniadau fel rhai sy'n addas i ddarparu ar gyfer ehangu cwmnïau cynhenid ac unedau newydd. Ni ddosberthir y safleoedd hyn fel safleoedd strategol (ac yn unol â hyn maent yn ddyraniadau llai) gan nad ydynt yn hygyrch gan ddefnyddio prif ffyrdd dosbarthu, rheilffyrdd neu drafnidiaeth gyhoeddus a gallant wasanaethu cymunedau trefol a gwledig. Fe'u dosberthir yn eang er mwyn helpu i ddiwallu anghenion cyflogaeth cymunedau lleol (defnyddwyr ar raddfa fach) yn hytrach na denu busnesau canolig i fawr eu maint, fel y rhagwelir ar gyfer safleoedd strategol.

3.38. Felly, yn gyffredinol, rhoddir y dyraniadau mwy i drefi â mynediad da o ran trafnidiaeth a phoblogaethau lleol mwy. Caiff trefi llai a threfi mwy ymylol ddyraniadau llai wedi'u cynllunio i helpu busnesau lleol, llai, a cheir dyraniadau achlysurol hefyd o safleoedd dwysedd is er mwyn denu cyflogwyr 'o ansawdd uchel'.

3.39. O ran llenwi'r dyraniadau safle hyn, dengys trafodaethau gyda swyddogion cynlluniau datblygu a swyddogion datblygu economaidd o fewn yr awdurdodau lleol perthnasol fod mwyafrif y safleoedd yng Ngheredigion yn agos at eu llenwi. Ceir prinder tir cyflogaeth yn Rhuthun, ond o ganlyniad i isadeiledd yn hytrach na diffyg dyraniadau tir. Mae datblygiad Parc Busnes Llanelwy ar ei hanner ac mae estyniad B2 (diwydiant cyffredinol) i'r Parc yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae safleoedd yn y Bala hefyd yn agos at eu llenwi ond yn Sir Gaerfyrddin a Gwynedd ceir galw isel am safleoedd mewn rhai aneddiadau penodol lle gwelir nifer sylweddol isel o ddeiliaid gyda rhai ohonynt hyd yn oed yn wag.

### Polisi datblygu economaidd lleol

3.40. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Strategaeth Datblygu Economaidd ac, yn ogystal, mewn ardaloedd Amcan 1(sef mwyafrif Cymru wledig) paratowyd dogfennau gweithredu hefyd. Mae'r dogfennau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio ar gyfer arallgyfeirio gwledig ac maent fel arfer yn croesgyfeirio â'r cynllun datblygu.

3.41. Fodd bynnag, fel y gellid disgwyl mae'r dogfennau hyn yn amrywio'n sylweddol. Yn nodweddiadol mae Strategaethau Datblygu Economaidd Lleol a dogfennau Amcan 1 lleol yn darparu dadansoddiad economaidd o'r ardal, yn pennu gweledigaeth a thargedau ac amcanion yn seiliedig ar themâu, fel datblygu gallu cystadleuol busnesau, cynyddu lefel y busnesau newydd, annog a chynorthwyo'r defnydd o TGCh, darparu safleoedd ac adeiladau, ac adfywio cymunedau. Pennir dangosyddion allweddol ar gyfer monitro a gwerthuso. Cynigir trefniadau partneriaeth.

3.42. Ceir gorgyffwrdd amlwg gyda chynllunio'r defnydd o dir ond mae ffocws y dogfennau hyn a gweithgareddau datblygu economaidd mewn awdurdodau lleol yn wahanol. Maent yn ymwneud yn bennaf â datblygu'r economi leol a chymorth i fusnesau lleol. Cyfyngir y cyswllt â chynllunio fel arfer i ddyrannu safleoedd yn y cynllun datblygu, ei bolisïau a chyfranogiad â cheisiadau cynllunio unigol.

3.43. Datgelodd cyfweliadau gyda swyddogion datblygu economaidd lleol farn nad oedd cynllunio yn weithgar iawn wrth annog datblygu economaidd yng Nghymru wledig ac felly mai dim ond fel rhwystr ansylweddol yr ystyriwyd y system gynllunio a hynny mewn achosion unigol achlysurol. Felly nid oedd cydberthynas waith agos gyda swyddogion cynllunio gan nad ystyriwyd fod llawer o angen am gydberthynas o'r fath mewn gwirionedd.

**Swyddogion cynlluniau lleol**

3.44. Awgrymodd cyfweliadau cyfochrog gyda swyddogion y cynlluniau lleol mai'r teimlad cyffredinol yw bod polisïau datblygu economaidd yn gweithredu'n unol â pholisi cenedlaethol (*Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf,* 1999). Ond cydnabuwyd fod diffyg manylder am faterion gwledig a diffyg posibl o ran addasu polisi i amrywiol sefyllfaoedd fel patrymau aneddiadau gwasgaredig neu raddau uchel o weithio rhan amser. Yn gyffredinol roedd y swyddogion o blaid defnyddio hierarchaeth aneddiadau gan gyfeirio datblygiadau tuag at aneddiadau mawr, ond roeddent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd datblygu economaidd y tu allan i'r aneddiadau hyn. Awgrymwyd o bosibl mai polisïau yn seiliedig ar feini prawf fyddai'r ffordd fwyaf priodol o ymdrin â'r datblygiadau llai hyn.

3.45. Yn nhermau creu darlun llawn o anghenion economaidd a chymdeithasol lleol, nododd y swyddogion eu bod yn cyfeirio at Awdurdod Datblygu Cymru, cydweithwyr ym maes datblygu economaidd, dogfennaeth Amcan 1 ac astudiaethau ar faterion penodol, fel argaeledd safleoedd ac adeiladau ac ail gartrefi. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth o ymchwiliadau systematig i anghenion lleol fel sail i bolisïau'r cynllun datblygu, er bod CDU Ceredigion wedi'i ategu gan nodyn briffio cyflogaeth, sy'n dadansoddi proffiliau gweithluoedd a chyflogwyr, safleoedd cyflogaeth ac argaeledd tir ac arwynebedd llawr. Ceir manylion tebyg yn y Bennod gyfatebol o fewn y CDU. Mae'r diffyg gwybodaeth leol hon am amgylchiadau economaidd yn adlewyrchu canfyddiadau adroddiad llawer cynharach sef *Planning for Rural Diversification* (1995) a oedd yn cwmpasu Cymru a Lloegr. Nododd yr adroddiad hwn "*bod gwybodaeth leol am amgylchiadau economaidd ac anghenion cwmnïau ar lefel ardal yn anwastad o fewn llawer o awdurdodau….gyda dim ond barn gyffredinol o anghenion economaidd eu hardal wledig".* Mae hefyd yn adlewyrchu canfyddiadau mwyaf diweddar yr astudiaeth *Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio* (2001).

3.46. Yn gyffredinol nododd swyddogion cynlluniau datblygu rywfaint o gyswllt (er ar lefel gyffredinol arwynebol) gyda'u cydweithwyr lleol ym maes datblygu economaidd, a chyswllt parhaus ond heb fod mor rheolaidd gydag Awdurdod Datblygu Cymru. Yng Ngheredigion cyflogir 'Rheolwr Datblygu' i gynnal cyswllt rhwng y ddwy swyddogaeth hon ar ran busnesau.

3.47. Roedd y prif feysydd o densiwn a nodwyd gan swyddogion cynllunio yn codi rhwng polisïau datblygu economaidd a pholisïau cadwraeth amgylcheddol a pholisïau datblygu

economaidd a pholisïau trafnidiaeth a oedd yn ceisio lleihau'r angen i deithio.

3.48. Nid oedd y swyddogion yn rhagweld unrhyw newidiadau arwyddocaol i bolisïau ar gyfer datblygu economaidd gwledig (er nad oedd *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) wedi'i gyhoeddi mewn pryd i gael ei ystyried yn y cyfweliadau).

### Crynodeb

- Newidiodd polisi cynllunio cenedlaethol Cymru yn ddiweddar gyda chyhoeddi *Polisi Cynllunio Cymru* (2000), sy'n cyflwyno elfennau newydd arwyddocaol i'r polisi ar gyfer datblygu economaidd gwledig. Trosglwyddir cefnogaeth gref tuag at arallgyfeirio gwledig o'r arweiniad blaenorol ac anogir awdurdodau lleol i baratoi strategaeth datblygu gwledig integredig i hwyluso arallgyfeirio'r economi wledig, yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy ac wedi'i theilwra i asedau ac anghenion penodol yr ardal.

- Hefyd yn newydd mae'r anogaeth ar gyfer yr economi werdd, clystyrau busnes a thechnoleg arloesol a thargedu busnesau a fydd yn diwallu anghenion cymdeithasol ardal.

- Adolygwyd pedwar cynllun lleol, tri CDU ac un cynllun strwythur. Yn gyffredinol mae'r cynlluniau yn mabwysiadu ymagwedd hierarchaidd tuag at leoli datblygiadau, gan geisio lleoli'r datblygiadau mwyaf economaidd o fewn yr aneddiadau mwy.

- Mae cefnogaeth tuag at yr economi wledig ac arallgyfeirio gwledig yn gyffredin, ac mae polisïau yn amrywio o ran manylion ar gyfer twristiaeth, arallgyfeirio ar ffermydd, crefft a gweithio o gartref a defnydd hyblyg o safleoedd ac adeiladau.

- Mae pob cynllun yn dyrannu safleoedd penodol ar gyfer datblygu economaidd. Ceir tri math penodol o safle: safleoedd mawr mewn lleoliadau strategol, safleoedd llai ar gyfer anghenion lleol a safleoedd dwysedd isel ar gyfer datblygiadau o ansawdd uchel.

- Prin yw'r dystiolaeth o fewn y cynlluniau o asesiadau systemataidd o anghenion economaidd a chymdeithasol lleol ac amgylchiadau eraill. Felly anaml yr ymddengys i'r polisïau gael eu teilwra i gyfateb â manylion amgylchiadau lleol. Cadarnheir y diffyg sail fanwl hwn i bolisïau gan swyddogion cynlluniau datblygu.

- O'u cymharu â disgwyliadau *Polisi Cynllunio Cymru* (2002), mae'r polisïau o fewn cynlluniau datblygu presennol yn methu â bodloni'r arweiniad cenedlaethol newydd.

- Mae'n amlwg bod swyddogaethau datblygu economaidd a chynllunio awdurdodau lleol yn berthnasol i'w gilydd. Er bod Strategaethau Datblygu Economaidd lleol, dogfennaeth Amcan 1 a chynlluniau datblygu yn cydnabod ei gilydd, nid yw cydlyniad manwl a pharhaus rhyngddynt mor gyffredin.

- Mae nifer y safleoedd datblygu a ddyrannwyd sydd wedi'u llenwi yn amrywio'n sylweddol: mae rhai ohonynt fwy neu lai yn llawn, ac eraill fwy neu lai yn wag.

# 4. NODWEDDION Y TREFI MARCHNAD A'U HANEDDIADAU CYSYLLTIEDIG

4.1. Yn y Bennod hon amlinellir cymeriad economaidd y chwe thref farchnad enghreifftiol a'u haneddiadau cysylltiedig. Nod y broses nodweddu hon yw taflu goleuni ar nodweddion trefi marchnad a'u cyfraniad i arallgyfeirio gwledig. Fe'i defnyddir hefyd er mwyn deall gwahaniaethau o ran perfformiad ac i ba raddau y mae hyn yn adlewyrchu lleoliad ee lled drefol, gwledig hygyrch a gwledig anghysbell.

4.2. Mae'r data a ddefnyddiwyd i lywio'r broses nodweddu hon fel a ganlyn:

- Setiau data poblogaeth ac economaidd cenedlaethol sy'n darparu gwybodaeth ar sail Wardiau. Cyfeirir at y ffynonellau data hyn drwy'r testun (para 1.18 (5)).
- Trafodaethau gyda rhanddeiliaid lleol a swyddogion awdurdodau lleol gan gynnwys swyddfeydd lleol Awdurdod Datblygu Cymru, siambrau masnach, grwpiau cymunedol fel Antur Penllyn yn y Bala, swyddogion datblygu economaidd awdurdodau lleol, swyddogion cynlluniau lleol, adrannau addysg lleol ac ymddiriedolaethau gofal iechyd lleol.
- Y drafodaeth a gafwyd yn y pedwar gweithdy a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid rhanbarthol a lleol a gynhaliwyd yn ystod yr astudiaeth - gyda dau ohonynt yn Rhuthun a dau yn Llandeilo.
- Adroddiadau sy'n cwmpasu nodweddion yr aneddiadau penodol fel *Astudiaeth Adfywio Llandeilo* (1997), *Menter Dyffryn Tywi – Cynllun Gweithredu Terfynol* (2001), a *Canolfannau Rhagoriaeth Gwynedd: Y Bala, Dolgellau, Trawsfynydd* (2001).

4.3. Gwnaed y gwaith nodweddu hwn er mwyn ceisio gwreiddio'r astudiaeth genedlaethol hon mewn realaeth. Nid yw'n werthusiad manwl o'r trefi unigol, y byddai angen cynnal gwaith ymchwil manylach ar wahân ar ei gyfer.

4.4. Un o gasgliadau uniongyrchol y gwaith hwn yw'r diffyg cyffredinol o ran data cywir ar aneddiadau unigol, yn arbennig yn nhermau darparu gwasanaethau a phatrymau cymudo. Mewn sawl achos mae'r data sy'n bodoli yn rhy eang ei gwmpas ac nid yw'n cynnwys lefel y manylder sydd ei hangen i lywio penderfyniadau ar y lefel leol.

4.5. Yn y nodweddiadau sy'n dilyn, cyflwynir tablau ar y gwasanaethau (gan gynnwys manwerthu) a ddarperir gan bob anheddiad. Fe'u lluniwyd drwy uno a thrawsgymharu data o Ddata Dethol Busnes Equifax (chwarter cyntaf 2002); Cofrestr Fusnes Dun a Bradstreet (Haf 2002) a gwybodaeth gan yr awdurdodau iechyd ac addysg lleol, gyda chyfeiriadau wedi'u cymharu â graddau daearyddol yr aneddiadau fel y dynodwyd ar y wefan Multimap.com. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio nad yw'r wybodaeth ar allfeydd manwerthu yn gywir, gan na chaiff allfeydd manwerthu a grybwyllir mewn un set ddata eu crybwyll mewn set arall. Felly dim ond fel tablau mynegol y gellir trin y tablau hyn.

## ANEDDIADAU LLED DREFOL (LLANELWY A RHYDAMAN)

Llanelwy Cyfanswm y boblogaeth 3,384
Rhydaman Cyfanswm y boblogaeth 8,100

4.6. **Cymeriad cyffredinol:** Mae twf y ddau anheddiad hyn yn wahanol. Gyda'r Eglwys Gadeiriol, sef y lleiaf yng Nghymru, sy'n dyddio o'r chweched ganrif yn ganolbwynt iddi, tyfodd Llanelwy fel tref farchnad wledig gyda marchnad da byw. Mae cymeriad y dref yn adlewyrchu ei tharddiadau gwledig gyda stryd fawr fer serth tuag at Afon Elwy. Hyd heddiw erys ei swyddogaeth fel tref farchnad. Mae ei marchnad da byw ymhlith y pwysicaf yng ngogledd Cymru, gan wasanaethu'r llain arfordirol gogleddol, a chan fanteisio ar wasanaethau'r lladd-dy a'r ffatri prosesu a phecynnu bwyd gerllaw yn Rhuallt (Astudiaeth Achos 3).

4.7. I'r gwrthwyneb, tyfodd Rhydaman fel tref lofaol. O ganlyniad ceir ardaloedd sylweddol o dir llwyd (rhywfaint ohono wedi'i ryddhau ar gyfer defnydd diwydiannol)[5] ac mae'r dref wedi uno'n rhannol â chyn aneddiadau glofaol eraill, yn fwyaf amlwg Pantyffynnon. Yn ei dro mae'r hanes glofaol hwn wedi meithrin patrwm o ddaliadau bach yn yr ardal wledig gyfagos a oedd yn cael eu rhedeg yn rhan amser gan deuluoedd glofaol yn y gorffennol.

4.8. Yr hyn sy'n gyffredin i'r ddau anheddiad hyn yw eu hygyrchedd. Yn achos Llanelwy daeth yr hygyrchedd hwn yn sgîl agor Ffordd Gyflym yr A55, sy'n cysylltu Bangor â Chaer sy'n rhedeg tua milltir i'r gogledd o'r dref, gan achosi tagfeydd traffig ar y Stryd Fawr, sy'n rhan o'r A525, sy'n cysylltu Dyffryn Clwyd â'r Ffordd Gyflym. Yn achos Rhydaman cyflawnwyd yr hygyrchedd hwn drwy ymestyn yr M4 i'r gorllewin i ddod i ben ychydig filltiroedd i'r de o Rydaman ym Mhont Abraham. O ganlyniad, mae Abertawe a hyd yn oed Caerdydd o fewn pellter cymudo hawdd.

4.9. **Nodweddion y boblogaeth:** Yn y gweithdai, amcangyfrifwyd fod 10% o boblogaeth Llanelwy yn siarad Cymraeg o'i gymharu â dros 50% yn Rhydaman. Gallai hyn adlewyrchu dalgylchoedd gwahanol iawn y ddwy dref. Mae'r ddwy yn drefi 'noswylio' arwyddocaol. Yn achos Rhydaman, ceir cymudo lleol sylweddol i aneddiadau cyfagos fel Capel Hendre a Cross Hands (y mae gan y ddau ohonynt barciau busnes mawr) ond hefyd i Abertawe a Chaerfyrddin. Ond yn achos Llanelwy, gyda mantais yr A55, gwelir cymudo rhwng y dwyrain/gorllewin yn gyffredinol gyda phobl yn cymudo i Gaer, Lerpwl a Manceinion yn ogystal â Chaernarfon – mewn hysbysebion, nodwyd fod y dref o fewn pellter cymudo hawdd i Fanceinion a Lerpwl.

4.10. Canran y boblogaeth dros 60 oed yw 26% yn Llanelwy a 27.5% yn Rhydaman (23% oedd y cyfartaledd ar gyfer Cymru wledig ym 1999 – para 2.17). Dim ond ar lefel sirol y mae nodweddion socio-economaidd eraill ar gael a cheir crynodeb ohonynt yn **Nhabl 4.1** isod er mwyn darparu cyd-destun i ddata arall.

[5] Mae gan Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol ddyraniad gormodol o dir llwyd ar gael heb ddigon o alw amdano.

**Tabl 4.1: Nodweddion socio-economaidd yn ôl sir**

| | **Sir Ddinbych** (Llanelwy a Rhuthun) | **Sir Gaerfyrddin** (Rhydaman a Llandeilo) | **Cymru** |
|---|---|---|---|
| **Enillion blynyddol gros ar gyfartaledd[1]** | £19,314 | £18,397 | £19,901 |
| **Cyfradd gweithgaredd economaidd[2]** | 74.2% | 71.6% | 73.8% |
| **Hunan-gyflogedig fel % o'r holl bobl gyflogedig[3]** | 19.5% | 14% | 11.1% |
| **Diweithdra[4]** | 3.2% | 4.5% | 3.7% |

Ffynonellau

1. Arolwg Enillion Newydd 2001 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)
2. Arolwg Gweithlu Blynyddol 1999
3. Arolwg Gweithlu Blynyddol 1999
4. Swyddfa Ystadegau Gwladol Rhagfyr 2001 (ceiswyr sy'n ddiwaith, amcangyfrifon yn seiliedig ar y gweithlu)

4.11. **Gwasanaethau a manwerthu:** Mae Llanelwy a Rhydaman yn ganolfannau gwasanaeth is-ranbarthol pwysig. Mae ysbyty rhanbarthol Glan Clwyd wedi'i leoli yn Llanelwy (sy'n gyflogwr mawr), felly hefyd ganolfan hamdden ac, yn ôl yr Adran Addysg, tair ysgol gynradd (gyda chyfartaledd o 100 o ddisgyblion) yn ogystal ag un ysgol gynradd annibynnol, ac ysgol uwchradd gyda 800 o ddisgyblion. Mae'r ysgol uwchradd hon hefyd yn Ysgol Gymraeg gyda dalgylch sy'n cynyddu'n gyflym. Mae gan Rydaman hefyd ysbyty bach gyda 28 o welyau (cangen o ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli), canolfan hamdden, llyfrgell, pedair ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd fwyaf yn Sir Gaerfyrddin (Ysgol Gyfun Dyffryn Aman gyda 1,600 o ddisgyblion). Mae hon yn ysgol ddwyieithog. Ceir coleg addysg bellach hefyd (Coleg Sir Gâr) gyda champws sy'n gangen o'r prif goleg yn Llanelli.

4.12. Serch hynny, yn nhermau darpariaeth manwerthu, mae'r ddwy dref yn wahanol iawn. Rhydaman yw'r prif ganolfan manwerthu ar gyfer Dyffryn Aman (lleoliad y prif siopa wythnosol), gyda Tesco ar gyrion y dref a thair archfarchnad arall yn y dref. Ceir hefyd Woolworths a Boots ac amrywiaeth o siopau cyfleustra a chymharu, gan gynnwys siopau dillad a nwyddau trydanol. I'r gwrthwyneb mae Llanelwy erbyn hyn yn ganolfan manwerthu wael iawn gyda gostyngiad arwyddocaol yn nifer y siopau Stryd Fawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chyda nifer fach o siopau bellach yn weddill - o ganlyniad i lefelau uchel y traffig ar y Stryd Fawr. Gwneir y prif siopa wythnosol naill ai yn Ninbych (Safeways) neu'r Rhyl (Sainsbury's).

**Tabl 4.2: Gwasanaethau yn ôl tref**

| **Gwasanaeth** | **Llanelwy** | **Rhydaman** |
|---|---|---|
| Addysg | Ysgol Gynradd (4), Ysgol Uwchradd (1) | Ysgol Gynradd (4), Ysgol Uwchradd (1), Coleg 6ed Dosbarth (1) |
| Iechyd | Ysbyty (1), Meddygfa (2), Deintydd (1), Cartref Gofal (3) | Ysbyty (1), Meddygfa (3), Deintydd (1), Cartref gofal (2), Milfeddyg (2) |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau proffesiynol | Banc/Cymdeithas Adeiladu (2), Gwasanaethau proffesiynol (6), Asiant Gwerthu Tai (1) | Trefnwyr angladdau (2), Banc/Cymdeithas Adeiladu (6), Gwasanaethau proffesiynol (5), Asiant Gwerthu Tai (2) |
| Hamdden | Gwesty (5), Tafarn (2), Bwyty (1), Canolfan Hamdden (1), | Gwesty (1), Tafarn (3), Bwyty (2), Canolfan Hamdden (1), |
| Manwerthu bwyd | Nwyddau cyffredinol (1), siop ddiodydd drwyddedig (1), Siop fferm/delicatessen (1) | Archfarchnadoedd (4 – Co-op, Somerfield, Kwiksave, Tesco), Cigydd (1), Siop fara (2), Siop groser (1) |
| Manwerthu arall | Swyddfa Bost (1), Crefftau/anrhegion (1), Fferyllfa (1), Offer pysgota (1) | Swyddfa Bost (1), Dillad (5) Crefftau/anrhegion (2), Siop papurau newydd (3), Trydanol (2), Fferyllfa (2) |

Ffynhonnell: Cofrestr Fusnes Dun a Bradstreet (Haf 2002); Data Busnes Equifax a gyhoeddwyd ar gyfer chwarter cyntaf 2002 (Ffynhonnell data Yellow pages). NODER: Dim ond mynegol yw'r tabl hwn gan fod y data yn anghyson ac yn anghyflawn.

4.13. **Busnes a chyflogaeth:** Mae gan Lanelwy a Rhydaman sail cyflogaeth sylweddol. Mae parc busnes mawr yn Llanelwy (safle tir glas 45 hectar o faint sy'n eiddo i Awdurdod Datblygu Cymru) wedi'i leoli un filltir i'r gorllewin o Lanelwy ac yn croesi ffin y Ward rhwng Llanelwy a Chroesffordd Marli, gyda mynediad uniongyrchol oddi ar Ffordd Gyflym yr A55. Yn yr un modd, mae o leiaf pedwar parc busnes wedi'u lleoli yn Rhydaman a'r aneddiadau cyfagos cysylltiedig ym Mhantyffynnon a Chapel Hendre.

4.14. Nodir cyfanswm nifer yr unedau busnes a'r cyflogeion ar gyfer Llanelwy a Rhydaman, yn seiliedig ar yr Ymchwiliad Busnes Blynyddol, yn **Nhabl 4.3**, tra bod **Tabl 4.4** yn cymharu maint y busnesau yn ôl nifer y cyflogeion.

**Tabl 4.3: Cyfanswm nifer yr unedau busnes a'r cyflogeion (Lled Drefol)**

| | **Llanelwy[1]** | **Rhydaman** |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr unedau busnes | 158 | 227 |
| Cyfanswm nifer y cyflogeion | 2,118 | 3,627 |
| Cyfanswm y boblogaeth | 3,384 | 8,100 |

1. Bydd y ffigurau ar gyfer Llanelwy ond yn cynnwys y rhan honno o Barc Busnes Llanelwy sydd o fewn Ward Llanelwy
Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol (2000)

**Tabl 4.4 a: % yr unedau busnes yn ôl nifer y cyflogeion**

| | **Llanelwy[1]** | **Rhydaman** |
|---|---|---|
| Nifer yr unedau gyda <10 o gyflogeion | 77% | 78% |
| Nifer yr unedau gyda 11-49 o gyflogeion | 19% | 17% |
| Nifer yr unedau gyda 50 – 99 o gyflogeion | 2% | 2% |
| Nifer yr unedau gyda > 100 o gyflogeion | 3% | 2% |

**Tabl 4.4 b: % y cyflogeion yn ôl maint yr uned**

| | Llanelwy[1] | Rhydaman |
|---|---|---|
| Cyflogeion mewn Unedau gyda< 10 o gyflogeion | 17% | 17% |
| Cyflogeion mewn Unedau gyda 11 – 49 o gyflogeion | 27% | 23% |
| Cyflogeion mewn Unedau gyda 50 – 99 o gyflogeion | 12% | 10% |
| Cyflogeion mewn Unedau gyda> 100 o gyflogeion | 44% | 50% |

4.15. O'u cymharu â'r trefi marchnad eraill, mae gan y ddau anheddiad lled drefol hyn nifer o gyflogwyr mawr, gyda 2% o'r unedau busnes yn Rhydaman a 3% yn Llanelwy, yn cyflogi dros 100 o bobl. Yn eu tro, mae 50% o'r cyflogeion yn Rhydaman a 44% yn Llanelwy yn gweithio mewn busnesau sy'n cyflogi dros 100 o bobl[6]. Mae hyn yn wahanol iawn i'r trefi marchnad eraill lle mae mwyafrif y cyflogeion yn gweithio mewn busnesau sy'n cyflogi llai na 50 o bobl.

4.16. Mae'n amlwg (**Tabl 4.5**) bod nifer uchaf yr unedau busnes yn Llanelwy a Rhydaman ym maes dosbarthu a manwerthu (30% a 39% yn y drefn honno[7]), wedi'i ddilyn gan wasanaethau ariannol (22% a 18%) a gweinyddiaeth gyhoeddus (18% a 14%).

4.17. Fodd bynnag, o edrych ar nifer y cyflogeion yn y gwahanol sectorau, ceir gwahaniaeth amlwg rhwng y ddwy dref. Mae'n amlwg mai canolfan weinyddol yw Llanelwy. Mae ganddi ysbyty rhanbarthol (sy'n cyflogi 2000 o bobl) a nifer o gyflogwyr cyhoeddus arwyddocaol sydd wedi symud i Barc Busnes Llanelwy, gan gynnwys swyddfeydd rhanbarthol Awdurdod Datblygu Cymru, swyddfeydd Cyngor Sir Dinbych, swyddfeydd Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad ac ELWa, a chynigion i swyddfeydd rhanbarthol Llywodraeth y Cynulliad symud yno (Astudiaeth Achos 2). Mae cyfanswm o 38% o gyflogeion Llanelwy yn gweithio ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus. Yn ogystal, mae'r Parc Busnes yn lleoliad cynyddol boblogaidd ar gyfer pencadlysoedd rhanbarthol a chenedlaethol sefydliadau fel yr RNLI.

**Tabl 4.5: Unedau busnes a chyflogeion yn ôl sector (Lled Drefol)**

| **Sector busnes** | **Llanelwy** | | **Rhydaman** | |
|---|---|---|---|---|
| | **% yr unedau** | **% y cyflogeion** | **% yr unedau** | **% y cyflogeion** |
| Gweithgynhyrchu | 6% | 27% | 7% | 14% |
| Adeiladu | 9% | 3% | 7% | 33% |
| Dosbarthu a manwerthu (1) | 30% | 13% | 39% | 17% |
| Gwasanaethau ariannol | 22% | 12% | 18% | 8% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus | 18% | 38% | 14% | 19% |
| **DS Nid yw'r cyfansymiau yn dod i gyfanswm o 100% gan mai dim ond y sectorau hynny a sgoriodd dros 5% a gynhwysir** | | | | |

[6] Ystadegau o'r Ymchwiliad Busnes Blynyddol - Dadansoddiad o Weithleoedd 2000.
[7] Mae dosbarthu yn cynnwys manwerthu

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2000
(1) yn cynnwys arlwyo a gwestai

4.18. Mae Rhydaman hefyd yn ganolfan weinyddol gyda swyddfeydd llywodraeth leol a nawdd cymdeithasol a chyflogaeth sylweddol ym maes addysg. Ond ceir canran uchaf y cyflogeion ym maes adeiladu (33%) gyda nifer o gwmnïau adeiladu mawr. Mae'r un peth yn wir yn Llanelwy gyda chanran sylweddol o'r cyflogeion (27%) wedi'u cyflogi mewn nifer fach o gwmnïau gweithgynhyrchu mawr, gan adlewyrchu cysylltiad hir-sefydledig Pilkington Glass gyda'r dref. Mae gan Pilkington ddwy ffatri gerllaw Parc Busnes Llanelwy sy'n gweithgynhyrchu offer milwrol a chynnyrch optegol ac, er bod nifer y cyflogeion wedi gostwng o tua 600 i 230[8] dros gyfnod hir, mae'r cysylltiad hwn wedi arwain at ddatblygu diwydiannau cysylltiedig ar Barc Busnes Llanelwy a'r ardaloedd cyfagos, gan gynnwys Phoenix Optical Glass Ltd (sy'n cyflogi 21), Thales Optics Ltd (sy'n cyflogi 460), a Thales Optronics (Holdings) (sy'n cyflogi 1079). Gwnaed cais Amcan 1 hefyd i ddatblygu obtroneg ymhellach yn y Parc Busnes. Ymhlith y gweithgynhyrchwyr mawr eraill yn Llanelwy mae M & K Electronics a Hotpoint sy'n cyflogi 800 o bobl gerllaw ym Modelwyddan.

4.19. Mae'r colledion a'r enillion sylweddol yn Rhydaman dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi cynnwys colli cwmni Alan Paine Clothing (lle collwyd 120 o swyddi) a oedd yn gweithgynhyrchu dillad o safon a wrthbwyswyd wrth i ganolfan galwadau newydd gael ei datblygu ym Mhantyffynnon yn cyflogi 100+ a gyda'r disgwyl y bydd yn cynyddu i ddarparu 260 o swyddi, a lleoli canolfan ddosbarthu Dewhirsts yng Nghapel Hendre yn cyflogi 70[9], yn ogystal â chwmni cydrannau modur newydd o Japan (Matsui) gyda 150 o gyflogeion (y disgwylir gweld cynnydd hyd at 225 o gyflogeion ymhen tair blynedd).

4.20. Yn amlwg, yn ôl data ar fentrau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW (Swyddfa Ystadegau Gwladol), nid oes unrhyw fusnesau wedi'u cofrestru ar gyfer TAW ym maes amaethyddiaeth yn Rhydaman tra bod 33% o'r busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn yr aneddiadau gwledig cyfagos yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Ar y llaw arall, yn Llanelwy, gyda'i marchnad da byw a'i lladd-dy, mae 10% o'r busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn ymwneud ag amaethyddiaeth, a 56% yn ei haneddiadau gwledig cyfagos.

4.21. **Cymudo**: Nid oes unrhyw ddata cynhwysfawr ar gael ar batrymau cymudo cyfredol ar gyfer unrhyw un o'r trefi marchnad enghreifftiol. Yr unig wybodaeth gyfredol sydd ar gael yw arolwg teithio i'r gwaith diweddar o nifer o unedau ym Mharc Busnes Llanelwy. Noda'r arolwg o'r 512 o gyflogeion fod POB UN ohonynt yn dod i'r gwaith yn y car gyda 70% yn cymudo o fewn radiws o 30 milltir gan gynnwys rhai a oedd yn teithio o Dreffynnon, Wrecsam, Yr Wyddgrug, Rhuthun a'r Rhyl, a'r 30% arall yn cymudo o leoliadau ymhellach i ffwrdd. Nid oedd unrhyw gyflogeion yn dod o Lanelwy.

4.22. Gall y gydberthynas rhwng poblogaeth a nifer swyddi ddarparu dangosydd defnyddiol o raddau'r teithio i'r gwaith o anheddiad. Ond o ystyried cyfyngiadau'r data cyfredol

[8] Ffynhonnell: Cofrestr Busnes Dun a Bradstreet Haf 2000
[9] Er bod nifer o ffatrïoedd ledled y DU yn cau gyda gweithgynhyrchu yn symud i Floc y Dwyrain, bydd y ganolfan hon yn parhau i gyflawni swyddogaethau dosbarthu a rheoli ansawdd ar gyfer dillad o'r DU a bloc y Dwyrain.

sydd ar gael dim ond cymharu poblogaethau Wardiau o Gyfrifiad 1991 â nifer swyddi cyflogeion o Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2000 y gellir gwneud. Gan dderbyn cyfyngiadau arwyddocaol y data hwn awgryma mai 0.7 yw cymhareb swyddi cyflogeion i'r boblogaeth ar gyfer Rhydaman a 0.6 ar gyfer Llanelwy, o'i gymharu â 0.2 a 0.3 ar gyfer eu haneddiadau cyfagos. Hynny yw, gallai fod gan y ddwy dref fwy o swyddi na'r bobl i'w llenwi - gan annog mewngymudo - o'i gymharu â'r aneddiadau cyfagos a fydd yn debygol o allgymudo. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, fel y nodwyd yn y gweithdai mae canran sylweddol o boblogaeth y trefi hyn yn allgymudo i'r gwaith (para 4.6), sy'n golygu bob dydd y ceir mewnlif sylweddol (fel y dangosir gan Barc Busnes Llanelwy) ac all-lif o weithwyr. Dangosir hyn yn rhannol gan ddata Cyfrifiad 1991 a oedd yn dangos bod 31% o'r boblogaeth a oedd yn gweithio yn Rhydaman a 27% yn Llanelwy yn cymudo i'r gwaith y tu allan i'w hardal breswylio arferol.

4.23. Yn nhermau dull trafnidiaeth, ym 1991, yn Llanelwy a Rhydaman, roedd tua 67% o'r bobl a oedd yn teithio i'r gwaith yn gwneud hynny yn y car, er ei bod yn werth nodi bod 12% ac 17% ohonynt yn cerdded. Yn y ddwy dref lled drefol hyn roedd tua 8% o'r gweithlu yn gweithio o gartref.

4.24. **Twristiaeth:** Nid yw Llanelwy na Rhydaman yn drefi twristiaeth amlwg. Yn ôl y Bwrdd Croeso nid oes unrhyw lety i dwristiaid yn Rhydaman. I'r gwrthwyneb, mae Eglwys Gadeiriol yn Llanelwy sy'n denu 20,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac Allfa Ffatri Tweedmill (Astudiaeth Achos 4) lle ceir tua 400,000 o gwsmeriaid y flwyddyn, 80% ohonynt yn dod o'r tu allan i'r Sir. Mae ganddi hefyd bum gwesty[10]. Gwelwyd cynlluniau hefyd ar gyfer gwesty a chanolfan gynadledda gwerth £8 miliwn yn Llanelwy.

### Aneddiadau Gwledig Hygyrch (Rhuthun a Llandeilo)

| | |
|---|---|
| Rhuthun | Cyfanswm y boblogaeth 5,299 |
| Llandeilo | Cyfanswm y boblogaeth 1,645 |

4.25. Datblygodd Rhuthun a Llandeilo fel trefi marchnad traddodiadol gyda marchnad da byw yn y ddwy. Yn Llandeilo caeodd y farchnad yn y 15 mlynedd diwethaf ond ceir marchnad yn Ffairfach yr ochr draw i'r bont o Landeilo. Yn Rhuthun datblygwyd marchnad newydd ar gyrion y dref, yn gwasanaethu hanner ddeheuol Sir Ddinbych, gyda thri gwerthiant da byw yr wythnos ac arwerthiant peirianwaith a dodrefn unwaith y mis. Bu sôn hefyd am gynnal marchnad ffermwyr ond y broblem yw sicrhau amrywiaeth digonol o gynnyrch.

4.26. **Nodweddion y boblogaeth:** Mae gan Ruthun a Llandeilo ymdeimlad o gymuned gyda thros 50% o siaradwyr Cymraeg (70% yn Rhuthun). Nododd Astudiaeth Adfywio Llandeilo – bod gan Landeilo "*cymuned eithriadol o fywiog ac arloesol*" tra y nodwyd yn un o'r gweithdai bod Rhuthun yn gymuned "*o athrawon gyda diwylliant cymunedol gweithgar iawn*". Ystyrir fod gan y ddwy dref nifer fawr o bobl sydd wedi symud i'r ardal i ymddeol. Yn achos Rhuthun tybir fod y boblogaeth hon yn cynnwys ffermwyr sydd wedi ymddeol i'r dref a phlant noddedig o'r Ail Ryfel Byd a ymddeolodd i'r ardal o Lerpwl a Manceinion. Cadarnheir yr amgyffrediadau hyn gan yr ystadegau sy'n nodi

[10] Dun a Bradstreet Haf 2002

bod cyfran y boblogaeth dros 60 oed yn Rhuthun a Llandeilo yn 30.5%[11] a 32%[12] - sef y cyfrannau uchaf yn yr aneddiadau enghreifftiol ac eithrio'r rheini a welir o fewn rhai o'r aneddiadau ymylol.

4.27. **Gwasanaethau a manwerthu:** Mae'r ddarpariaeth o wasanaethau yn Rhuthun yn debyg i'r ddarpariaeth yn y ddau anheddiad lled drefol, gan adlewyrchu maint yr anheddiad i raddau helaeth, gyda llyfrgell ac, yn ôl yr Awdurdod Addysg, tair ysgol gynradd, un ysgol uwchradd gyda 1,160 o ddisgyblion ar y gofrestr a choleg addysg bellach (Coleg Llysfasi) sy'n cyflogi 200. Ceir ysgol breifat, ysbyty bach a nifer o gartrefi gofal hefyd ar gyrion y dref. O'i gymharu â hyn, mae sail gwasanaethau Llandeilo yn sylweddol lai, er bod ganddi ddwy ysgol gynradd gyda chyfanswm o 392 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac ysgol uwchradd, Tregib, gyda thua 946 o ddisgyblion.

**Tabl 4.6: Gwasanaethau yn ôl tref**

| Gwasanaeth | Rhuthun | Llandeilo |
|---|---|---|
| Addysg | Ysgol Feithrin (3), Ysgol Gynradd (3), Ysgol Uwchradd (2), Coleg addysg bellach (2) | Ysgol Feithrin (1), Ysgol Gynradd (2), Ysgol Uwchradd (1) |
| Iechyd | Ysbyty (1), Meddygfa (3), Deintydd (2), Cartref Gofal (4), Milfeddyg (1) | Meddygfa (1), Deintydd (1), Care home (1), Milfeddyg (1) |
| Gwasanaethau proffesiynol | Trefnwyr angladdau (1), Banc/Cymdeithas Adeiladu (5), Gwasanaethau proffesiynol (12), Asiant Gwerthu Tai (3) | Trefnwyr angladdau (1), Banc/Cymdeithas Adeiladu (4), Gwasanaethau proffesiynol (10), Asiant Gwerthu Tai (2) |
| Hamdden | Gwesty (6), Tafarn (10), Bwyty/Caffi (3), Canolfan Hamdden (1), Canolfan Croeso (1) | Gwesty (2), Tafarn (4), Bwyty/Caffi (4), Canolfan Croeso[1] (1) |
| Manwerthu bwyd | Archfarchnadoedd (2) – Co-op a Spar, Cigydd (2), Siop fara (3), Siop groser (2), Siop ddiodydd drwyddedig (2), Delicatessen. | Archfarchnadoedd (1 – CK), Cigydd (1), Siop fara (1), Siop groser (1), Siop ddiodydd drwyddedig (1) |
| Manwerthu arall | Swyddfa Bost (1), Siop papurau newydd (3), Dillad (10), Crefftau/anrhegion (2), Fferyllfa (2) Dodrefn (1), Asiantau teithio (2) | Swyddfa Bost (1), Siop papurau newydd (2), Dillad (2), Siop Hen Bethau (4), dylunio mewnol (1), Crefftau/anrhegion (2), Fferyllfa (1) |

Ffynhonnell: Cofrestr Fusnes Dun a Bradstreet (Haf 2002); Data Busnes Equifax a gyhoeddwyd ar gyfer chwarter cyntaf 2002 (Ffynhonnell data Yellow pages). NODER: Dim ond mynegol yw'r tabl hwn gan fod y data yn anghyson ac yn anghyflawn.

4.28. Yn nhermau manwerthu, prif swyddogaeth Rhuthun a Llandeilo yw bod yn ganolfannau lleol gyda phwyslais ar siopau arbenigol. Yn achos Llandeilo tyfodd yr enw da hwn yn bennaf yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Er bod archfarchnadoedd bach yn Rhuthun a Llandeilo, gwneir y siopa wythnosol mewn lleoliadau eraill (Dinbych (Safeways) neu'r Wyddgrug (Tesco) yn achos Rhuthun, a Chaerfyrddin neu Rydaman yn achos Llandeilo). Mae gan Ruthun amrywiaeth o siopau cyfleustra a chymharu, ac mae ganddi enw da am siopau dillad ac amrywiaeth da o siopau bach o ansawdd gan gynnwys hen bethau a chrefftau (gyda chanolfan grefftau fawr ar gyrion y dref). Mae gan Ruthun hefyd amrywiaeth o siopau y tu allan i'r dref sy'n gwerthu nwyddau fel

[11] Cymerwyd o ddata cyfrifiad 1991
[12] Amcangyfrif o ddata'r boblogaeth a ddarparwyd gan Sir Gaerfyrddin o ystadegau Iechyd

dodrefn, bwyd i anifeiliaid a charpedi. O'i gymharu, mae Llandeilo yn sylweddol llai ac mae'n canolbwyntio ar ddod yn ganolfan siopa 'niche' yn gwerthu gemwaith, crefftau a dillad i ferched, gydag allfa gwerthu ar gyfer Toast – cwmni archebu drwy'r post ar gyfer dillad o ansawdd i ferched sydd wedi'i leoli gerllaw yn Llansteffan. Ystyrir fod y siopau arbenigol hyn yn bwysig wrth ddenu gwariant heb fod yn wariant lleol. Serch hynny, ar hyn o bryd mae nifer sylweddol o siopau gwag ar y Stryd Fawr.

4.29. **Cyflogaeth:** Mae dau barc busnes bach wedi'u lleoli yn Rhuthun ond nid oes parc busnes yn Llandeilo. Er gwaethaf nodweddion tebyg yng nghymeriad y ddarpariaeth fanwerthu, ceir gwahaniaeth sylweddol rhwng y ddwy dref yn nhermau nifer yr unedau busnes a chyfanswm nifer y cyflogeion, sy'n adlewyrchu maint cyffredinol y ddwy dref.

**Tabl 4.7: Cyfanswm nifer yr unedau busnes a'r cyflogeion (Gwledig Hygyrch)**

| | Rhuthun | Llandeilo |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr unedau busnes | 284 | 124 |
| Cyfanswm nifer y cyflogeion | 2,614 | 901 |
| Cyfanswm y boblogaeth | 5,299 | 1,645 |

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol (2000)

**Tabl 4.8 a: % yr unedau busnes yn ôl nifer y cyflogeion (Gwledig Hygyrch)**

| | Rhuthun | Llandeilo |
|---|---|---|
| Nifer yr unedau gyda <10 o gyflogeion | 81% | 83% |
| Nifer yr unedau gyda 11-49 o gyflogeion | 15% | 16% |
| Nifer yr unedau gyda 50 – 99 o gyflogeion | 2% | 1% |
| Nifer yr unedau gyda > 100 o gyflogeion | 1% | 0% |

**Tabl 4.8 b: % y cyflogeion yn ôl maint yr uned (Gwledig Hygyrch)**

| | Rhuthun | Llandeilo |
|---|---|---|
| Cyflogeion mewn Unedau gyda <10 o gyflogeion | 32% | 44% |
| Cyflogeion mewn Unedau gyda 11 – 49 o gyflogeion | 32% | 47% |
| Cyflogeion mewn Unedau gyda 50 – 99 o gyflogeion | 18% | 9% |
| Cyflogeion mewn Unedau gyda >100 o gyflogeion | 18% | 0% |

4.30. Adlewyrchir y gwahaniaeth hwn hefyd ym maint y busnesau unigol o fewn pob anheddiad. Felly, er bod dros 80% o'r busnesau yn y trefi gwledig hygyrch hyn yn cyflogi llai na 10 o gyflogeion, yn Rhuthun mae 36% o'r cyflogeion yn gweithio i fusnesau gyda 50-200 o gyflogeion, tra nad oes unrhyw fusnes yn Llandeilo sy'n cyflogi dros 100 o bobl. Yr unig gyflogwr arwyddocaol yw swyddfeydd y Cyngor, y deellir eu bod yn cyflogi tua 80 o bobl. Yn wir, yn Llandeilo cyflogir 69% o'r cyflogeion mewn busnesau gyda llai na 25 o gyflogeion. Y ffigur cyfatebol ar gyfer Rhuthun yw 52%. Serch hynny, nid oes gan Ruthun gyflogwyr mawr iawn fel y gwelir yn yr aneddiadau lled drefol, gyda dim ond 18% o'r cyflogeion yn gweithio i fusnesau gyda mwy na 100 o gyflogeion.

4.31. Er bod gwahaniaeth sylweddol rhwng maint y busnesau yn Rhuthun a Llandeilo, ymddengys fod y mathau o fusnes, o leiaf yn ôl yr ystadegau, yn debyg, ac ymddengys eu bod hefyd yn debyg i'r mathau o fusnes yn yr aneddiadau lled drefol. Eto, mae'r nifer uchaf o unedau busnes yn Rhuthun a Llandeilo ym maes dosbarthu (42% a 35% yn y drefn honno[13]), wedi'i ddilyn gan wasanaethau ariannol (15% a 22%) a gwasanaethau cyhoeddus (13% a 18%).

**Tabl 4.9: Unedau busnes a chyflogeion yn ôl sector (Gwledig Hygyrch)**

| Sector busnes | Rhuthun | | Llandeilo | |
|---|---|---|---|---|
| | % yr unedau | % y cyflogeion | % yr unedau | % y cyflogeion |
| Gweithgynhyrchu | 6% | 4% | 9% | 18% |
| Adeiladu | 11% | 20% | - | - |
| Dosbarthu a manwerthu (1) | 42% | 28% | 35% | 29% |
| Gwasanaethau ariannol | 15% | 6% | 21% | 19% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus | 13% | 30% | 18% | 26% |
| **DS Nid yw'r cyfansymiau yn dod i gyfanswm o 100% gan mai dim ond y sectorau hynny a sgoriodd dros 5% a gynhwysir** | | | | |

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2000
(1) Yn cynnwys arlwyo a gwestai

4.32. Mae canran uchel y cyflogeion ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus yn Rhuthun a Llandeilo (30% a 26% yn y drefn honno) yn adlewyrchu lleoliad swyddfeydd y Cyngor Sir yn y ddwy dref (Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin). Hefyd mae swyddfeydd ardal sawl sefydliad cadwraeth wedi'u lleoli yn Llandeilo gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed.

4.33. Mae cysylltiadau'r ddwy dref â'r economi yn seiliedig ar y tir hefyd yn parhau. Mae cyflogwyr amaethyddol wedi'u lleoli yn Llandeilo o hyd gan gynnwys cyflenwyr bwyd anifeiliaid, cwmnïau gwasanaethu tractorau a phencadlys cydweithredol i ffermwyr. Mae'r Hufenfeydd Cydweithredol Cysylltiedig hefyd wedi'u lleoli yn Llangadog. Mae clwstwr busnes o fusnesau amaethyddol a busnesau sy'n ymwneud â mwynau wedi'i leoli yn Rhuthun, gan gynnwys ffatri coed, Ifor Williams Trailers (sy'n gweithgynhyrchu gorchuddion gwydr ffeibr i ôl-gerbydau), gweithgynhyrchwyr ffensio, ffatri tractorau, a chwmnïau cludo. Mae'r rhain yn cyflogi tua 540 o bobl[14], sy'n gyfwerth â 21% o'r gweithlu yn Rhuthun. Pwysleisir y cysylltiadau amaethyddol hyn hefyd gan y ffaith bod 13% o fusnesau cofrestredig Llandeilo wedi'u gwreiddio ym maes amaethyddiaeth o hyd, tra ceir ffigur cyfatebol o 66% yn yr aneddiadau cyfagos. Yn y gweithdy amlygwyd y ffaith bod cynllun amaeth-amgylchedd peilot Tir Cymen, wedi'i leoli yn Ninefwr, wedi bod o gymorth sylweddol wrth adfywio economi amaethyddol yr ardal (para 2.24). Yn annisgwyl, mae'r ffigur cyfatebol ar gyfer Rhuthun yn dangos mai dim ond 7% o'r busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW sydd ym maes amaethyddiaeth, tra ceir ffigur o 53% ar gyfer ei haneddiadau cyfagos.

[13] Mae dosbarthu yn cynnwys manwerthu
[14] Ffigurau a gymerwyd o Dun a Bradstreet, Haf 2002

4.34. Collwyd cyflogwyr diwydiannol allweddol yn Llandeilo yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys Brockington Scott (cwmni peirianneg a oedd yn cyflogi 80 o bobl), Shufflebottom engineering sydd wedi symud i Cross Hands, yn ogystal â bragdy arbenigol y dref. Yn eu lle, ceir ffocws newydd ar fusnesau hunan-gyflogedig a micro-fusnesau a datblygiad posibl TGCh a'r cyfryngau. Mae nifer o weithdai crefft yn datblygu ar gyrion y dref ac mae'n bosibl y caiff adeiladau Brockington Scott eu hailddatblygu fel gweithdai crefft. Yn ogystal, mae Alkemi mewn partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru, wrthi ar hyn o bryd yn datblygu techniwm cyfryngau mewn adeiladau gwag ar dir Fferm Coleg Gelli Aur (sy'n rhan o Goleg Sir Gâr). Bydd y techniwm hwn yn lleoliad i glwstwr o fusnesau arloesol sy'n tyfu (Astudiaeth Achos 15), gan gynnwys Teledu Telesgop Cyf, cwmni cynhyrchu lleol amlwg, sydd wedi'i leoli yn Llandeilo ar hyn o bryd gan gyflogi 25 o bobl[15]. Dangosodd arolygon o fusnesau a gynhaliwyd yn ystod Astudiaeth Adfywio Llandeilo fod gan dros chwarter yr ymatebwyr gynlluniau buddsoddi o ryw fath, gan gynnwys adleoli posibl yn yr ardal.

4.35. **Cymudo:** Fel o'r blaen (para 4.21), o edrych ar y gydberthynas rhwng y boblogaeth a nifer y swyddi, awgrymir mai 0.5 yw'r gymhareb swyddi cyflogeion i'r boblogaeth yn Rhuthun a Llandeilo. Felly, gan ganiatáu ar gyfer pobl sy'n anweithgar yn economaidd, gallai fod llai o swyddi na chyflogeion, a fyddai'n annog rhywfaint o allgymudo. Dangosir hyn yn rhannol gan ddata Cyfrifiad 1991 sy'n nodi nad yw'n gyfredol bellach a oedd yn dangos bod 29% o'r boblogaeth a oedd yn gweithio yn Rhuthun yn cymudo i'r gwaith o'r tu allan i'w hardal breswylio arferol, gyda'r ffigur cyfatebol ar gyfer yr aneddiadau o amgylch Rhuthun yn 18%. Fe'i dangosir hefyd gan y safbwyntiau a fynegwyd yn y gweithdai lle nodwyd fod Rhuthun yn anheddiad i gymudwyr a oedd yn denu lefelau swyddi rheoli a oedd yn cymudo bob dydd i Sir y Fflint, Caer, Cilgwri a Lerpwl. Yn yr un ffordd, teimlwyd fod gan Landeilo erbyn hyn boblogaeth sylweddol a chanddynt swyddi rheoli a oedd yn cymudo mor bell â Chaerdydd. I'r gwrthwyneb, yn ôl arolwg a gynhaliwyd o gyflogwyr yn Llandeilo fel rhan o Astudiaeth Adfywio Llandeilo, ymddangosai fod 44% o'r gweithlu cyflogedig ym 1997 yn preswylio yn Llandeilo, fod 28% ohonynt yn byw yn yr ardaloedd gwledig cyfagos, a bod 28% ohonynt yn cymudo o leoliadau pellach gan gynnwys Rhydaman.

4.36. Yn gyffredinol, o'u cymharu â'r sylwadau a wnaed yn y gweithdai, ymddengys fod y ffigurau cymudo yn deillio o Gyfrifiad 1991 yn isel, er y gallai patrymau fod wedi newid yn sylweddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

4.37. Yn nhermau dull trafnidiaeth, o Gyfrifiad 1991, roedd 65% o bobl teithio i'r gwaith yn Rhuthun mewn ceir preifat er bod 23% ohonynt yn cerdded i'r gwaith. Nid oes ffigurau cyfatebol ar gael ar gyfer Llandeilo.

4.38. **Twristiaeth:** Nid yw'r un o'r trefi marchnad yn ganolfan twristiaeth fawr ynddi hi ei hun. Yn ôl y Bwrdd Croeso, mae chwe gwesty yn nhref Rhuthun (gyda 58 o ystafelloedd gwely yn y mwyaf), a dau yn Llandeilo (gyda 17 o ystafelloedd gwely yn y mwyaf). Mae Rhuthun yn boblogaidd gyda thwristiaid dydd ond dônt yn bennaf o radiws o 100 milltir. Yn y gorffennol, darparodd fan aros dros nos i deithwyr coets ond gan eu bod yn cyrraedd yn hwyr ac yn gadael yn gynnar prin oedd yr incwm a ddeuai i'r dref yn eu sgîl. Yn ddiweddar cyflwynwyd nifer o ddatblygiadau arwyddocaol sy'n anelu at gynyddu potensial y dref o ran twristiaid. Mae'r

[15] Fel uchod

datblygiadau hyn yn cynnwys agor canolfan grefftau (90,000 o ymwelwyr yn 2000) ar gyrion y dref sy'n cynnwys Canolfan Croeso, adnewyddu'r Carchar fel atyniad i dwristiaid a chanolfan cofnodion, a chynigion ar gyfer datblygu t□ ffrâm pren Nant Clwyd yng nghanol y dref fel atyniad.

4.39. Mae hyfywdra a chymeriad arbenigol cynyddol Llandeilo yn ddeniadol i dwristiaid. Ceir nifer o atyniadau yn y cyffiniau gan gynnwys Castell Carreg Cennen a'r Ganolfan Celf a Chrefft yn Trapp. Ond o bosibl yr atyniad mwyaf yw amgylchedd naturiol yr ardal a diddordeb garddwriaethol a dylunio cyfun Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne; Gerddi Cudd Aberglasney yn Derwen Fawr; a Th□ a Gerddi Newton sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar ymyl orllewinol Llandeilo (20,000 o ymwelwyr yn 2000).

### Aneddiadau gwledig anghysbell (Y Bala a Thregaron)

| | |
|---|---|
| Y Bala (Parc Cenedlaethol Eryri): | Cyfanswm y boblogaeth 1,922 |
| Tregaron: | Cyfanswm y boblogaeth 940 |

4.40. Eto, tyfodd y ddau anheddiad hyn fel canolfannau gwasanaeth gan gynnal eu cyffiniau gwledig. Mae marchnadoedd da byw yn cael eu cynnal o hyd yn y ddwy ac mae lladd-dy yn Nhregaron sy'n dal i wasanaethu cynhyrchwyr unigol (Cig Caron) a chyflenwyr ffermydd (Ffermwyr Clynderwen a Cheredigion Cyf). Ceir cysylltiad cryf hefyd rhwng y ddwy dref â diwylliant Cymru a hynny'n amlwg yn eu gwyliau diwylliannol – mae'r Bala yn adnabyddus am ei chysylltiadau â chorau Cymreig a *Gŵyl y Gwyniad*, sef gŵyl gerddorol a diwylliannol flynyddol, tra y cynhelir gŵyl gerddorol yn Nhregaron sef *'G□yl Profwch y Mynyddoedd'* sydd hefyd yn cynnwys *Ffair Garon* a drefnir gan Guriad Caron (gweler isod). Yn ogystal, mae gan y ddwy gysylltiad cryf â thraddodiad amaethyddol ucheldir sy'n hunan-ddibynnol i raddau helaeth.

4.41. **Nodweddion y boblogaeth:** Mae dros 90% o boblogaeth y ddwy dref yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn famiaith i dros 80% o drigolion y Bala. Yn y Bala, o'r 7% o'r boblogaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg, mae 50 ohonynt wrthi ar hyn o bryd yn dysgu Cymraeg. I lawer o drigolion y Bala, mae'r diwylliant Cymreig yn greiddiol i ansawdd eu bywyd a dyma yw'r prif reswm dros fyw a gweithio yno. Mae ymdeimlad cryf iawn o gymuned gan y ddwy dref, wedi'i hatgyfnerthu o bosibl gan natur anghysbell y trefi. Mae gan y ddwy grwpiau cymunedol cryf sy'n gweithio gydag adnoddau'r ardal i wella cyfleoedd – Antur Penllyn a Chwlwm Gwledig yn y Bala, a Phentir Pumlumon a Churiad Caron yn Nhregaron, gyda'r olaf yn gyfrifol am ddatblygu'r *Fenter Trefi Marchnad* ac erbyn hyn y *Pecyn Offer Adfywio Cymunedol.*

4.42. Ystyrir fod canran y bobl sydd wedi ymddeol yn uchel, ond mae'r nifer yn llai nag yn y trefi gwledig hygyrch – 28% yn y Bala a 27% yn Nhregaron. Yn y Bala, wedi'u denu gan ei lleoliad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, symudodd llawer o bobl i'r ardal i ymddeol, gan greu lefel newydd o gyfoeth a honnir i brisiau tai gynyddu yn sgîl hyn. O'i gymharu â hyn, ystyrir fod lefelau incwm yn Nhregaron yn gyffredinol isel gyda phocedi o dlodi eithafol ac amddifadedd. Dim ond ar lefel sirol y mae nodweddion socio-economaidd eraill ar gael a cheir crynodeb ohonynt yn **Nhabl 4.10.**

**Tabl 4.10: Nodweddion socio-economaidd yn ôl Sir**

| | **Gwynedd** (Y Bala) | **Ceredigion** (Tregaron) | **Cymru** |
|---|---|---|---|
| **Enillion blynyddol gros ar gyfartaledd** [1] | £18,326 | Dim ystadegau ar gael | £19,901 |
| **Cyfradd gweithgaredd economaidd**[2] | 70.7% | 71.9% | 73.8% |
| **Hunan-gyflogedig fel % o'r holl bobl gyflogedig**[3] | 14.8% | 28.4% | 11.1% |
| **Diweithdra** [4] | 5.3% | 2.8% | 3.7% |

Ffynonellau
1. Arolwg Enillion Newydd 2001 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)
2. Arolwg Gweithlu Blynyddol 1999
3. Arolwg Gweithlu Blynyddol 1999
4. ONS Rhagfyr 2001 (ceiswyr sy'n ddiwaith, amcangyfrifon yn seiliedig ar y gweithlu)

4.43. **Gwasanaethau a manwerthu:** O'i chymharu â'r trefi gwledig hygyrch, mae'r ddarpariaeth gwasanaethau yn y trefi gwledig anghysbell hyn yn gyffredinol fwy cyfyngedig. Mae llyfrgell, canolfan hamdden, ysgolion cynradd ac ysgol uwchradd sydd wedi gwneud cais i ddod yn Ganolfan Dysgu Gydol Oes yn y Bala, tra bod llyfrgell, ysbyty bach ac ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yn Nhregaron hefyd.

**Tabl 4.11: Gwasanaethau yn ôl tref**

| **Gwasanaeth** | **Y Bala** | **Tregaron** |
|---|---|---|
| Addysg | Ysgol Gynradd (2), Ysgol Uwchradd (1) | Ysgol Gynradd (1), Ysgol Uwchradd (1) |
| Iechyd | Canolfan Iechyd (2), Cartref Gofal (1) | Ysbyty (1), Meddygfa (1) |
| Gwasanaethau proffesiynol | Banc/Cymdeithas Adeiladu (2), Gwasanaethau proffesiynol (4), Asiant Gwerthu Tai (1) | Banc/Cymdeithas Adeiladu (3), Gwasanaethau proffesiynol (6) |
| Hamdden | Gwesty (5), Tafarn (2), Bwyty (6), Canolfan Hamdden (1), Canolfan Croeso (1) | Gwesty (2), Tafarn (1), Canolfan Croeso (2) |
| Manwerthu bwyd | Archfarchnadoedd (2 – Spar a Kwiksave, gydag un ohonynt yn cynnwys Swyddfa Bost), Cigydd (3), Siop groser (1), | Cigydd (1), Siop fara (1), Siop groser (1) |
| Manwerthu arall | Siop papurau newydd (2), Dillad (1), Fferyllfa (1), Nwyddau Trydanol (1) | Swyddfa Bost (1), Siop papurau newydd (2) |

Ffynhonnell: Cofrestr Fusnes Dun a Bradstreet (Haf 2002); Data Busnes Equifax a gyhoeddwyd ar gyfer chwarter cyntaf 2002 (Ffynhonnell data Yellow pages). NODER: Dim ond mynegol yw'r tabl hwn gan fod y data yn anghyson ac yn anghyflawn.

4.44. Yn nhermau manwerthu, mae dwy archfarchnad fach yn y Bala yn ogystal ag amrywiaeth o siopau cyfleustra eraill (er y gwneir y siopa wythnosol yn yr archfarchnadoedd yn Wrecsam neu Ddolgellau). Mae ganddi hefyd nifer o siopau arbenigol gan gynnwys crefftau, offer awyr agored a hen bethau. Mae siop gigydd, siop fara a groser yn Nhregaron, yn ogystal â swyddfa bost a thair neu bedair o siopau eraill, gyda'r siopa wythnosol yn cael ei wneud yn Aberystwyth neu Lanbedr Pont Steffan. Yn y ddwy dref mae cyfran uchel o'r siopau o dan berchenogaeth y deiliaid.

4.45. **Cyflogaeth:** Mae gweithgaredd busnesau bach yn amlwg yn y ddwy dref. Cyflogir llai na 25 o bobl gan 88% o'r unedau busnes yn y Bala a 83% ohonynt yn Nhregaron. Yn yr un ffordd, mae 69% o'r cyflogeion yn y Bala a 67% yn Nhregaron yn gweithio i fusnesau sy'n cyflogi llai na 25 o bobl.

**Tabl 4.12: Cyfanswm nifer yr unedau busnes a'r cyflogeion (Gwledig Anghysbell)**

| | Y Bala | Tregaron |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr unedau busnes | 111 | 51 |
| Cyfanswm nifer y cyflogeion | 704 | 364 |
| Cyfanswm y boblogaeth | 1,922 | 940 |

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol (2000)

**Tabl 4.13 a: % yr unedau busnes yn ôl nifer y cyflogeion**

| | Y Bala | Tregaron |
|---|---|---|
| Nifer yr unedau gyda <10 o gyflogeion | 88% | 83% |
| Nifer yr unedau gyda 11-49 o gyflogeion | 11% | 16% |
| Nifer yr unedau gyda 50 – 99 o gyflogeion | 1% | 2% |
| Nifer yr unedau gyda > 100 o gyflogeion | 1% | 0% |

**Tabl 4.13 b: % y cyflogeion yn ôl maint yr uned**

| | Y Bala | Tregaron |
|---|---|---|
| Cyflogeion mewn Unedau gyda <10 o gyflogeion | 46% | 36% |
| Cyflogeion mewn Unedau gyda 11 – 49 o gyflogeion | 29% | 42% |
| Cyflogeion mewn Unedau gyda 50 – 99 o gyflogeion | 9% | 23% |
| Cyflogeion mewn Unedau gyda >100 o gyflogeion | 16% | 0% |

4.46. Yn wir, yn Nhregaron roedd 31% o'r boblogaeth yn gweithio gartref yn ôl Cyfrifiad 1991 ac yn y gweithdai nodwyd fod lefelau uchel o hunan-gyflogaeth a chyflogaeth ddeuol, llawer ohoni yn gysylltiedig â'r rheini ym maes amaethyddiaeth. O'i gymharu â hyn, gellir nodi yn y Bala fod 25% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn gweithio i fusnesau sy'n cyflogi dros 100 o bobl.

4.47. Yn nhermau sectorau busnes (**Tabl 4.14**), mae'n amlwg fod mwyafrif y busnesau yn y ddwy dref yn ymwneud â dosbarthu, manwerthu ac arlwyo, sydd hefyd yn cyflogi'r ganran uchaf o bobl (31%) yn y Bala. Mae gan y ddwy dref hefyd lefelau arwyddocaol o gyflogaeth ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus, sef y brif gyflogaeth yn Nhregaron (46%) ac sydd erbyn hyn yn ymwneud yn bennaf ag addysg ers colli swyddfeydd awdurdod lleol y trefi (i Ddolgellau yn achos y Bala ac Aberystwyth yn achos Tregaron). Yn yr un ffordd, mae gan y Bala, y bu ganddi ganran uchel o swyddi mewn swyddfeydd ym maes gwasanaethau ariannol (sydd wedi symud i Wrecsam a Dolgellau yn bennaf), sail gweithgynhyrchu sylweddol gyda nifer o gyflogwyr mawr.

4.48. Ymhlith y cyflogwyr mawr a ddaeth i ystad ddiwydiannol 2.5 hectar y Bala, sydd wedi'i lleoli hanner milltir o'r dref, mae dau fusnes teuluol cynhenid a ehangodd yn

ddiweddar: cwmni dillad Ackroyds (sy'n cyflogi tua 200 o bobl ac a enillodd y contract i wneud dillad nos Harry Potter yn ddiweddar); a Phobty'r Berwyn, sy'n cynhyrchu cynnyrch i'r archfarchnadoedd cenedlaethol a chwmnïau awyrennau ac sy'n cyflogi 120 o bobl (Astudiaeth Achos 17). Ceir hefyd Ifor Williams Trailers Cyf sy'n gweithgynhyrchu ac yn cyflenwi ôl-gerbydau amaethyddol (wedi'i leoli yng Nghorwen 10 milltir i'r dwyrain o'r Bala); ac Action Makers sy'n cynhyrchu sgaffaldiau a ffensys diogelwch ac sy'n cyflogi 90 o bobl. Ar y cyfan, nodwyd yn y gweithdai mai economi o tua pedwar neu bump o gyflogwyr mawr a masnachwyr lleol oedd y Bala, a oedd yn darparu cyflogaeth i ferched yn bennaf.

**Tabl 4.14: Unedau busnes a chyflogeion yn ôl sector (Gwledig Anghysbell)**

| Sector busnes | Y Bala | | Tregaron | |
|---|---|---|---|---|
| | % yr unedau | % y cyflogeion | % yr unedau | % y cyflogeion |
| Gweithgynhyrchu | 8% | 28% | 6% | 5% |
| Adeiladu | 5% | - | - | - |
| Dosbarthu a manwerthu (1) | 45% | 31% | 45% | 25% |
| Trafnidiaeth a chysylltiadau | - | - | 10% | 9% |
| Gwasanaethau ariannol | 15% | 9% | 20% | 13% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus | 10% | 21% | 10% | 46% |
| **DS Nid yw'r cyfansymiau yn dod i gyfanswm o 100% gan mai dim ond y sectorau hynny a sgoriodd dros 5% a gynhwysir** | | | | |

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol 2000
(1) Yn cynnwys arlwyo a gwestai

4.49. Fodd bynnag, mae gan y ddwy dref gysylltiadau parhaus gyda'u cyffiniau amaethyddol. Mae'r Bala yn parchu hen draddodiadau amaethyddol a chanddi gwmni amaethyddol cydweithredol a sawl siop nwyddau. Yn Nhregaron mae'r ffocws amaethyddol yn gryf iawn o hyd – mae 64% o'r holl fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW a 70% yn ei haneddiadau cyfagos yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Yn wir, er bod Tregaron yn datblygu sector celf a chrefft, ceir ffocws hefyd ar ychwanegu gwerth i gynnyrch fferm a diwydiannau eraill sy'n gysylltiedig â bwyd (Astudiaeth Achos 20) sydd wedi'u lleoli ar ystad ddiwydiannol fach Tregaron. Mae nifer o grwpiau fferm cydweithredol yn datblygu yn yr ardal a chynhelir ymchwil i brosesu bwyd yn Horeb. Yn y Bala, o'i gymharu â hyn, mae maint mwy y dref ynghyd â'i sail economaidd ehangach yn golygu mai dim ond 7% o'r busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW sydd ym maes amaethyddiaeth, tra bod ffigwr cyfatebol ar gyfer ei haneddiadau cysylltiedig o 70%.

4.50. **Cymudo:** Nid oes unrhyw ystadegau cyfredol ar gael ar gymudo. Cadarnhaodd y gweithdai fod y ddwy gymuned yn tueddu i ddibynnu'n helaeth ar eu hadnoddau eu hunain, er bod rhywfaint o gymudo erbyn hyn o Dregaron i Aberaeron ac Aberystwyth (i Gyngor Sir Ceredigion) ac i Lanbedr Pont Steffan, ac o'r Bala i Ddolgellau a Wrecsam yn sgîl adleoli swyddfeydd o'r Bala i'r trefi mwy hyn.

4.51. Yn nhermau dull trafnidiaeth, yn ôl Cyfrifiad 1991, roedd 60% o'r gweithlu yn y Bala yn teithio i'r gwaith yn y car o'i gymharu â 44% yn Nhregaron. Ond mae'n werth

nodi bod 32% yn y Bala a 14% yn Nhregaron yn cerdded i'r gwaith. Roedd 31% o'r gweithlu yn Nhregaron yn gweithio o gartref.

4.52. **Twristiaeth:** Mae gan y Bala a Thregaron sail dwristiaeth gref. Un o'r rhesymau dros hyn yn y Bala yw ei lleoliad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ar lannau Llyn Tegid – y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru. Mae'r ganolfan rafftio d□r gwyn genedlaethol ar Afon Tryweryn wedi'i lleoli yno (Astudiaeth Achos 19), cyfleusterau chwaraeon d□r mawr ar Lyn Tegid a Rheilffordd Llyn y Bala (17,473 o ymwelwyr yn 2000). Mae Gwersyll yr Urdd Glan-llyn hefyd wedi'i leoli ar lannau Llyn Tegid – canolfan gweithgareddau awyr agored a maes sy'n cyflogi tua 30 o bobl. Mae gwesty yn y Bala, yn ogystal â nifer o westai bach a llety gwely a brecwast a thri safle carafannau/gwersylla, gydag amrywiaeth sylweddol o lety yn yr aneddiadau cyfagos. Mae'r Bwrdd Croeso wedi canolbwyntio ar y Bala fel ardal o dwf ym maes twristiaeth, gyda phwyslais cryf ar dwristiaeth ddiwylliannol. Gan adeiladu ar hanes y dref fel y lleoliad cyntaf ar gyfer treialon cŵn defaid ym 1860, cynhelir treialon cŵn defaid cyntaf y byd yno. Ceir pwyslais hefyd ar ddatblygu twristiaeth werdd – mae cynlluniau yn yr arfaeth ar gyfer llwybr i feiciau ar ymyl y llyn a fydd yn cysylltu â rhwydwaith beiciau cenedlaethol Sustrans.

4.53. Ar y llaw arall, gwelwyd gostyngiad ym maes twristiaeth draddodiadol yn Nhregaron – a oedd unwaith yn ganolbwynt i'r prif ganolfannau twristiaeth ar hyd yr arfordir. Mae hanes o rasio harnais yn y dref a chwarter canrif yn ôl Tregaron oedd y brif ganolfan ferlota yn Ewrop. Heddiw mae twristiaeth yn cynrychioli elfen fach ond bwysig iawn o'r economi leol gyda thwf o'r newydd ym maes twristiaeth gweithgareddau a digwyddiadau, gan gynnwys pysgota, parhad o'r traddodiad o ddigwyddiadau rasio harnais (a ddarlledir yn y rhaglen 'Rasus' ar S4C), a chysylltiadau diwylliannol/crefyddol, tra bod gweithgareddau merlota yn amlwg yno o hyd, er nad i'r fath raddau. Mae Canolfan Aur Rhiannon (gydag arbenigwraig aur yn gwneud gemwaith ar y safle) hefyd yn ehangu gydag ystafell de.

4.54. Ar yr un pryd, mae Tregaron yn ganolfan bwysig ar gyfer cerdded a hanes naturiol. Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Canon – cors enfawr ar lannau Afon Teifi – wedi'i lleoli i'r dwyrain o Dregaron, tra bod y dref hefyd yn ganolbwynt i arch o ganolfannau bwydo ar gyfer y barcud (gydag un ganolfan fwydo yn Nhregaron), sy'n ymestyn o Lyn Clywedog yn y gogledd i Lyn Llech Owain yn y de, a gaiff eu rhedeg gan *Gwlad y Barcud* gyda nawdd o dan yr EAGGF.

## NODWEDDION ERAILL A DDAW I'R AMLWG SY'N BERTHNASOL I'R TREFI MARCHNAD

4.55. Yn seiliedig ar y setiau data a gasglwyd, mae'r nodweddion eraill a ddaw i'r amlwg mewn perthynas â'r trefi marchnad fel a ganlyn:

- Yn ôl Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru, dim ond Rhydaman (Pantyffynnon) sydd o fewn y 10% o'r ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru, gyda Thregaron o fewn yr 20% gwaethaf o ran tai a mynediad i wasanaethau. Yn ogystal, dengys y data lefelau cymharol uwch o amddifadedd iechyd yn yr aneddiadau lled drefol o'u cymharu ag ardaloedd eraill o fewn yr astudiaeth.

- Yn ôl Cofnodion y Gofrestrfa Tir (2001), eiddo ar wahân mewn ardaloedd gwledig hygyrch sy'n gwerthu am y prisiau uchaf, wedi'u dilyn gan ardaloedd gwledig anghysbell. Ceir yr eiddo ar wahân rhataf mewn ardaloedd lled drefol. Er bod y data ar gyfer eiddo semi ac eiddo teras yn gyfyngedig, ymddengys fod y patrwm yr un peth ag ar gyfer eiddo ar wahân.

## NODWEDDION YR ANEDDIADAU YNG NGHYFFINIAU'R TREFI MARCHNAD

4.56. Hyd yn hyn mae'r disgrifiad wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar y trefi marchnad. O'r un setiau data mae'r nodweddion a ddaw i'r amlwg am yr aneddiadau cyfagos enghreifftiol fel a ganlyn:

- Fel y nodir yn **Nhabl 4.15** isod, mae gan yr aneddiadau gwledig cyfagos lefelau cyson uwch o unedau busnes bach yn cyflogi 1-4 o bobl, o'u cymharu â'r trefi marchnad. Fodd bynnag, gellir nodi bod gan yr aneddiadau cyfagos yn yr ardaloedd lled drefol nifer o gyflogwyr mawr, sy'n adlewyrchu'r broses o ddyrannu tir i'w ddatblygu gerllaw coridorau mynediad pwysig, fel Parc Busnes Llanelwy ac fel y dyraniadau tir mawr yn ardal Capel Hendre. Er enghraifft, mae 31% o'r cyflogeion yn aneddiadau cyfagos Rhydaman ac 17% yn aneddiadau cyfagos Llanelwy yn gweithio mewn busnesau sy'n cyflogi dros 100 o bobl.

**Tabl 4.15: Cymhariaeth o ran nifer yr unedau bach rhwng y trefi marchnad a'u haneddiadau cyfagos**

| **Ardal** | **% yr unedau sy'n cyflogi 1–4 o bobl** | | **% y cyflogeion mewn unedau sy'n cyflogi 1–4 o bobl** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Tref farchnad** | **Aneddiadau cyfagos** | **Tref farchnad** | **Aneddiadau cyfagos** |
| Llanelwy | 62% | 66% | 10% | 17% |
| Rhuthun | 59% | 86% | 14% | 34% |
| Y Bala | 66% | 81% | 22% | 40% |
| Rhydaman | 59% | 74% | 8% | 23% |
| Llandeilo | 63% | 82% | 24% | 37% |
| Tregaron | 69% | 85% | 21% | 39% |

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol (2000)

- Fel y gellid disgwyl, yn gyffredinol mae gan yr aneddiadau gwledig cyfagos niferoedd llawer uwch o fusnesau amaethyddol na'u trefi marchnad cysylltiedig, fel y nodir yn **Nhabl 4.16**.

**Tabl 4.16: Cymhariaeth o ran % y busnesau amaethyddol rhwng y trefi marchnad a'u haneddiadau cyfagos**

| **Ardal** | **% y busnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW ym maes amaethyddiaeth** | |
|---|---|---|
| | Tref farchnad | Aneddiadau cyfagos |
| Llanelwy | 10% | 56% |
| Rhuthun | 7% | 53% |
| Y Bala | 7% | 70% |
| Rhydaman | 0% | 8% |
| Llandeilo | 13% | 66% |
| Tregaron | 64% | 70% |

Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynyddol (2000)

- Yn sector y de ceir patrwm cyson lle ceir cyflogaeth uwch o ran merched na dynion yn y trefi marchnad (gan amrywio rhwng 54% (Rhydaman) a 70% (Tregaron)) tra y cyflogir cyfran gyson uwch o ddynion yn yr aneddiadau gwledig cyfagos (51% - 56%)[16]. Ar y llaw arall, yn sector y gogledd mae gweithlu'r trefi marchnad a'r aneddiadau cyfagos fel ei gilydd yn cynnwys cyfran uwch o ddynion na merched (cyfartaledd o 53% o ddynion). Yr un eithriad yw'r aneddiadau gwledig yng nghyffiniau'r Bala lle ceir mwy o ferched (52%) na dynion yn y gweithlu.

- Mae'r patrwm uchod hefyd i'w weld yn y dosbarthiad rhwng gweithio llawn amser a rhan amser gyda chyflogaeth i ferched yn gyson gysylltiedig â lefelau uwch o weithio rhan amser.

- Fel y codwyd eisoes, mae swm yr allgymudo i ennill cyflogaeth yn fwy o'r aneddiadau cyfagos nag o'r trefi marchnad (**Tabl 4.17**). Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 1991 ac felly nid yw'n gyfredol o bell ffordd. Hefyd, mae nifer y bobl sy'n cerdded i'r gwaith yn sylweddol uwch yn y trefi marchnad o'u cymharu â'r aneddiadau cyfagos. I'r gwrthwyneb, mae nifer y bobl sy'n gweithio gartref yn sylweddol uwch yn yr aneddiadau cyfagos ac eithrio Tregaron lle ceir lefel uchel iawn o weithio gartref (31%).

**Tabl 4.17: Patrymau teithio i'r gwaith**

| Aneddiadau | % y gweithwyr sy'n allgymudo (I) | % sy'n teithio i'r gwaith yn y car | % sy'n cerdded i'r gwaith | % sy'n gweithio o gartref |
|---|---|---|---|---|
| Tref farchnad Llanelwy | 27% | 67% | 12% | 7% |
| Aneddiadau cyfagos Llanelwy | 42% | 66% | 2% | 26% |
| Tref farchnad Rhuthun | 19% | 68% | 23% | 4% |
| Aneddiadau cyfagos Rhuthun | 18% | 65% | 8% | 21% |
| Tref farchnad y Bala | 8% | 58% | 32% | 1% |
| Aneddiadau cyfagos y Bala | 21% | 55% | 4% | 35% |
| Tref farchnad Rhydaman | 31% | 66% | 17% | 8% |
| Aneddiadau cyfagos Rhydaman | 36% | 73% | 5% | 12% |
| Tref farchnad Llandeilo | - | - | - | - |
| Aneddiadau cyfagos Llandeilo | 26% | 49% | 16% | 24% |
| Tref farchnad Tregaron | 0% | 45% | 14% | 31% |
| Aneddiadau cyfagos Tregaron | 3% | 61% | 4% | 23% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 1991 NOMIS

(i) hy yn gweithio y tu allan i'w hardal breswylio arferol

[16] Yn seiliedig ar yr Ymchwiliad Busnes Blynyddol

## Crynodeb

### *Trefi marchnad*:

- Mae pob tref farchnad yn wahanol ac yn gynnyrch eu hanes, eu lleoliad, eu hygyrchedd, eu maint a'u diwylliant. Mae ystyried trefi marchnad yn nhermau lleoliadau lled drefol, gwledig hygyrch a gwledig anghysbell yn ddefnyddiol ond ynddo'i hun nid yw'n diffinio pam y mae gan drefi marchnad unigol gymeriad penodol.

- Ac eithrio Llanelwy (lled drefol) mae gan yr holl drefi marchnad a astudiwyd boblogaeth gydag o leiaf 50% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r ffigur hwn yn cynyddu i dros 90% yn y trefi marchnad gwledig anghysbell.

  - Mae pob un o'r trefi marchnad a astudiwyd yn parhau i ddarparu canolfan addysgol i'w cyffiniau, a phob un ohonynt yn lleoliad i ysgolion cynradd ac uwchradd. Maent oll hefyd yn darparu gwasanaethau iechyd, gyda phedwar o'r chwe anheddiad yn lleoliad i ryw ffurf o gyfleuster ysbyty.

  - Mae lleoliad yr archfarchnadoedd mawr a hygyrchedd yn ddylanwad cryf ar weithgaredd manwerthu, gydag aneddiadau mwy anghysbell yn fwy hunan-gynhaliol o hyd o ran amrywiaeth (er nad o reidrwydd nifer) yr allfeydd a gynigir. O blith y trefi enghreifftiol, dim ond Rhydaman oedd yn gweithredu fel canolfan gwasanaeth is-ranbarthol gydag archfarchnad fawr y tu allan i'r dref.

  - Mae'r ddwy dref farchnad wledig hygyrch (Rhuthun a Llandeilo) yn datblygu'n gynyddol ym maes manwerthu arbenigol.

  - Un o nodweddion trefi marchnad lled drefol yw nifer o gyflogwyr mawr, gyda thua 50% o'r gweithlu yn gweithio i fusnesau sy'n cyflogi dros 100 o bobl. Gan symud o drefi lled drefol i ardaloedd gwledig anghysbell y duedd yw i faint y busnesau leihau, er ei bod yn amlwg bod gan y Bala (gwledig anghysbell) nifer o fusnesau arwyddocaol sy'n cyflogi dros 100 o bobl.

  - O ganlyniad i'r uchod, gan symud o'r trefi lled drefol i'r trefi gwledig anghysbell, ceir cynnydd yn nifer y busnesau bach fel cyfran o gyfanswm y busnesau, gyda thua 60% o'r busnesau yn Llanelwy a Rhydaman (lled drefol) yn cyflogi llai na phump o bobl, gan gynyddu i 69% yn Nhregaron (gwledig anghysbell).

  - Wrth adolygu'r sylwadau a wnaed yn y gweithdai, mewn cyfarfodydd dilynol ac wrth adolygu'r astudiaethau achos, awgrymir mai mewnfuddsoddi sy'n denu llawer o'r busnesau i'r aneddiadau lled drefol, lle mae hygyrchedd uchel ac argaeledd tir datblygu yn allweddol, tra ceir mwy o ddibyniaeth ar dwf busnesau cynhenid yn yr aneddiadau eraill.

  - Fel yr adlewyrchir mewn ystadegau cenedlaethol (para 2.3), y pedair ffurf fwyaf cyffredin ar gyflogaeth yn y trefi marchnad, yn nhrefn pwysigrwydd yw: gweinyddiaeth gyhoeddus, dosbarthu a manwerthu, gwasanaethau ariannol a gweithgynhyrchu. Mae hyn yn pwysleisio pwyslais gwasanaeth cryf y trefi marchnad.

- Ac eithrio'r Bala, lle ceir sail gweithgynhyrchu cryf, ceir cynnydd amlwg yng nghyfran y gyflogaeth yn y sector gwasanaethau, gan symud o'r ardaloedd lled drefol i'r trefi marchnad gwledig anghysbell, gyda chyflogaeth yn y sector gwasanaethau ym mharth y de fel a ganlyn: Rhydaman 52%, Llandeilo 89%, a Thregaron 94%.

- Ym mhob un o'r trefi marchnad a astudiwyd, ac eithrio Tregaron, erbyn hyn mae llai na 10% o'r busnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Yn achos Tregaron, 64% yw'r ffigur, sy'n amlygu cysylltiadau amaethyddol cryf y dref. Serch hynny, mae gan bob un o'r trefi marchnad, ac eithrio Rhydaman a oedd yn anheddiad glofaol yn wreiddiol, sail gwasanaeth amaethyddol sydd hefyd wedi dylanwadu ar natur datblygiadau gweithgynhyrchu (fel yn Rhuthun).

- Mae'r data teithio i'r gwaith bellach yn hen iawn, ond yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 1991, noda fod swm cynyddol lai o allgymudo wrth symud o ardaloedd lled drefol i ardaloedd gwledig anghysbell. Er ein bod yn amau bod y duedd gyffredinol hon yn gywir, rydym o'r farn bod ffigurau'r Cyfrifiad yn tangynrychioli'r lefelau cymudo cyfredol yn sylweddol yn arbennig o ardaloedd gwledig hygyrch.

***Aneddiadau cyfagos***

- Mae gan aneddiadau gwledig cyfagos lefelau cyson uwch o unedau busnes bach o'u cymharu â'r trefi marchnad. OND mae gan yr aneddiadau yng nghyffiniau'r trefi lled drefol nifer sylweddol o gyflogwyr mawr, gan adlewyrchu'r dyraniadau tir mawr ar gyfer datblygu gerllaw coridorau mynediad.

- Yn gyffredinol mae gan yr aneddiadau gwledig cyfagos lefelau uwch o gyflogaeth i ddynion o'u cymharu â'r trefi marchnad, lle mae cyflogaeth i ferched yn fwy amlwg gan adlewyrchu'r pwyslais ar ddarparu gwasanaethau.

- Yn ôl Cyfrifiad 1991, mae swm yr allgymudo i'r gwaith yn uwch o'r aneddiadau cyfagos nag o'r trefi marchnad.

# 5. ADOLYGU CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1. Mae'r Bennod hon yn adolygu'r broses a ddilynir wrth wneud a phenderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu economaidd. Wedyn canolbwyntia ar natur a chanlyniadau ceisiadau cynllunio o'r fath ar draws yr aneddiadau enghreifftiol yn yr astudiaeth hon.

## Y BROSES AR GYFER CEISIADAU CYNLLUNIO

5.2. Mae'r broses gyffredinol a fabwysiedir gan ymgeiswyr wrth wneud cais cynllunio a'r dull ar gyfer ymdrin â hwy gan yr awdurdod cynllunio yn debyg iawn i'r rheini a nodwyd ar gyfer arallgyfeirio ar ffermydd yn *Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio,* 2001 ac felly ni chânt eu hailadrodd yn fanwl yma. Ceir crynodeb o'r pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg o'n trafodaethau gyda swyddogion rheoli datblygu, o'r holiaduron drwy'r post a ddychwelwyd gan ymgeiswyr (24 o holiaduron), ac o'r astudiaethau achos (20) isod.

5.3. **Cyngor cyn gwneud cais**: Mae swyddogion rheoli datblygu yn ceisio neilltuo amser i roi cyngor cyn gwneud cais, naill ai drwy gyfarfod ar y safle neu drwy ohebiaeth ebost. Mae swyddogion o'r farn ei bod yn werthfawr rhoi cyngor ar gam cynnar – gan oresgyn unrhyw broblemau a allai ddod i'r amlwg ar gam diweddarach fel arall. Gall swyddogion hefyd roi cyngor i ymgeiswyr o ran pa un a yw eu cais yn debygol o lwyddo. Nodwyd yn aml nad yw ymgeiswyr mewn ardaloedd gwledig yn gyfarwydd â'r system gynllunio. Yn aml bydd ymgeiswyr yn cysylltu â'u cynghorydd lleol ac yn gofyn iddynt hwy gysylltu â'r awdurdod cynllunio.

5.4. Roedd ychydig dros hanner yr astudiaethau achos a 65% o'r ymgeiswyr a gwblhaodd holiaduron wedi gofyn am gyngor cyn gwneud cais, yn bennaf gan yr adran gynllunio ond mewn rhai achosion gan y swyddog priffyrdd. Fel arfer darparwyd y cyngor hwn drwy gyfrwng llythyr neu gyfarfod ar y safle. Yng Ngheredigion cesglir yr holl gyngor a roddir ar GIS er mwyn gallu cyfeirio ato'n hawdd.

5.5. Ym mwyafrif yr achosion, roedd yr ymgeiswyr o'r farn bod y cyngor cyn gwneud cais yn ddefnyddiol, er i rai nodi y byddai o fudd petai mwy o swyddogion ar gael i roi'r cyngor hwn. Mewn un neu ddau o achosion, teimlodd yr ymgeiswyr (y gwrthodwyd eu cais wedi hynny) iddynt gael eu camarwain o ran pa mor debygol y byddai eu cais o gael ei gymeradwyo.

*"Teimlais fod yr awdurdod cynllunio wedi fy siomi. Cyn gwneud cais gofynnais i'r swyddog cynllunio a oedd yna unrhyw reswm pam na ddylwn gyflwyno cais a dywedodd yntau nad oedd unrhyw reswm. Wedyn, ar ôl i mi fynd i gost sylweddol, gwrthodwyd fy nghais ganddynt gan ddweud ei bod yn bolisi ganddynt beidio â derbyn cais o'r fath ar y Stryd Fawr".* (Perchennog siop fetio).

5.6. **Cyfrifoldeb dros geisiadau:** Roedd tua 50% o'r astudiaethau achos a'r bobl a ymatebodd i'r holiaduron wedi defnyddio asiant i gyflwyno eu cais cynllunio – fel arfer y ceisiadau mwy neu lle roedd angen cynnwys pensaer. Ymhlith yr ymgeiswyr hyn, nid oedd cyngor cyn gwneud cais mor gyffredin.

5.7. **Trafodaethau ar ôl gwneud cais:** Lle bo angen addasu agweddau ar y cynnig, noda'r astudiaethau achos mai'r drefn arferol yw i'r awdurdod cynllunio drafod gyda'r ymgeisydd, a'r farn gyffredinol yw fod y broses hon yn ddefnyddiol.

5.8. **Y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer gwneud penderfyniad ar gais:** Mae'r meini prawf a ddefnyddir ar gyfer gwneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu economaidd gan swyddogion rheoli datblygu yn gyffredinol yn seiliedig ar ddogfennau polisi cynllunio cyfredol a dogfennau arweiniad (gan gynnwys nodiadau ymgynghorol technegol) a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a pholisïau'r cynllun datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad penodol ar raddfa, dylunio, mynediad, amwynder, effaith ar briffyrdd, ac effeithiau ar y tirlun, bioamrywiaeth ac etifeddiaeth ddiwylliannol, yn ogystal â sŵn a niwsans arall. Wrth wraidd y meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau roedd dau faen prawf allweddol: realaeth/bwriad wirioneddol ac amgylchedd/amwynder.

5.9. Nododd y trafodaethau gyda swyddogion rheoli datblygu fod y graddau o **hyblygrwydd** wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau yn gwahaniaethu o swyddog i swyddog. Teimlai rhai fod hyblygrwydd wrth ddehongli'r cynllun datblygu, teimlai eraill fod y penderfyniad yn dibynnu i raddau helaeth ar ymatebion yr ymgynghoriad, tra teimlai eraill y gellid mesur graddau'r hyblygrwydd o Adran 54a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gan gyfeirio at ystyriaethau perthnasol. Roedd ymgeiswyr o'r farn, yn yr holiaduron a ddychwelwyd ac yn yr astudiaethau achos, nad oedd y system gynllunio yn ddigon hyblyg.

5.10. **Defnyddio pwerau dirprwyedig:** Yn ôl y cyfweliadau gyda'r swyddogion, caiff 50% - 80% o geisiadau datblygu economaidd eu dirprwyo i swyddogion. O'r gronfa ddata ceisiadau cynllunio a ddatblygwyd fel rhan o'r astudiaeth hon (gweler para 1.18 (6)), ymddengys yn ystod y tair blynedd diwethaf o fewn yr aneddiadau enghreifftiol y cyfeiriwyd 56% o'r ceisiadau datblygu economaidd i'r Pwyllgor wneud penderfyniad arnynt.

5.11. Yn gyffredinol y ceisiadau mwy a gyfeirir i'r Pwyllgor. Un eithriad yw Parc Cenedlaethol Eryri lle cyfeirir pob cais at y Pwyllgor. Yn gyffredinol teimlai'r swyddogion y cyfwelwyd â hwy fod cydberthynas waith dda wedi datblygu rhwng aelodau a swyddogion, er bod yr aelodau yn tueddu i fod yn fwy cydymdeimladol tuag at ddatblygu economaidd na'r swyddogion. Mae Cyngor Sir Dinbych yn trefnu gweithdai hyfforddi i swyddogion ac aelodau i helpu i wella'r cydberthnasau gwaith a lefel y ddealltwriaeth mewn perthynas â'r system gynllunio.

5.12. **Gorfodi a cheisiadau retrospectif:** Fel arfer dim ond ar ddatblygiadau lle ceir mater amwynder amlwg y cymerir camau gorfodi – yn yr achosion hyn bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd wneud cais retrospectif. Cyfeirir pob cais retrospectif i'r Pwyllgor.

5.13. **Dealltwriaeth o'r system gynllunio gan ymgeiswyr:** Mae gan swyddogion cynllunio safbwyntiau cymysg am lefel dealltwriaeth y cyhoedd o'r system gynllunio. Teimlai Cyngor Sir Dinbych fod gan y rhan fwyaf o bobl wledig ddealltwriaeth gymharol dda o'r system gynllunio, gyda chymorth arweiniad cyhoeddedig. Fodd bynnag, teimlai Parc Cenedlaethol Eryri mai prin iawn oedd y bobl a oedd yn meddu

ar ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r broses gynllunio a bod cyhoeddi'r Papur Gwyrdd wedi drysu lefel eu dealltwriaeth ymhellach.

5.14. **Dealltwriaeth o'r economi wledig gan gynllunwyr**: Teimlai'r rhan fwyaf o'r swyddogion rheoli datblygu mai gwael oedd lefel eu dealltwriaeth o'r economi wledig, yn arbennig mewn perthynas â materion ffermio, er bod ganddynt wybodaeth well am fentrau twristiaeth.

5.15. **Barn ymgeiswyr o'r system gynllunio:** Fel rhan o'r arolwg a gynhaliwyd gan ddefnyddio holiaduron gofynnwyd am farn ymgeiswyr o'r system gynllunio. Nododd y rhan fwyaf ohonynt brofiad cadarnhaol neu niwtral, gan nodi fod y system yn ymddangos yn effeithlon ac yn deg (er nad oedd yn arbennig o hyblyg). Yn unol â hyn ni nododd y rhan fwyaf ohonynt unrhyw broblemau.

*"Roedd y swyddogion cynllunio yn barod iawn eu cymwynas ac yn barod i drafod y datblygiad"* (Coleg Addysg Bellach)

5.16. Y brif feirniadaeth oedd cyflymder y broses. Drwy ddadansoddi'r gronfa ddata o geisiadau cynllunio a gronnwyd yn ystod yr astudiaeth hon, roedd cyflymder y broses o wneud penderfyniadau fel a ganlyn:

- Penderfyniad o fewn 8 wythnos (84) 43% o'r ceisiadau
- Penderfyniad o fewn 8 – 13 wythnos (70) 36%
- Penderfyniad o fewn 13 – 26 wythnos (30) 15%
- Penderfyniad mewn dros 26 wythnos (11) 6%

5.17. Felly cymerodd 57% o'r ceisiadau dros wyth wythnos i'w penderfynu, gyda 6% yn cymryd dros chwe mis. Cyflymder y broses o wneud penderfyniadau oedd un o brif bryderon yr ymgeiswyr yn yr astudiaethau achos, gan gael ei nodi'n glir mewn naw allan o'r 20 o achosion a archwiliwyd, gyda phryder am:

- y posibilrwydd o golli incwm (yn arbennig ar gyfer gweithrediadau twristiaeth, lle y gallai colli tymor gael effaith andwyol iawn);
- anallu i fodloni archebion a chontractau presennol;
- talu rhent/morgais/benthyciadau banc heb unrhyw incwm i'w cydbwyso – problem benodol i fusnesau bach;
- colli dyddiadau gwneud cais am grant a allai wedyn ohirio cynigion am gyfnod sylweddol.

*"Mae'n bwysig i'r awdurdod cynllunio ddeall pwysigrwydd amser i gwmni sefydledig. Roedd mor bwysig i ni na ohiriwyd y mater mewn cyfarfod cynllunio neu byddai'r project cyfan wedi bod mewn perygl."*

## ADOLYGU CEISIADAU A PHENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

5.18. Fel rhan o'r astudiaeth hon, nodwyd a dadansoddwyd pob cais cynllunio ar gyfer datblygu economaidd a wnaed yn ystod y tair blynedd o fis Mai 1998 – Mai 2001,

mewn perthynas â'r aneddiadau enghreifftiol a nodwyd fel yr amlinellir isod (ceir dadansoddiad llawn o'r data hwn fel Atodiad ar wahân).

5.19. Dadansoddwyd y ceisiadau cynllunio hyn yn ôl:

A) **Y *math o ddatblygiad*** wedi'i ddadansoddi i:

| | |
|---|---|
| • Adeilad newydd<br>• Estyniad<br>• Addasu adeilad presennol<br>• Newid defnydd adeilad | • Newid defnydd tir<br>• Arwyddion<br>• Arall |

B) **Y *math o weithgaredd arallgyfeirio*** wedi'i ddadansoddi i adlewyrchu gweithgareddau datblygu economaidd traddodiadol a gweithgareddau newydd (fel TGCh) ac wedi'i osod yng nghyd-destun dosbarthiadau defnydd presennol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| • Siopau<br>• Cyfanwerthu<br>• Cyllid a gwasanaethau proffesiynol<br>• Asiantau gwerthu tai<br>• Tafarnau ac arlwyo arall<br>• Swyddfeydd (nid A2)<br>• Gweinyddiaeth gyhoeddus<br>• Ymchwil a datblygiad<br>• Amlgyfrwng TG<br>• Biodechnoleg<br>• Diwydiannol ysgafn<br>• Gweithdai<br>• Diwydiant trwm<br>• Adeiladu<br>• Ynni<br>• Ailgylchu | • Gwaredu gwastraff<br>• Prosesu bwyd/cynnyrch amgylcheddol<br>• Storio a dosbarthu<br>• Gwestai a gwestai bach<br>• Ysbytai<br>• Cartrefi gofal<br>• Colegau preswyl<br>• Canolfannau gofal dydd a gofal iechyd<br>• Ysgolion<br>• Llyfrgelloedd a gwasanaethau cyhoeddus<br>• Hamdden ac ymarfer corff<br>• Sinemâu a neuaddau dawns<br>• Twristiaeth arall<br>• Ceffylau<br>• Arall |

### Nifer y ceisiadau a'u math

5.20. Yn ystod y cyfnod o dair blynedd, cyflwynwyd cyfanswm o 199 o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu economaidd ar draws yr holl aneddiadau enghreifftiol, gydag 118 (60%) o'r ceisiadau yn ymwneud â'r chwe thref farchnad, ac 80 (40%) yn ymwneud â'r aneddiadau cyfagos eraill.

5.21. Fel y nodir yn **Nhabl 5.1**, os ystyrir ceisiadau cynllunio fel dangosydd o ran hyfywdra economaidd, wedyn mae rhai ardaloedd gwledig anghysbell yn arallgyfeirio ac yn datblygu ar gyfradd gynt nag ardaloedd lled drefol (er bod angen cofio nad yw *nifer* y ceisiadau cynllunio yn rhoi unrhyw ystyriaeth i *raddfa* datblygiadau unigol - fel y nodwyd yn y Bennod ddiwethaf mae cyfran llawer uwch o ficro-fusnesau yn debygol o fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell).

**Tabl 5:1: Nifer y ceisiadau cynllunio yn ôl anheddiad (cyfansymiau tair blynedd)**

| Math o ardal | Math o anheddiad | Sector y Gogledd | | Sector y De | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Anheddiad | Cyfanswm nifer y ceisiadau | Anheddiad | Cyfanswm nifer y cesisiadau |
| Lled Drefol | Tref Farchnad | Llanelwy | 15 | Rhydaman | 23 |
| | Anheddiad Mawr | Rhuallt | 5 | Capel Hendre | 18 |
| | | Trefnant | 9 | Llandybie | 13 |
| | Anheddiad Bach | Bont-newydd | 0 | Pantyffynnon | 7 |
| | | Groesffordd Marli | 1 | Milo | 2 |
| Gwledig Hygyrch | Tref Farchnad | Rhuthun | 36 | Llandeilo | 15 |
| | Anheddiad Mawr | Cyffylliog | 1 | Cwmifor | 2 |
| | | Pwll Glas | 2 | Talyllychau | 0 |
| | Anheddiad Bach | Melin-y-wig | 0 | Trapp | 0 |
| | | Pentre-celyn | 1 | Derwen Fawr | 5 |
| Gwledig Anghysbell | Tref Farchnad | Y Bala | 22 | Tregaron | 7 |
| | Anheddiad Mawr | Cerrigydrudion | 0 | Llangeitho | 0 |
| | | Llanuwchllyn | 6 | Pontrhydfendigaid | 0 |
| | Anheddiad Bach | Llandderfel | 2 | Blaenpennal | 1 |
| | | Frongoch | 4 | Cwmystwyth | 1 |
| Cyfanswm | | | **104** | | **94** |

5.22. Amlygir y gwahaniaeth o ran cyfraddau ceisiadau economaidd ar draws gwahanol drefi marchnad ymhellach drwy ystyried maint poblogaeth y gwahanol drefi dan sylw. Drwy wneud hyn, gellir nodi mai'r Bala a Llandeilo yw'r trefi â'r gyfran uchaf o geisiadau economaidd y pen o'r boblogaeth:

**Tabl 5.2: Ceisiadau economaidd y pen o'r boblogaeth (trefi marchnad)**

| **Tref farchnad** | **Pen y boblogaeth fesul cais cynllunio economaidd (y flwyddyn)** |
|---|---|
| 1. Y Bala | 1 cais fesul 261 o bobl |
| 2. Llandeilo | 1 cais fesul 327 o bobl |
| 3. Tregaron | 1 cais fesul 402 o bobl |
| 4. Rhuthun | 1 cais fesul 417 o bobl |
| 5. Llanelwy | 1 cais fesul 669 o bobl |
| 6. Rhydaman | 1 cais fesul 1057 o bobl |
| **Cyfartaledd holl geisiadau** Sir Ddinbych | 1 cais fesul 76.5 o bobl |
| **Cyfartaledd holl geisiadau** Sir Gaerfyrddin | 1 cais fesul 64.5 o bobl |

5.23. O ystyried **Tabl 5.1**, mae'r un mor amlwg i'r aneddiadau cyfagos mewn ardaloedd lled drefol dderbyn cymaint, os nad mwy, o geisiadau ar gyfer datblygu economaidd na'u tref farchnad leol. Er enghraifft, yn Llanelwy, derbyniwyd 15 o geisiadau ar gyfer datblygu economaidd tra y derbyniwyd 15 o geisiadau hefyd yn yr aneddiadau cyfagos

(gan gynnwys ceisiadau a oedd yn ymwneud â Pharc Busnes Llanelwy y mae ei hanner wedi'i leoli yn Ward Groesffordd Marli). Yn Rhydaman mae'r sefyllfa yn fwy amlwg byth, gyda'r aneddiadau cyfagos yn derbyn 40 o geisiadau o'u cymharu â'r 30 ar gyfer y dref ei hun. Mae hyn yn amlwg yn tanlinellu'r patrwm a nodwyd yn y Bennod flaenorol, lle mae dyraniadau mawr ar gyfer datblygu economaidd mewn amrywiaeth o aneddiadau sy'n agos i'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol yn cymhlethu'r gwahaniaethau yn yr hierarchaeth aneddiadau. Eto, amlygir y patrymau hyn ymhellach drwy ystyried maint y boblogaeth (**Tabl 5.3)** sy'n dangos y gyfran lawer uwch o ddatblygu economaidd yn yr aneddiadau cyfagos**.**

**Tabl 5.3: Ceisiadau economaidd y pen o'r boblogaeth (aneddiadau cyfagos)**

| **Anheddiad (lled drefol)** | **Pen y boblogaeth fesul cais cynllunio economaidd/flwyddyn** | **Anheddiad (lled drefol)** | **Pen y boblogaeth fesul cais cynllunio economaidd/flwyddyn** |
|---|---|---|---|
| **Llanelwy** | 1 cais / 669 o bobl | **Rhydaman** | 1 cais/1057 o bobl |
| Rhuallt | 1 cais / 182 o bobl | Capel Hendre | 1 cais /167 o bobl |
| Trefnant | 1 cais / 447 o bobl | Llandybie | 1 cais / 669 o bobl |
| Groesffordd Marli | 1 cais / 573 o bobl | Milo | 1 cais / 150 o bobl |

5.24. **Datblygu ar ystadau diwydiannol:** Mae'r ffigurau uchod yn amlygu'r ffaith bod dyraniadau tir mawr ar gyfer datblygu diwydiannol (mewn lleoliadau hygyrch) yn ffactor allweddol wrth annog twf economaidd. Felly gwnaed dadansoddiad er mwyn nodi'r holl geisiadau cynllunio o fewn y gronfa ddata lle roedd cyswllt amlwg gydag ystad ddiwydiannol/parc busnes. Mae'r canlyniadau, y ceir crynodeb ohonynt yn **Nhabl 5.4,** yn atgyfnerthu pwysigrwydd ystadau diwydiannol, yn arbennig mewn arch yng nghyffiniau Rhydaman, wrth ddarparu cyflogaeth. Maent hefyd yn dangos y rôl sydd gan yr ystadau diwydiannol yn y Bala a Rhuthun i'w chwarae wrth ddatblygu busnesau. Mae fwy neu lai yr holl geisiadau hyn ar ystadau diwydiannol yn ymwneud ag ehangu, newid defnydd, neu adeiladu unedau diwydiannol newydd. Ond mae'r data hefyd yn nodi'r gweithgaredd economaidd sylweddol sy'n mynd rhagddo mewn lleoliadau y tu hwnt i'r ystadau hyn.

**Tabl 5.4: Ceisiadau economaidd sy'n ymwneud ag ystadau diwydiannol**

| **Anheddiad** | **Nifer o geisiadau ar ystadau diwydiannol** |
|---|---|
| **Rhydaman** | 3 (13%) |
| Capel Hendre | 18 (22%) |
| Llandybie | 3 (23%) |
| Pantyffynnon | 2 (28.6%) |
| **Llanelwy** | - |
| Groesffordd Marli (Parc Busnes Llanelwy) | 1 (100%) |
| **Rhuthun** | 3 (36%) |
| **Y Bala** | 5 (22%) |

5.25. **Math o ddatblygiad:** Yn nhermau'r math o ddatblygiad, y mwyaf cyffredin oedd newid defnydd adeilad sy'n bodoli eisoes (30%); wedi'i ddilyn gan adeilad newydd (20%); ymestyn adeiladau (17%); arwyddion (11%); newid defnydd tir (10%); ac addasu adeilad (9%).

5.26. **Math o weithgaredd economaidd:** O edrych ar y math o weithgaredd economaidd (**Tabl 5.5**), y ddwy ffurf fwyaf cyffredin o weithgaredd y gwnaed ceisiadau cynllunio ar eu cyfer oedd ar gyfer (i) siopau a (ii) tafarnau/mathau eraill o arlwyo, gan amlinellu swyddogaeth gwasanaethu aneddiadau gwledig. Yn arwyddocaol o bosibl, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer ffurfiau newydd o ddatblygiad y gellid eu hyrwyddo mewn ardaloedd gwledig fel biodechnoleg ac ailgylchu, er y derbyniwyd un cais ar gyfer aml-gyfrwng/TGCh (Llandeilo) a chwe chais am brosesu bwyd a chynnyrch amgylcheddol, gyda dau ohonynt yn y Bala. Efallai ei bod hefyd yn annisgwyl na dderbyniwyd mwy o geisiadau ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus o gofio bod y maes hwn yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn y trefi marchnad.

**Tabl 5.5: Y 15 gweithgaredd datblygu economaidd mwyaf poblogaidd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Siopau | 28 (12%) | • Gweithdai | 10 (4%) |
| • Tafarnau ac arlwyo arall | 27 (12%) | • Gofal dydd a gofal iechyd | 8 (3%) |
| • Diwydiant ysgafn | 19 (8%) | • Gwasanaeth cyhoeddus | 8 (3%) |
| • Twristiaeth (nid llety) | 16 (7%) | • Ysgolion | 7 (3%) |
| • Swyddfeydd (nid A2) | 14 (6%) | • Prosesu bwyd/cynnyrch amgylcheddol | 6 (3%) |
| • Storio a dosbarthu | 12 (5%) | • Cartrefi gofal | 5 (2%) |
| • Gwestai a gwestai bach | 11 (5%) | • Gweinyddiaeth gyhoeddus | 4 (2%) |
| • Cyllid a gwasanaethau proffesiynol | 10 (4%) | | |

5.27. **Gweithgaredd economaidd yn ôl math o ddatblygiad:** O gymharu'r math o weithgaredd economaidd yn ôl y math o ddatblygiad, ni cheir unrhyw batrymau cryf iawn, er bod newid defnydd yn ymwneud yn fwyaf cyffredin â gweithgareddau arlwyo (14), ac arwyddion manwerthu (10), tra bod adeiladau newydd yn ymwneud yn bennaf (yn nhrefn pwysigrwydd) â: diwydiannol ysgafn (9), ysgolion (7), cyfleusterau i dwristiaid (6) a siopau (5).

5.28. **Gweithgaredd economaidd yn ôl y trefi marchnad:** O ddadansoddi'r data hwn yn ôl y math o dref farchnad ee lled drefol neu wledig hygyrch (**Ffig 5.1**), ymddengys mai'r mathau mwyaf cyffredin o geisiadau oedd:

- Lled drefol (trefi marchnad) - Siopau a thafarnau/arlwyo (10% yr un), er bod dosbarthiad cymharol deg ar draws amrywiaeth eang o weithgareddau o fewn yr aneddiadau lled drefol
- Gwledig hygyrch (trefi marchnad) - Siopau (19%)
- Gwledig anghysbell (trefi marchnad) Tafarnau/arlwyo (31%)

5.29. Gan gysylltu'r ffigurau hyn â threfi unigol, unwaith eto amlygir y ffocws gwasanaethu cryf sydd gan bob un o'r trefi marchnad.

**Tabl 5.6: Ceisiadau economaidd o fewn trefi marchnad unigol[1]**

| **Math o dref** | **Nifer y ceisiadau yn ôl y math o weithgaredd economaidd** | |
|---|---|---|
| Lled drefol | **Llanelwy** | **Rhydaman** |
| | Gwestai a gwestai bach (3), Cartrefi gofal (3), Cyllid a gwasanaethau proffesiynol (2), Gweithdai (2) | Siopau (4), Tafarnau ac arlwyo (3), Ysgolion (3), Diwydiant ysgafn (3), Swyddfeydd (2) |

| | | |
|---|---|---|
| Gwledig hygyrch | **Rhuthun** | **Llandeilo** |
| | Siopau (10), Cyllid a gwasanaethau proffesiynol (4), Storio a dosbarthu (4), Cyfanwerthu (3), Swyddfeydd (3), Gweinyddiaeth gyhoeddus (3), Diwydiant ysgafn (3), Gwestai a gwestai bach (3), Gofal iechyd (3), Gwasanaethau cyhoeddus (3), Tafarnau ac arlwyo (2), Gweithdai (2) | Siopau (3), Gweithdai (3), Ysgolion (2). |
| Gwledig anghysbell | **Y Bala** | **Tregaron** |
| | Tafarnau ac arlwyo (7), Siopau (3), Gwestai a gwestai bach (2), Prosesu/Cynnyrch Amgylcheddol (2) | Tafarnau ac arlwyo (4), Siopau (2) |

(1) Noder mai dim ond y gweithgareddau economaidd hynny y derbyniwyd 2 gais neu fwy ar eu cyfer a gynhwysir.

5.30. Yn yr un ffordd, o ddadansoddi'r math o weithgaredd datblygu economaidd yn ôl y math o anheddiad ee tref farchnad neu bentref mawr (**Ffig 5.2)**, ymddengys ar y cyfan mai'r mathau mwyaf cyffredin o geisiadau oedd:

- Trefi marchnad — Siopau (16%)
- Pentrefi mawr — Diwydiannol ysgafn a dosbarthu (14%) a thafarnau (13%)
- Aneddiadau gwasgaredig — Twristiaeth (32%)

5.31. Unwaith eto, mae hyn yn amlygu rôl newydd y 'pentrefi mawr' o fewn yr ardaloedd lled drefol wrth gefnogi datblygiadau diwydiannol ysgafn.

5.32. **Ehangu busnesau:** O'r 101 o geisiadau lle roedd yn amlwg o'r ffeiliau cynllunio pa un a oedd y cais ar gyfer busnes newydd neu ar gyfer ehangu busnes a oedd yn bodoli eisoes, ymddengys fod 77% ohonynt ar gyfer ehangu busnes a oedd yn bodoli eisoes a bod 23% ohonynt ar gyfer busnesau newydd. Gellir dadansoddi'r ffigurau hyn yn ôl y math o anheddiad fel a ganlyn:

**Tabl 5.7: Ehangu busnesau**


| Math o anheddiad | Busnes newydd | Ehangu busnes | Cyfansymiau |
|---|---|---|---|
| Trefi marchnad | 13 (19%) | 54 (81%) | 67 (100%) |
| Pentrefi mawr | 2 (5%) | 21 (95%) | 23 (100%) |
| Anheddiad gwasgaredig | 3 (17%) | 8 (73%) | 11 (100%) |

5.33. O ystyried yr ystadegau hyn ychydig yn fanylach ymddengys fod y canlynol yn wir:


- Roedd achosion o *ehangu busnesau* yn ymwneud yn bennaf â: tafarnau ac arlwyo (13), siopau (8), gweithgareddau i dwristiaid (heb gynnwys llety) (8), diwydiannol ysgafn (8), a gwestai a gwestai bach (7); ond ar y llaw arall
- Roedd achosion o *fusnesau newydd* yn ymwneud yn bennaf â siopau (5), gweithdai (4), cyllid a gwasanaethau proffesiynol (3), a diwydiant ysgafn (3).

## Ffig 5.1: Math o dref farchnad a gweithgaredd arallgyfeirio


**Lled Drefol: Cyfansuwm y Gweithgaredd Arallgyfeirio>5% (39 o geisiadau)[1]**




**Gwledig Hygyrch: Cyfanswm y Gweithgaredd arallgyfeirio>5% (67 o geisiadau)[2]**





**Gwledig Anghysbell: Cyfanswm y Gweithgaredd Arallgyfeirio>5% (36 o geisiadau)[3]**






Arall = Gweithgareddau a gategoreiddiwyd o dan gyfanswm o 5%; Heb eu dosbarthu = gweithgareddau nas categoreiddiwyd

[1] **Lled Drefol**: *'Arall'* = Gweinyddiaeth gyhoeddus (3%), Gwaredu Gwastraff (3%), Prosesu Cynnyrch Amgylcheddol (3%), Canolfan Ddydd a Chanolfan Iechyd (3%), Llyfrgell/ Gwasanaethau Cyhoeddus (3%), Twristiaeth Arall (3%). *'Heb eu dosbarthu'* = Caban rheoli, Canolfan Addysg Grefyddol, Garej, Canolfan Hyfforddi Gyrwyr Cerbydau, Cwmni gwarchod cathod, Gwerthiannau cist car. [2] **Gwledig Hygyrch**: *'Arall'* = Prosesu Cynnyrch Amgylcheddol (1%), Hamdden ac ymarfer corff (1%), Ysgolion (3%), Twristiaeth Arall (3%), Cyfanwerthu (4%), Tafarnau ac Arlwyo Arall (4%), Gweinyddiaeth Gyhoeddus (4%), Diwydiant Ysgafn (4%), Gwestai a gwestai bach (4%). *'Heb eu dosbarthu'* = Siopau betio, Cwmnïau Nwyddau Adeiladu, Busnes Llogi Ceir, Cwmni gwarchod cathod, Cwmni Gwarchod Cŵn, Addysg (dosbarthiadau nos), Gweithgareddau Arddangos, Garej. [3] **Gwledig Anghysbell**: *'Arall'* = Cyllid a Gwasanaethau Proffesiynol (3%), Swyddfeydd nid A2 (3%), Ymchwil a Datblygiad (3%), Diwydiant Trwm (3%), Storio a Dosbarthu (3%), Ysgolion (3%). *'Heb eu dosbarthu* = Milfeddygon, Chwarel Cerrig, Cwmni gwarchod cŵn, Garej, Crèche.

## Ffig 5.2: Gweithgaredd datblygu economaidd yn ôl math o anheddiad




Arall = Gweithgareddau a gategoreiddiwyd o dan gyfanswm o 5%; Heb eu dosbarthu = gweithgareddau nas categoreiddiwyd

[1] **Trefi Marchnad**: *'Arall'* = Ymchwil a Datblygiad (1%), Diwydiant Trwm (1%), Gwaredu Gwastraff (1%), Cyfanwerthu (2%), Cartrefi Gofal (2%), Hamdden ac Ymarfer Corff (2%), Twristiaeth Arall (2%). *'Heb eu dosbarthu'* = Siopau Betio, Cwmnïau Nwyddau Adeiladu, Busnes Llogi Ceir, Blwch rheoli, Canolfan Addysg Grefyddol [2] **Pentrefi Mawr**: *'Arall'* = Diwydiant Trwm (2%), Ysgolion (2%), Swyddfeydd Nid A2 (2%), Gweithdai (3%), Prosesu Cynnyrch Amgylcheddol (3%), Gwestai a gwestai bach (3%), Cartrefi Gofal (3%). *'Heb eu dosbarthu'* = Gwerthiannau cist car, Cwmni gwarchod cathod, Cwmni gwarchod c□n, Garej, Chwarel Cerrig [3] **Anheddiad Gwasgaredig**: *'Arall'* = Tafarnau Arlwyo Arall (4%), Gweithdai (4%), Gwestai a gwestai bach (4%), Ceffylau (4%). *'Heb eu dosbarthu'* = Cwmni gwarchod c□n, Garej, Gweithgareddau Arddangos.

Fel y nodir yn **Nhabl 5.7** roedd mwyafrif y busnesau newydd wedi'u lleoli o fewn y trefi marchnad, gyda ffocws y gweithgaredd newydd hwn ar y Bala, Llandeilo a Rhuthun.

5.34. O ystyried y cynnydd o ran arwynebedd llawr, nodir y cynnydd net o ran arwynebedd llawr yn ôl y math o weithgaredd economaidd yn **Nhabl 5.8**. O'r tabl hwn, ymddengys fod y cynnydd mwyaf sylweddol o ran arwynebedd llawr yn ymwneud â datblygu swyddfeydd a gwasanaethau cyhoeddus. Hynny yw, er mai prin oedd y ceisiadau ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus, roedd y rheini a dderbyniwyd yn ymwneud ag arwynebedd llawr sylweddol.

**Tabl 5.8: Goblygiadau Gweithgaredd Arallgyfeirio ar Arwynebedd Llawr**

| **Gweithgaredd Arallgyfeirio** | **Arwynebedd Llawr a Gadwyd** | **Arwynebedd Llawr Ychwanegol** | **Ychwanegol fel % o'r Arwynebedd a Gadwyd** | **Cynnydd net o ran arwynebedd llawr** |
|---|---|---|---|---|
| Siopau | 5,249 | 7,199 | 137% | 137% |
| Cyfanwerthu | 992 | 1,938 | 195% | 195% |
| Tafarnau arlwyo arall | 4,270 | 4,409 | 103% | 103% |
| Swyddfeydd nid A2 | 269 | 2,651 | 986% | 986% |
| Gweinyddiaeth gyhoeddus | 1,323 | 16,394 | 1239% | 11% |
| Diwydiant Ysgafn | 15,456 | 4,740 | 31% | 31% |
| Gweithdai | 1,638 | 1,074 | 66% | 66% |
| Prosesu Cynnyrch Amgylcheddol | 5,519 | 2,520 | 46% | 46% |
| Storio a Dosbarthu | 6,307 | 20,799 | 330% | 83% |
| Gwestai a gwestai bach | 1,676 | 1,291 | 77% | 69% |
| Cartrefi Gofal | 1,437 | 1,104 | 77% | 77% |
| Canolfan Ddydd a Chanolfan Iechyd | 1,349 | 134 | 10% | 10% |
| Llyfrgell Gwasanaeth Cyhoeddus | 1,323 | 18,594 | 1405% | 177% |
| Arall | 3,234 | 3,933 | 122% | 86% |
| **Cyfanswm** | **50,201** | **87,572** | **174%** | **74.4%** |

## PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

5.35. O'r holl geisiadau a adolygwyd (199), roedd canlyniadau'r penderfyniadau fel y nodir yn **Nhabl 5.9.** Yn arwyddocaol, dim ond 8% o'r ceisiadau a wrthodwyd. Mae'r gyfradd gymeradwyaeth ychydig yn uwch na'r gyfradd a nodwyd mewn astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn o'r holl geisiadau cynllunio a dderbyniwyd yn y Sir rhwng mis Ionawr 1999 a mis Medi 2001 mewn perthynas â'r economi wledig. O'r cyfanswm o 280 o geisiadau perthnasol a nodwyd yn yr astudiaeth hon, gwrthodwyd 31 o'r ceisiadau (13%), gyda phump arall yn cael eu caniatáu ar ôl apêl (2%) – cyfanswm o 11% wedi'u gwrthod.

**Tabl 5.9: Cyfraddau cymeradwyaeth**

| **Penderfyniad cynllunio** | **Nifer y ceisiadau** |
|---|---|
| Cymeradwywyd | 171 (87%) |
| Tynnwyd yn ôl | 9 (5%) |
| Gwrthodwyd | 16 (8%) |
| **Is gyfanswm** | **196** |
| Arall gan gynnwys dim penderfyniad eto | 3 |
| **Cyfanswm** | **199** |

5.36. **Cyfraddau cymeradwyaeth yn ôl y math o ddatblygiad:** Nodir y cyfraddau cymeradwyaeth yn ôl y math o ddatblygiad yn **Nhabl 5.10.** Noda'r tabl hwn gyfradd gymeradwyaeth o 97% ar gyfer estyniadau; 94% ar gyfer addasu adeiladau; 93% ar gyfer adeiladau newydd; 90% ar gyfer newid defnydd adeiladau; ac 86% ar gyfer newid defnydd tir.

**Tabl 5.10: Penderfyniadau cynllunio yn ôl math o ddatblygiad**

| **Math o ddatblygiad** | **Cymeradwyaeth yn amodol ar AI06** | **Cymeradwyaeth gydag amodau** | **Dim penderfyniad eto** | **Arall** | **Gwrthodwyd** | **Tynnwyd yn ôl** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeilad Newydd | 2 | 37 | - | - | 3 | 3 | **45** |
| Estyniad | - | 35 | 1 | - | 1 | - | **37** |
| Newid Adeilad Presennol | - | 18 | - | - | 1 | - | **19** |
| Newid Defnydd Adeilad | - | 55 | - | 1 | 6 | 5 | **67** |
| Newid Defnydd Tir | - | 18 | - | - | 3 | 1 | **22** |
| Arwyddion | - | 22 | - | - | 1 | 1 | **24** |
| **Arall** | - | 7 | 1 | - | 1 | - | **9** |
| **Cyfanswm** | **2** | **192** | **2** | **1** | **16** | **10** | **223** |

5.37. **Cyfraddau cymeradwyaeth yn ôl math o weithgaredd economaidd**: O ystyried y cyfraddau cymeradwyaeth yn ôl y math o weithgaredd economaidd, bu cyfradd gymeradwyaeth o 100% ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys cyfanwerthu, gweinyddiaeth gyhoeddus, ymchwil a datblygiad, diwydiant trwm, prosesu bwyd a chynnyrch amgylcheddol, gwestai, cartrefi gofal, canolfannau gofal dydd, ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus. Ymhlith y gweithgareddau hynny lle y gwrthodwyd rhai ceisiadau bu:

- Tafarnau ac arlwyo arall 96% wedi'u cymeradwyo
- Gwasanaethau proffesiynol 90%
- Gweithdai 89%
- Siopau 88%
- Twristiaeth arall 87%
- Diwydiannol ysgafn 84%
- Swyddfeydd 79%

5.38. **Cyfraddau cymeradwyaeth yn ôl math o anheddiad:** Nodir cyfraddau cymeradwyaeth yn ôl math o anheddiad yn **Nhabl 5.11.** O ystyried yr aneddiadau lle y gwrthodwyd ceisiadau, ymddengys ymhlith y trefi marchnad fod crynodiad bach o achosion wedi'u gwrthod yn y Bala (gwledig anghysbell) ym Mharc Cenedlaethol Eryri, tra bod yr achosion a wrthodwyd ymhlith yr aneddiadau cysylltiedig wedi'u crynhoi'n bennaf yn yr ardaloedd lled drefol.

**Tabl 5.11: Cyfraddau cymeradwyaeth yn ôl math o anheddiad**

| Math o anheddiad | Cymeradwywyd | Gwrthodwyd | Tynnwyd yn ôl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Trefi marchnad | 100 (86%) | 8 (7%) | 8 (7%) | 116 (100%) |
| Pentref mawr | 48 (87%) | 6 (11%) | 1 (2%) | 55 (100%) |
| Anheddiad gwasgaredig | 22 (92%) | 2 (8%) | - | 24 (100%) |

5.39. **Rhesymau dros wrthod:** Fel y nodir yn **Nhabl 5.12** mae'r prif resymau dros wrthod yn ymwneud â dylunio amhriodol, diogelwch priffyrdd ac effaith ar y tirlun/effaith weledol.

**Tabl 5.12: Rhesymau dros wrthod yn ôl gweithgaredd economaidd**

| | Dylunio Amhriodol | Amhriodol mewn perthynas â Chymeriad Hanesyddol | Datblygiad Amhriodol i'r Sir | Effaith ar y Tirlun/Effaith Weledol | Effeithiau Amgylcheddol Eraill | Gweithgaredd Economaidd Amhriodol | Dwysáu/crynhoi | Niweidiol i Amwynder Lleol (Preswyl) | Niweidiol i Amwynder Lleol (Masnachol) | Diogelwch Priffyrdd | Cynhyrchu traffig | Materion Trafnidiaeth Cynaliadwy | Gwrthod am Resymau Eraill | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Siopau | 4 | 1 | - | 3 | 1 | - | 1 | - | - | - | 1 | - | 1 | **12** |
| Cyllid a Gwasanaethau Proffesiynol | - | - | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | - | - | **1** |
| Tafarnau Arlwyo Arall | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | 1 | - | 1 | **3** |
| Swyddfeydd nid A2 | 2 | 1 | - | 2 | - | - | - | - | - | 2 | - | - | - | **7** |
| Diwydiant Ysgafn | 1 | - | - | - | 1 | - | - | 1 | 1 | 1 | 1 | - | 1 | **7** |
| Gweithdai | - | - | - | - | - | - | - | 1 | 1 | 1 | 1 | - | 1 | **5** |
| Storio a Dosbarthu | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | - | 1 | **2** |
| Twristiaeth Arall | - | - | 1 | 1 | - | - | - | 1 | - | - | - | - | - | **3** |
| Arall | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 1 | - | 1 | - | **2** |
| Cyfanswm a Wrthodwyd | 6 | 1 | 1 | 5 | 2 | 1 | 1 | 3 | 2 | 6 | 4 | 1 | 4 | **37** |
| **Swm** | **13** | **3** | **2** | **11** | **4** | **2** | **2** | **6** | **4** | **13** | **8** | **2** | **9** | **79** |
| **% o'r cyfanswm** | **16** | **4** | **3** | **14** | **5** | **3** | **3** | **8** | **5** | **16** | **10** | **3** | **11** | **100** |

5.40. Drwy ystyried yr holl ystadegau ar wrthod ceisiadau, ymddengys mai'r ddau brif faes o bryder, er mai dim ond nifer bach o geisiadau a oedd yn peri'r fath bryder, oedd:

- nifer fach o geisiadau yn y Bala lle roedd y prif resymau dros wrthod yn ymwneud â dylunio ac effaith ar y tirlun ac effaith weledol, gan adlewyrchu statws yr ardal fel rhan o'r Parc Cenedlaethol.
- nifer fach o geisiadau yn aneddiadau cyfagos ardaloedd lled drefol lle roedd y prif resymau dros wrthod yn ymwneud â phriffyrdd a chynhyrchu traffig.

5.41. **Amodau:** Yn olaf, lle y gosodwyd amodau ar gymeradwyaeth ar gyfer gweithgaredd economaidd yr amodau mwyaf cyffredin oedd dylunio/defnyddio deunyddiau a chyfyngu ar weithgareddau, fel y nodir yn **Nhabl 5.13.** O fewn yr astudiaethau achos, ac eithrio dau ohonynt, nid oedd unrhyw arwydd bod yr amodau a osodwyd yn faich ar yr ymgeiswyr. Y ddau eithriad oedd Astudiaeth Achos 4 lle gofynnwyd i'r perchennog osod wal gerrig wrth y fynedfa ar gost sylweddol, ac Astudiaeth Achos 10 lle rhoddwyd caniatâd personol i'r ymgeisydd, heb esboniad digonol sydd bellach yn ei atal rhag isbrydlesu rhan o'r safle.

**Tabl 5.13: Amodau**

| **Amodau** | **Cyfanswm** | **Amodau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Dylunio/deunyddiau | 70 | S□n/deunydd gwrth-s□n | 10 |
| Cyfyngu gweithgareddau | 39 | Cyfyngu gofod allanol | 7 |
| Mynediad/traffig | 24 | Diddymu hawliau PD rhan 2 | 2 |
| Tirlun/sgrinio | 23 | Caniatâd personol | 2 |
| Parcio | 21 | Amodau eraill | 110 |
| Cyfyngu oriau | 21 | Cyfanswm amodau | **329** |

### Crynodeb

- Ar draws yr aneddiadau enghreifftiol cofnodwyd cyfanswm o 199 o geisiadau ar gyfer datblygu economaidd ar gyfer y cyfnod o dair blynedd o fis Mai 1998– Mai 2001. Roedd 118 (59%) ohonynt yn ymwneud â'r trefi marchnad ac 80 (41%) ohonynt â'r aneddiadau cyfagos.

- Nid yw perfformiad economaidd cyffredinol y trefi marchnad yn gryf, os defnyddir ceisiadau cynllunio fel dangosydd ar gyfer hyfywdra economaidd – ar draws y chwe thref farchnad enghreifftiol – derbyniwyd cyfartaledd o 6.5 o geisiadau fesul tref y flwyddyn.

- Yn gyfrannol mae'r aneddiadau gwledig anghysbell yn yr aneddiadau enghreifftiol yn derbyn mwy o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu economaidd na'r trefi marchnad lled drefol (er nad yw hyn yn ystyried graddfa ceisiadau unigol).

- Mae'r aneddiadau yng nghyffiniau'r trefi marchnad yn yr ardaloedd lled drefol yn derbyn mwy o geisiadau na'u trefi marchnad cysylltiedig, gan adlewyrchu'r tir a ddyrannwyd i'w ddatblygu yng nghyffiniau'r aneddiadau eraill hyn.

- Roedd 53% o'r holl geisiadau yn ymwneud â'r sector gwasanaethau, gan gynnwys twristiaeth a llety. Yn ogystal, roedd 12% yn ymwneud â diwydiant ysgafn a thrwm, 6% â swyddfeydd, 5% â storio a dosbarthu, a 3% â phrosesu bwyd. Roedd pob gweithgaredd economaidd arall yn gyfrifol am 1% neu lai o'r cyfanswm.
- Ar draws y gwahanol fathau o dref farchnad, ceir yr amrywiaeth mwyaf o geisiadau economaidd yn y trefi lled drefol, tra bo'r ceisiadau mwyaf cyffredin yn y trefi gwledig hygyrch yn ymwneud â siopau, ac yn y trefi gwledig anghysbell â thafarnau ac arlwyo.
- Ar draws y gwahanol fathau o anheddiad, nodweddir y trefi marchnad gan geisiadau ar gyfer siopau, nodweddir yr aneddiadau mawr gan geisiadau ar gyfer diwydiant ysgafn a dosbarthu, a nodweddir yr aneddiadau gwasgaredig gan geisiadau ar gyfer twristiaeth.
- Roedd 77% o'r ceisiadau yn ymwneud ag ehangu busnesau a 23% â busnesau newydd, a gysylltir yn fwyaf aml gyda'r trefi marchnad.
- O'r 199 o geisiadau ar gyfer datblygu economaidd a wnaed o fewn yr aneddiadau enghreifftiol yn ystod y tair blynedd diwethaf, cymeradwywyd 87% ohonynt, gwrthodwyd 8% ohonynt, a thynnwyd 5% ohonynt yn ôl.
- Mae cyfraddau cymeradwyaeth yn amrywio yn ôl y math o ddatblygiad a'r math o weithgaredd. Mae'r cyfraddau cymeradwyaeth isaf yn ymwneud â newid defnydd tir, sef 86%, a datblygu swyddfeydd (79%).
- Mae'r prif resymau dros wrthod yn ymwneud â dylunio, effaith ar y tirlun ac effaith weledol ac ystyriaethau priffyrdd.
- Lle gosodir amodau ar gymeradwyaeth mae'r amodau mwyaf rheolaidd yn ymwneud â dylunio/defnyddio deunyddiau a chyfyngu ar weithgareddau.
- Penderfynwyd ar 43% o'r ceisiadau ar gyfer datblygu economaidd gwledig o fewn wyth wythnos ond cymerodd 51% rhwng deufis a chwe mis i'w penderfynu. Cymerodd 6% ohonynt dros chwe mis.
- Penderfynwyd ar 56% o'r ceisiadau ar gyfer datblygu economaidd gwledig gan bwyllgor, penderfynwyd ar 44% ohonynt o dan bwerau dirprwyedig.

# 6. CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

6.1. Mae'r Bennod hon yn rhannu i dair rhan. Yn gyntaf mae'n edrych ar wahân ar yr hyn a ddysgwyd am fusnesau gwledig unigol; am swyddogaeth trefi marchnad; a'r farn genedlaethol am ddatblygu economaidd gwledig. Mae'r adran hon yn tynnu'n sylweddol ar ganlyniadau'r astudiaethau achos, yr holiadur drwy'r post a'r gweithdai. Yn ail, mae'n ystyried dylanwad cyfredol cynllunio ar yr economi wledig yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodir ym Mhenodau blaenorol yr adroddiad hwn. Yn olaf, ceir trafodaeth am y goblygiadau i'r system gynllunio – sut y gallai berfformio yn y dyfodol er budd yr economi wledig.

### Busnesau gwledig unigol

6.2. Mae'r astudiaethau achos, wedi'u cyfuno gyda'r holiadur drwy'r post, yn darparu cipolwg o fentrau gwledig unigol, o'r rheini sy'n cael eu rhedeg gan un person hunan-gyflogedig, i'r rheini sy'n cyflogi dros 200 o bobl. O'r rhain daw darlun i'r amlwg o rai o nodweddion allweddol y mentrau gwledig a nodwyd. Ceir crynodeb ohonynt isod.

- *Entrepreneuriaeth:* Gyda rhai eithriadau prin, datblygwyd y busnesau gan un neu ddau o bobl. Ceir ymdeimlad gwirioneddol o ymroddiad personol. Felly er bod amgyffrediad nad oes entrepreneuriaid yng Nghymru wledig, ni phrofwyd hynny'n llwyr gan yr astudiaeth hon. Rhan o'r broblem yw bod llawer o'r busnesau bach hyn sy'n tyfu wedi'u cuddio o'r olwg gyffredin. Maent yn eithriadol o annibynnol ac felly am osgoi unrhyw *"fusnesa"* o'r tu allan.

- *Manteision lleoliad gwledig.* Gan ymateb i fanteision ac anfanteision gweithredu mewn lleoliad gwledig y farn gyffredinol oedd mai'r manteision oedd: amgylchedd deniadol, argaeledd staff, a chymorth grant, a diffyg tagfeydd traffig. Nodwyd mai'r brif anfantais oedd cost a chosbau amser cludo a dosbarthu ac, i raddau llai, cyngor busnes gwael, trethi uchel a phrinder gwahanol fathau o staff.

- *Adnoddau lleol:* Mae rhai o'r busnesau wedi'u lleoli yng Nghymru wledig gan eu bod yn defnyddio deunyddiau crai lleol fel Belfield Timber (Astudiaeth Achos 1) a lladd-dy Owen.G. Owen (Astudiaeth Achos 3) ill dau ger Llanelwy. Mae rhai ohonynt wedi'u lleoli yno oherwydd cysylltiadau teuluol cryf ac awydd cryf iawn i weithio'n agos at y cartref teuluol – ni ddylid tanamcangyfrif y teyrngarwch hwn i Gymru ac awydd i fod mewn lleoliad lle y gellir cynnal busnes yn Gymraeg. Denwyd eraill i'r ardal gan argaeledd a natur fforddiadwy eiddo addas, fel Express Contract Drying yn Nhregaron (Astudiaeth Achos 20), busnes blas a lliw bwyd o dan berchenogaeth breifat, a sefydlwyd ddeng mlynedd yn ôl gan y perchennog a symudodd o Northampton.

- *Busnesau newydd ac ehangu busnesau:* Mae nifer sylweddol o'r busnesau wedi dechrau yn ystod y deng mlynedd diwethaf ac mae rhai ohonynt wedi tyfu'n sylweddol. Hyd yn ddiweddar roedd Pobty'r Berwyn yn y Bala (cwmni teuluol trydydd cenhedlaeth a sefydlwyd yn y Bala) yn cyflogi tua 50 o bobl. Mae'r nifer hwn bellach wedi cynyddu i 120 o bobl a disgwylir iddo gynyddu i 150 yn y dyfodol agos (Astudiaeth Achos 17). Mae Belfield Timber yn bwriadu ehangu ac mae wrthi'n trefnu digwyddiad 'Woodfest Cymru' blynyddol gyda'r gobaith o

ddenu 25,000 y flwyddyn, tra bod Express Contract Drying wedi ehangu ac yn bwriadu ehangu ymhellach yn y dyfodol.

- *Defnyddio adnoddau naturiol:* Mae rhai yn ymateb i'r her sylweddol o ddatblygu busnesau newydd yn seiliedig ar adnoddau naturiol yr ardal. Mae Belfield Timber yn arbenigo ym maes cynhyrchu deunydd lloriau pren a fframiau pren gan ddefnyddio pren caled (derw yn bennaf) gyda 50% o'r coed yn dod o goedwigoedd yng Nghymru ac yn gwasanaethu marchnad leol, genedlaethol a rhyngwladol, gyda'r galw yn uwch na'r cyflenwad. Enghraifft wahanol yw Tower Colliery Briquetting Plant (Astudiaeth Achos 8), sy'n gwneud briciau glo wedi'u ffurfio o lwch glo a resin, sy'n addas i'w defnyddio mewn ardaloedd di-fwg ac y mae galw cynyddol amdanynt ledled Prydain.

- *Cyflogi staff lleol:* Ac eithrio Parc Busnes Llanelwy (Astudiaeth Achos 2) a rhai o'r cyflogwyr mawr yn ardal Rhydaman (Astudiaeth Achos 6), noda'r astudiaethau achos a'r holiaduron a ddychwelwyd drwy'r post fod mwyafrif y busnesau gwledig yn cyflogi staff lleol. O'r 811 o gyflogeion a nodwyd drwy'r holiadur drwy'r post, mae'r mwyafrif ohonynt (58%) yn teithio llai na phum milltir i'r gwaith, gyda dim ond 15% ohonynt yn teithio dros 15 milltir. Mae'r thema hon hefyd yn amlwg ymhlith yr astudiaethau achos a leolwyd mewn ardaloedd gwledig hygyrch ac anghysbell – maent oll yn manteisio ar lafur lleol (ac eithrio, fel y gwelir yn achos Rhuthun Tandoori (Astudiaeth Achos 12) lle y mae angen sgiliau ethnig penodol).

- *Denu staff:* Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn recriwtio llafur di-grefft a lled-grefftus sy'n adlewyrchu eu lleoliad gwledig. Mae cwmnïau mwy fel Allfa Ffatri Tweedmill (Astudiaeth Achos 4) a Phobty'r Berwyn yn cynnig oriau gwaith hyblyg er mwyn denu gweithwyr, tra bo'r Popty hefyd yn ceisio recriwtio ffermwyr lleol, gan fod gwaith ffatri yn defnyddio sgiliau y gellir eu trosglwyddo. Mae'r Popty hefyd yn ceisio datblygu cysylltiadau gydag ysgolion lleol ac yn ceisio goresgyn y rhwystr meddyliol sy'n bodoli tuag at waith ffatri.

- *Hyfforddi staff:* Er bod diffyg cydnabyddedig o ran staff crefftus, roedd ymron pob un o'r busnesau sefydledig yn cynnig hyfforddiant mewnol helaeth, wedi'i gysylltu'n aml â chyflawni CGC ac yn aml â chymorth gan LANTRA neu ELWa. Ymhlith yr enghreifftiau, mae Belfield Timber fel rhan o raglen hyfforddi fewnol fanwl, yn darparu cymorth i ennill tystysgrifau llif gadwyn a cherbydau fforch godi; mae matrics sgiliau hyfforddi ar waith yn Tweedmill ac mae'n bwriadu rhoi eu rhaglen hyfforddi ar brawf fel rhaglen gyfrifiadurol gyda chymorth y coleg lleol; ac ym Mhopty'r Berwyn mae pob aelod o'r staff wedi'u cofrestru ar gwrs CGC ac maent oll yn cael hyfforddiant cyfrifiadurol. Lle bo angen hyfforddiant mwy arbenigol, gellir anfon aelodau o'r staff ar gyrsiau penodol, er enghraifft, yn achos Express Contract Drying, enillir Tystysgrifau Hylendid Bwyd o'r ganolfan technoleg bwyd yn Horeb.

- *Grantiau*: O'r holiaduron drwy'r post mae'n amlwg bod grantiau yn bwysig i fusnesau gwledig, gyda rhai ymgeiswyr yn nodi na allai eu busnes barhau hebddynt. Buont hefyd yn greiddiol i dwf rhai o'r busnesau a ystyriwyd fel astudiaethau achos. Derbyniwyd sylwadau amrywiol o ran y cyngor a'r cymorth sy'n cyd-fynd â grantiau. Nododd rhai eu bod wedi derbyn gwasanaeth ardderchog, ond

beirniadwyd cyngor ymgynghorwyr yn hallt yn nhermau: diffyg dealltwriaeth o amgylchiadau lleol; gwybodaeth annigonol am y busnes a oedd am gael cyngor; a dealltwriaeth ddamcaniaethol yn hytrach nag ymarferol o sut i redeg busnes.

6.3. Fodd bynnag, roedd teimlad o obaith yn amlwg ymhlith y busnesau. O'r rheini a ymatebodd i'r holiadur, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gadarnhaol, gan ragweld y byddent yn parhau i ehangu a buddsoddi. Ni nododd unrhyw ymatebwyr ddirywiad yn eu busnes, er i ddau ohonynt nodi i gyfyngiadau cynllunio lesteirio eu gweithgareddau. Roedd yr un gobaith yn amlwg yn yr astudiaethau achos - lle y dyfarnwyd caniatâd cynllunio. Yr unig eithriad oedd y lladd-dy lle roedd y dyfodol ar ôl FMD yn aneglur o hyd.

6.4. Mae'r astudiaethau achos hyn yn ailbwysleisio pwysigrwydd micro-fusnesau a busnesau bach a chanolig eu maint i'r economi wledig yng Nghymru. Fel yr amlygwyd ym Mhennod 2, mae'r busnesau bach a chanolig eu maint hyn wedi'u hintegreiddio'n dda i'w hardal leol - daw eu gweithluoedd o'r ardal gyfagos a cheir cysylltiadau rhyngddynt ag ysgolion a cholegau lleol. Darparant hyfforddiant i'r staff a chynigiant hyblygrwydd er mwyn denu sail cyflogeion mor eang â phosibl. Mae'r canfyddiadau hyn yn ategu canfyddiadau gwaith ymchwil arall fel y gwaith gan Mills (2000) a nododd fod busnesau bach a chanolig eu maint gwledig (yn Ne Orllewin Lloegr) yn dewis aros yn eu lleoliad gwledig gan eu bod wedi sefydlu rhwydweithiau lleol, a allai ffurfio gwe o gysylltiadau i'r economi leol.

6.5. Fel rhan o'r holiadur drwy'r post, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa gymorth pellach fyddai'n helpu busnesau gwledig. Yr ymateb allweddol oedd yr angen am well cyfathrebu rhwng datblygu economaidd a chyrff cynllunio, a golwg fwy integredig ar ddyfodol ardal:

*"Pwyllgor o ymgynghorwyr efallai i annog yr economi wledig i ffynnu"* (Canolfan Ferlota).

### Trefi marchnad

6.6. Drwy'r adolygiad o lenyddiaeth a'r ymgynghoriadau disgrifiwyd cyflwr yr economi wledig. Fe'i nodweddir yn gyson gan gyfraddau diweithdra isel, cyfraddau gweithgaredd isel ac incwm isel, ac o ganlyniad twf isel. Fwy na thebyg fod y disgrifiad hwn yn ddisgrifiad teg o'r trefi marchnad a astudiwyd, gyda chyfartaledd o 6.5 o geisiadau cynllunio yn unig ar gyfer datblygu economaidd fesul tref farchnad fesul blwyddyn.

6.7. **Trefi marchnad fel canolfannau gwasanaeth:** Mae canfyddiadau Pennod 4 a Phennod 5 wedi ailbwysleisio swyddogaeth gwasanaeth trefi marchnad, yn nhermau'r gwasanaeth a ddarperir i gymunedau cyfagos ac yn nhermau'r gyflogaeth a gynigir. Dim ond yn Rhydaman (lled drefol) y mae'r gyfradd gyflogaeth yn y sector gwasanaethau yn is na 60%. Mewn tref fel Tregaron (gwledig anghysbell) mae 84% o'r cyflogeion a 75% o'r unedau busnes yn y sector gwasanaethau, tra bod saith o'r wyth cais cynllunio a dderbyniwyd mewn perthynas â'r economi wledig yn ymwneud â'r sector gwasanaethau. Fodd bynnag, er gwaethaf y pwyslais hwn, mae'n amlwg bod swyddogaeth gwasanaethu'r trefi marchnad wedi gostwng yn sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Llwyddodd trefi fel Rhuthun a Llanelwy i ddenu a chadw cyflogwyr cyhoeddus mawr fel swyddfeydd y Cyngor a swyddfeydd Awdurdod

Datblygu Cymru. Ond collodd eraill, fel y Bala a Thregaron, gyflogwyr ym maes gwasanaethau cyllid ac ariannol i ganolfannau mwy, gan sefydlu patrymau o allfudo ac erydu'r rhwydwaith o gadwynau cyflenwi lleol - yn Rhuthun nodwyd fod nifer o'r cyflogwyr lleol allweddol ym maes adeiladu, ffensio ac ati wrthi'n gweithio ar gontractau'r Cyngor.

6.8. Yn yr un modd mae swyddogaeth manwerthu'r rhan fwyaf o'r trefi marchnad wedi dirywio'n sylweddol wrth i'w swyddogaeth manwerthu draddodiadol drosglwyddo i ganolfannau mwy. Efallai nad yw hyn mor amlwg yn y trefi marchnad anghysbell, gan fod eu natur anghysbell yn golygu bod cymunedau yn fwy hunan-gynhaliol. Ond yn y trefi marchnad gwledig hygyrch, mae'n golygu bod y canolfannau hyn yn gorfod ail-lunio eu hunain.

6.9. **Rôl ysgolion:** O'r astudiaeth hon amlygwyd rôl ganolog ysgolion wrth ddarparu gwasanaethau mewn trefi marchnad. Maent yn gyflogwr allweddol, yn arbennig mewn trefi marchnad llai fel Tregaron (para 4.47). Maent hefyd yn ganolog wrth ffurfio cyswllt rhwng darpar gyflogeion y dyfodol a busnesau lleol. Ond mae cynnal nifer y disgyblion yn anodd gyda phoblogaeth h□n a gostyngiad yn nifer y bobl rhwng 20 – 40 oed. Mae'n arbennig o anodd cadw dosbarthiadau 6ed dosbarth ymarferol. Pwynt ar wahân ond pwysig yw'r diffyg tybiedig o ran pobl yn y bandiau sgiliau uwch. Mewn rhai achosion maent yno ond ar hyn o bryd maent yn allgymudo i gyflogaeth mewn mannau eraill.

6.10. **Dosbarthu gweithgaredd mewn ardaloedd lled drefol:** Fel sy'n amlwg o ganfyddiadau'r Bennod ddiwethaf, mewn ardaloedd lled drefol mae grymoedd ychwanegol posibl yn gweithio yn erbyn rôl draddodiadol trefi marchnad fel hwb yn yr hierarchaeth aneddiadau. Gyda darnau mawr o dir yn cael eu dyrannu ar gyfer datblygu economaidd yn yr aneddiadau cyfagos â chysylltiadau uniongyrchol â'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol, mae'r ffocws economaidd yn symud o'r trefi lled drefol hyn. Teimlai'r bobl a gyflwynodd sylwadau ar Lanelwy nad oedd Parc Busnes Llanelwy (sydd wedi'i leoli un filltir y tu allan i'r dref ar Ffordd Gyflym yr A55) wedi gwneud fawr ddim i Lanelwy ei hun, gan fod ei bellter isel a ffyrdd da yn golygu bod mwyafrif y cyflogeion yn cymudo i'r Parc o leoliadau pellach (para 4.21). Ar hyn, roedd pryder y gallai'r Parc mewn gwirionedd fod yn peri anfantais i gynaliadwyedd Llanelwy drwy annog gwasanaethau swyddfa traddodiadol (ee cyfreithwyr) i adleoli o ganol y dref. Yn yr un ffordd, ym mharth y de, awgryma'r ystadegau cynllunio fod anheddiad cyfagos Capel Hendre bellach yn fwy o atyniad economaidd na Rhydaman (para 5.23).

6.11. Ond nid y darlun braidd yn llwm hwn o drefi marchnad yw'r darlun cyflawn o bell ffordd. O'u mewn, yn arbennig yn yr ardaloedd mwy anghysbell, ceir ymdeimlad cryf iawn o gymuned sy'n allweddol i ddatblygu yn y dyfodol. Yn y Bala mae'r grymoedd allweddol sy'n llywio gweithgaredd economaidd yn ymwneud â datblygu gweithlu cadarn sy'n deyrngar i'r dref, pwysigrwydd ysbryd cymunedol a chysylltiadau teuluol (fel y gwelir ym Mhopty'r Berwyn), a hunaniaeth Gymreig arbennig y dref (para 4.41, 4.48).

6.12. **Symud yn araf ond yn sicr:** O fewn y trefi marchnad gellid priodoli llwyddiant grwpiau cymunedol fel Antur Penllyn a Churiad Caron i'r ffaith eu bod yn cymryd golwg hir dymor ac yn gweithio gyda dyheadau pobl a busnesau lleol. Er enghraifft,

wrth ddatblygu twristiaeth yn Nhregaron, canolbwyntiwyd y pwyslais cyfredol ar ymwelwyr dydd *"sicrhau bod y cynnyrch yn cyrraedd lefel benodol cyn cael pobl i aros"*. Nid ar ddatblygu diwydiant twristiaeth mawr y mae'r pwyslais ond ar ddatblygu diwydiant parhaus, cynaliadwy ac amrywiol.

6.13. **Clystyrau busnes:** Yn ogystal, mae tystiolaeth yn dechrau dod i'r amlwg bod trefi marchnad yn dechrau ail-lunio eu hunain fel canolfannau arbenigol gan ddod â dimensiwn newydd i'r economi wledig. Er enghraifft, mae Llandeilo eisoes yn datblygu fel canolfan fanwerthu arbenigol ac mae wedi llwyddo i ddenu diddordeb ym maes gweinyddiaeth cadwraeth (swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Cefn Gwlad Cymru). Bwriedir hefyd datblygu economi grefft a chanolbwyntio ar ddatblygu'r cyfryngau gyda'r techniwm yng Ngelli Aur fel canolbwynt, a chyda'r posibilrwydd o sefydlu bio-techniwm mewn partneriaeth â'r Ardd Fotaneg Genedlaethol (para. 4.34). Fodd bynnag, wrth i'r clystyrau arbenigol hyn ddatblygu bydd yn bwysig sicrhau eu bod wedi'u hintegreiddio i'r economi leol a chynorthwyo wrth ddatblygu a chadw sgiliau o fewn y boblogaeth leol.

6.14. **Ansawdd bywyd:** Neges allweddol a ddaeth i'r amlwg yn y gweithdai ac mewn ymgynghoriadau eraill oedd na ddylid barnu llwyddiant tref (neu yn wir yr economi wledig yn fwy cyffredinol) yn ôl CMC yn unig. Mae'n llawer mwy priodol mesur llwyddiant yn nhermau materion sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd. Un o'r rhesymau allweddol pam bod pobl wedi dewis byw mewn ardaloedd gwledig yw ansawdd y bywyd a gynigir - ar yr amod y gall cymunedau aros yn hyfyw ac yn llewyrchus ac y gallant ddod o hyd i ffyrdd o gynnal y gwasanaethau angenrheidiol, nid yw lefelau CMC mor bwysig. Yn y Bala nodwyd mai bach oedd trosiant blynyddol llawer o'r allfeydd manwerthu â pherchennog-ddeiliad ond roedd y perchenogion yn fodlon ar hyn, gan ei bod yn well ganddynt y ffordd o fyw a gynigir ganddo. Dim ond ar lefel gymunedol y gellir nodi'r hyn sy'n bwysig i gymunedau unigol a gweithredu'n unol â hynny.

### Y darlun cenedlaethol

6.15. Daw themâu clir i'r amlwg yn deillio o sylwebaeth a pholisi sy'n ymwneud â'r economi wledig yng Nghymru. Mae'r cryfderau wedi'u canolbwyntio ar ansawdd uchel yr amgylchedd gwledig yng Nghymru a'i gysylltiadau â chynnyrch amaethyddol a thwristiaeth a hamdden. Pwysleisir cymunedau cryf a hunaniaeth ddiwylliannol. Nodwyd llawer mwy o wendidau, gan gynnwys sail economaidd rhy gul, diffyg hygyrchedd, lefelau sgiliau is a manteisio ar TGCh, allfudo'r bobl ifanc, a lefelau is o gynhyrchiant ac arloesedd. Ymhlith y nodweddion pwysig eraill mae rôl hanfodol busnesau bach a chanolig eu maint (SMEs) a micro-fusnesau yn yr economi wledig a dylanwad sylfaenol cymudo, nad oes dealltwriaeth dda ohono.

6.16. Mae'r ystadegau sydd ar gael[17] yn cadarnhau'r themâu hyn. Mae CMC y pen yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru tra bod cyfraddau gweithgaredd yn uwch. Mae'r sector cyhoeddus ac amrywiaeth o wasanaethau yn amlwg o fewn yr economi wledig, er bod nifer sylweddol o fusnesau gwledig yn ymwneud ag amaethyddiaeth er bod y maes yn cyflogi llai na 10% o'r gweithwyr gwledig. Dim ond 1% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol y mae'r CMC y pen yng Nghymru wledig (**Tabl 2.1**), ac

[17] mae para 1.7 yn disgrifio diffygion yr ystadegau ar Gymru wledig

mae'r gyfradd gweithgaredd 3% yn uwch (*Cymru'n Ennill, 2001*). Mae'r dosbarthiad cyflogaeth yn gyffredinol debyg i Gymru drefol (**Ffig. 2.1**). Felly, nid yw'r gwahaniaethau rhwng economïau Cymru wledig a Chymru drefol yn amlwg, er bod digon o dystiolaeth (gan gynnwys tystiolaeth o'r astudiaeth hon) sy'n nodi bod y gwahaniaethau rhwng gwahanol rannau o Gymru wledig yn arwyddocaol iawn.

6.17. Mae dirywiad amaethyddiaeth ac effeithiau argyfwng clwy'r traed a'r genau yn amlwg o hyd, ond ar y cyfan yn 2001 llwyddodd yr economi wledig yng Nghymru i dyfu ychydig yn llai nag 1% (yn erbyn amcangyfrifon cyn argyfwng clwy'r traed a'r genau o ychydig dros 2%), er i amaethyddiaeth ostwng 11% a thwristiaeth 8% (Midmore, 2002). Serch hynny, eleni mae swyddogion cynllunio yn nodi cynnydd amlwg yn nifer y ceisiadau sy'n ymwneud â datblygu economaidd gwledig.

6.18. Yr hyn a nodwyd gan yr astudiaeth hon yw er bod economïau'r trefi marchnad wedi'u cysylltu'n agos â gwasanaethau cyhoeddus, ceir arwyddion o arallgyfeirio cynyddol a gweithgareddau sy'n crynhoi o fewn clystyrau gweithgaredd sy'n arwydd calonogol ar gyfer y dyfodol.

6.19. Yn erbyn y cefndir hwn mae yna bellach amrywiaeth enfawr o bolisïau a mentrau sy'n effeithio ar yr economi wledig yng Nghymru. Er y cânt eu beirniadu am fod diffyg cydlyniad rhyngddynt, daw themâu cytûn cryf i'r amlwg (para 2.30).

6.20. Mae'r angen i sicrhau dealltwriaeth drylwyr a gweithio gydag economïau gwledig lleol yn syniad sydd wedi'i hen sefydlu. Fe'i cysylltir â phwysigrwydd cynnal busnesau sy'n bodoli eisoes, datblygu'r sail sgiliau lleol a meithrin gweithgaredd entrepreneuraidd. Ceir dealltwriaeth dda o rôl sylfaenol yr amgylchedd gwledig mewn perthynas â sawl elfen o'r economi, ac mae polisi yn pwysleisio pwysigrwydd ychwanegu gwerth i gynnyrch ac annog yr economi werdd.

> *"Yn arbennig, rhaid i ni ystyried sail fferm draddodiadol yr economi wledig nid yn unig fel ffynhonnell o arallgyfeirio ar ffermydd ynddo'i hun, ond hefyd fel sail ar gyfer gweithgareddau economaidd newydd nad ydynt yn gysylltiedig â ffermydd sy'n ymwneud ag addasu a thrawsnewid ei thir, ei choetiroedd, ei hadeiladau ac adnoddau amgylcheddol a dynol. Mae angen i Gymru Wledig ailintegreiddio ei hamaethyddiaeth yn ôl i economi wledig fwy amrywiol er mwyn iddi ategu ac annog busnesau nad ydynt yn ffermydd yn ogystal â gosod ei hun ar sail gadarnach ar gyfer y dyfodol."* (*Arallgyfeirio'r Economi Wledig*, 2002)

6.21. Yn fwy strategol, mae polisi yn nodi y dylai arallgyfeirio'r economi wledig yn y dyfodol fod yn gynaliadwy, ac y dylid cynnwys cymunedau lleol fel rhan annatod o'r broses. Mae uno pob elfen yn thema gyson sy'n gofyn am **integreiddio,** o ran cysyniad a chyflwyniad.

6.22. Yr hyn a ddaw i'r amlwg o ystyried y lefel ficro i'r lefel facro, yw'r angen am ddealltwriaeth integredig o'r ffordd y mae ardaloedd gwledig yn gweithredu a sut y gallent weithredu er mwyn cyflawni amcanion cynaliadwyedd bras. Ystyrir rôl cynllunio yn hyn o beth isod.

# CYNLLUNIO A'R ECONOMI WLEDIG: Y SEFYLLFA BRESENNOL

## Polisi cynllunio

6.23. Mae polisi cynllunio cenedlaethol wedi esblygu'n gyflym yn ddiweddar wrth i *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999) gael ei ddisodli gan *Bolisi Cynllunio Cymru* (2002).

6.24. Roedd *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999) yn datgan cefnogaeth gyffredinol i ddatblygu economaidd ac arallgyfeirio gwledig. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) yn fwy soffistigedig, gan roi arweiniad manwl ar ddatblygiad cynaliadwy ac arallgyfeirio gwledig. Rhoddir cefnogaeth benodol i'r economi werdd, clystyrau busnes a thechnoleg, a diwallu anghenion cymdeithasol sefydledig drwy fathau penodol o ddatblygu. Awgrymir hefyd "*Mewn ardaloedd gwledig, dylai awdurdodau cynllunio lleol baratoi strategaethau datblygu gwledig integredig er mwyn hwyluso'r broses o arallgyfeirio'r economi wledig, gan geisio darparu ar gyfer diwydiannau gwledig traddodiadol a mentrau newydd*" (7.3.1)

## Cynlluniau datblygu

6.25. Gan fod *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999) yn gymharol newydd dim ond ar rai o'r cynlluniau datblygu diweddaraf y mae wedi dylanwadu. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) yn rhy newydd i fod wedi dylanwadu ar unrhyw gynlluniau.

6.26. Ymhlith y cynlluniau datblygu a adolygwyd, ceir cefnogaeth gyffredinol tuag at ddatblygu economaidd (para 3.24) ac arallgyfeirio gwledig (para 3.27), gan ganolbwyntio'r rhan fwyaf o'r datblygiadau ar aneddiadau mwy (para 3.19) a chyda pholisïau manylach yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau, o dwristiaeth i weithio o gartref, er na chwmpesir clystyrau busnes a thechnoleg, wedi'u cyflwyno yn *Polisi Cynllunio Cymru* (2002). Dyrennir amrywiaeth o safleoedd o dri math ar gyfer datblygu economaidd: safleoedd strategol, safleoedd ar gyfer anghenion lleol, a safleoedd dwysedd is o ansawdd uchel (para 3.38). Nid yw pob cynllun yn cwmpasu pob mater a godwyd yn *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999) a phrin yw'r dystiolaeth bod awdurdodau lleol yn seilio eu polisïau cynllunio ar asesiadau systemataidd o anghenion economaidd a chymdeithasol lleol (para 3.45).

6.27. Fodd bynnag, mewn termau bras, prin yw'r dystiolaeth o bolisïau'r cynlluniau datblygu fod cynllunio yn gyfyngiad amhriodol ar ddatblygu economaidd gwledig yng Nghymru. Anaml y mae'r polisïau yn fwy cyfyngedig nag *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999), ac mewn rhai achosion nid ydynt yn fanylach.

## Rheoli datblygu

6.28. O'r 199 o geisiadau a wnaed ar gyfer gweithgareddau datblygu economaidd yn ystod y tair blynedd diwethaf ar draws yr aneddiadau gwledig enghreifftiol, cymeradwywyd 87% ohonynt, gwrthodwyd 8% ohonynt a thynnwyd 5% ohonynt yn ôl (para 5.35). Nid oes cyfraddau cymeradwyaeth cenedlaethol ar gael i Gymru, ond yn Lloegr 88% oedd y gyfradd gymeradwyaeth ar gyfartaledd dros y pum mlynedd diwethaf. Felly

mae'r gyfradd gymeradwyaeth ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru wledig yn agos at y gyfradd gymeradwyaeth gyffredinol, sy'n cynnwys nifer o fân geisiadau heb ddadl yn eu cylch fel estyniadau domestig.

6.29. Mae'r gyfradd gymeradwyaeth yn amrywio wrth ystyried gwahanol fathau o gais, gwahanol fathau o weithgaredd economaidd ac yn ôl lleoliad. Mae'r cyfraddau cymeradwyaeth uchaf yn ymwneud ag estyniadau (97%) ac addasu adeiladau (94%) gyda'r isaf yn ymwneud â newid y defnydd o adeiladau (90%) a thir (86%) (Tabl 5.10). Ond nid yw hyn yn syndod gan fod newid defnydd fel arfer yn cynnwys materion o egwyddor lle nad yw'r un peth yn wir am addasiadau ac estyniadau ac felly byddant yn 'haws' i'w cymeradwyo.

6.30. Mae cyfraddau cymeradwyaeth yn ôl math o weithgaredd economaidd yn amrywio rhwng 100% a 79% (para 5.37). Dylanwedir yn gryf arnynt gan y nifer cymharol fach o geisiadau ymhob dosbarthiad.

6.31. Mae cymeradwyaeth yn ôl lleoliad hefyd yn amrywio rhwng 92% ar gyfer aneddiadau gwasgaredig ac 86% ar gyfer y trefi marchnad (para 5.38). Mae hyn rywfaint yn annisgwyl gan mai aneddiadau mwy yw'r dewis leoliad ar gyfer datblygu economaidd mewn polisi, ond eto nid yw'r amrywiad hwn yn ddigon mawr i fod yn arwyddocaol iawn.

6.32. Felly y sefyllfa gyffredinol o ran rheoli datblygu yw bod y gyfradd gymeradwyaeth ar gyfer datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig yn debyg i'r gyfradd gymeradwyaeth gyffredinol, ac felly eto prin yw'r dystiolaeth o benderfyniadau cynllunio i ategu'r egwyddor bod cynllunio yn cyfyngu'n amhriodol ar ddatblygu economaidd gwledig yng Nghymru.

6.33. Mae rhesymau dros wrthod (Tabl 5.12) yn ychwanegu manylion pellach i'r darlun hwn. Mae'r rhesymau mwyaf cyffredin yn ymwneud â materion sy'n wynebu unrhyw gais cynllunio: dylunio, ymwthiad gweledol a diogelwch priffyrdd. Prin yw'r rhesymau sy'n ymwneud â'r egwyddor o ddatblygu, fel datblygiad sy'n amhriodol ar gyfer y lleoliad a materion trafnidiaeth cynaliadwy. Mae hyn yn ategu'r casgliad mai anaml iawn y mae datblygu economaidd *per se* yn wynebu rhwystrau cynllunio, er y gallai fod problemau o ran manylion ceisiadau unigol. Ond mae'r broses gynllunio yn araf gyda dim ond 43% o'r ceisiadau yn cael eu cymeradwyo o fewn wyth wythnos. Mae'r arafwch hwn yn bryder penodol i weithgaredd economaidd.

6.34. Mae'r rhan fwyaf o amodau a osodir hefyd yn ymwneud ag agweddau ar ddatblygu nad ydynt yn unigryw i ddatblygu economaidd (Tabl 5.13): dylunio a deunyddiau, mynediad, parcio ac ati. Yn ddiddorol, defnyddir amodau sy'n cyfyngu gweithgareddau ac oriau defnydd yn gymharol aml, er na ddefnyddir amodau sy'n diddymu hawliau datblygu a ganiatawyd ac amodau personol yn aml. Dim ond lle y bydd eu hangen er mwyn caniatáu'r datblygiad y dylid defnyddio amodau o'r fath. Yn aml bydd datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig wedi'i leoli yn agos at aneddiadau ac felly mae'n bosibl y bydd angen cyfyngu gweithgareddau ac oriau defnydd. Yn yr holiaduron a ddychwelwyd ac mewn dim ond un astudiaeth achos y gwrthwynebwyd i amod a osodwyd (personol). Noda hyn fod yr amodau a osodwyd yn gyffredinol yn rhesymol.

6.35. Felly prin yw'r digwyddiadau annisgwyl wrth reoli datblygu. Mae'r cyfraddau cymeradwyaeth yn gyffredinol uchel. Mae'r rhesymau dros wrthod fel arfer yn ymwneud â materion sy'n gyffredin i bob math o gais cynllunio ac anaml y byddant yn bwrw amheuaeth ar yr egwyddor o ddatblygu economaidd. Yn fwyaf aml, mae amodau yn ymdrin â mân faterion cynllunio a lle y byddant yn ceisio rheoli agweddau ar y defnydd, prin yw'r gwrthwynebiadau. Hefyd, dim ond rhan fach o faich gwaith awdurdodau cynllunio lleol yw ceisiadau ar gyfer datblygu economaidd gwledig, gan mai nifer fach ohonynt a dderbynnir, er i swyddogion nodi eu bod wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf. Felly, nid oes llawer i awgrymu bod penderfyniadau rheoli datblygu yn rhwystr arwyddocaol i ddatblygu economaidd. Yr un mater arwyddocaol iawn yw'r cyfnod hir a gymerir wrth benderfynu ar fwyafrif y ceisiadau cynllunio hyn, a all gael sgîl-effeithiau sylweddol iawn ar fusnes bach (para 5.16).

### Ceisiadau cynllunio

6.36. Drwy'r astudiaeth hon casglwyd swm sylweddol o ddata ar fanylion ceisiadau cynllunio yn hytrach na'u profiad o reoli datblygu. Mae'r data hwn yn darparu darlun cywir o'r gweithgareddau datblygu economaidd yr oedd angen caniatâd cynllunio arnynt ac felly mae'n ddefnyddiol wrth ddynodi'r pwyntiau lle mae cynllunio a gweithgareddau datblygu economaidd yn gorgyffwrdd.

6.37. Y pwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r data hwn yw:

- Mae'r gweithgareddau economaidd mwyaf cyffredin y gofynnwyd am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer yn ymwneud â'r sector gwasanaethau gyda siopau, arlwyo, twristiaeth, gwestai, gwasanaethau proffesiynol, gwasanaethau cyhoeddus a gweinyddiaeth (gan gynnwys ysgolion), a gofal dydd a gofal iechyd yn gyfrifol am 54% o'r ceisiadau. Roedd diwydiant ysgafn a thrwm yn gyfrifol am 12%, swyddfeydd am 6%, a storio a dosbarthu am 5%. Dim ond 3% o'r ceisiadau a oedd yn ymwneud â phrosesu bwyd a chynnyrch amgylcheddol er gwaethaf amlygrwydd y gweithgareddau hyn o fewn arweiniad, er y gallai hyn adlewyrchu'r ffaith mai dim ond yn ddiweddar y gwnaed y symudiad hwn o ran polisi a chefnogaeth amaethyddol o dan y Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru (para 5.26).

- Yn gyffredinol, ceir y cymysgedd mwyaf o ddefnyddiau mewn ardaloedd lled drefol, gydag ardaloedd gwledig hygyrch ac anghysbell yn dangos tuedd mwy tuag at wasanaethau, yn arbennig manwerthu (hygyrch) ac arlwyo (anghysbell) (para 5.28).

- Mae mwyafrif y ceisiadau (77%) yn ymwneud ag ehangu busnesau sy'n bodoli eisoes yn hytrach na busnesau newydd (para 5.32).

- Mewn ardaloedd lled drefol, fel y nodwyd eisoes, mae gweithgaredd economaidd mawr, os nad mwy, yn yr aneddiadau cyfagos o'u cymharu â'r trefi marchnad, wedi'i annog gan ddyraniadau tir mawr ar gyfer datblygu economaidd mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol (para 5.23 a 6.10).

6.38. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn arwyddocaol. Maent yn dangos bod nod polisi cynllunio o ganolbwyntio datblygu economaidd ar aneddiadau mwy ac

ar safleoedd a ddyrannwyd wedi'i adlewyrchu yn realiti ceisiadau cynllunio. Y datblygiad economaidd y deuir ar ei draws mewn aneddiadau gwledig yw amrywiaeth o wasanaethau. Yn ystadegol cymharol brin yw'r gweithgareddau sy'n seiliedig ar dir fel prosesu bwyd a chynnyrch eraill. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio yn ymwneud â busnesau sy'n bodoli eisoes.

### Casgliadau

6.39. Gyda'i gilydd mae'r canfyddiadau ar gynlluniau datblygu, rheoli datblygu a'r manylion ychwanegol o'r ceisiadau cynllunio yn rhoi darlun llawn gwybodaeth o'r sefyllfa bresennol o ran cynllunio a datblygu economaidd gwledig:

- Ar y cyfan, mae polisi fel y rhagwelwyd yn *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf* (1999). Mae ceisiadau cynllunio yn mynd drwy'r broses rheoli datblygu **yn araf** ond heb lawer o anawsterau eraill. Er mwyn cwblhau'r darlun hwn rhaid ychwanegu'r gyfradd weithgaredd gymharol isel ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru wledig. Felly yn gyffredinol mae polisi yn croesawu datblygu economaidd a lle gwneir ceisiadau cânt eu cymeradwyo yn gyffredinol.

- Rôl adweithiol sydd gan y system gynllunio ar y cyfan. Ni weithreda yn erbyn datblygu economaidd ond ni wna lawer i'w annog ychwaith (ac eithrio drwy ddyrannu safleoedd), yn bennaf am na all wneud llawer i gyfeirio datblygiad o'r fath yn absenoldeb pwysau sylweddol am ddatblygu.

- Fodd bynnag, yn bwysig mae'r wybodaeth am y chwe thref farchnad (Pennod 4) yn dangos yn glir gymhlethdodau amrywiol economïau a chymunedau gwahanol drefi marchnad a'u haneddiadau cyfagos.

- Ni lwyddodd yr astudiaeth hon i ddarparu dealltwriaeth fanwl o ddeinamegau'r ardaloedd hyn. Nid oes elfennau pwysig, fel natur cymudo, ar gael. Nid ymchwiliodd unrhyw un o'r cynlluniau datblygu a archwiliwyd yn systemataidd ychwaith i'r cydberthnasau hyn. Dim ond rhai o'r materion perthnasol yr ymdrinnir â hwy o fewn strategaethau datblygu economaidd a dogfennau tebyg (para 3.41). Noda swyddogion cynllunio nad ydynt yn teimlo bod digon o gysylltiad rhyngddynt â'r economi leol a gweithgareddau datblygu economaidd yn eu hardal (para 5.41). Noda swyddogion datblygu economaidd gysylltiadau amrywiol, sy'n aml yn wan, â'u cydweithwyr cynllunio.

6.40. Mewn termau syml, am amrywiaeth o resymau, nid ymddengys fod gan y system gynllunio ddealltwriaeth ddigonol o economïau gwledig Cymru i allu chwarae rhan arwyddocaol wrth lunio ei dyfodol. **Mae effaith y system gynllunio ar ddatblygu economaidd, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn isel**.

6.41. Fodd bynnag, un o brif amcanion yr astudiaeth hon fu ymchwilio i sut y gallai'r system gynllunio chwarae rhan fwy cadarnhaol wrth annog datblygu economaidd er mwyn cynorthwyo wrth gynnal cymunedau gwledig. Atgyfnerthodd *Polisi Cynllunio Cymru (2002)*, a gyhoeddwyd ers dechrau'r astudiaeth hon, yr amcan hwn yn gryf. Felly mae angen rhoi ystyriaeth sylweddol i ddyfodol cynllunio a'r economi wledig.

## CYNLLUNIO A'R ECONOMI WLEDIG: Y DYFODOL

6.42. Fel y trafodir uchod (paragraffau 3.7 – 3.16), mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) yn manylu'n sylweddol ar arweiniad cenedlaethol blaenorol. Ymhelaethir ar bolisi ar gyfer cynaliadwyedd gwledig, gan gydnabod cymhlethdod adnoddau ac anghenion gwledig, a'r gofyniad i integreiddio polisïau yn well.

6.43. Drwy *Polisi Cynllunio Cymru*, ystyrir fod gan gynllunio ran allweddol i'w chwarae wrth hyrwyddo arallgyfeirio gwledig yng Nghymru. Awgrymir y gellid trefnu gwaith i arallgyfeirio'r economi wledig drwy strategaeth datblygu gwledig integredig, wedi'i pharatoi gan yr awdurdod lleol (neu eraill). Eglurir y bydd y datblygiad newydd hwnnw yn ofynnol ledled y rhan fwyaf o Gymru wledig, ac y dylid ei leoli'n bennaf o fewn aneddiadau neu'n gyfagos iddynt, a darperir arweiniad manwl ar gyfer yr economi werdd, clystyrau busnes a thechnoleg a datblygu i ddiwallu anghenion cymdeithasol sefydledig.

6.44. Mae hyn yn newid arwyddocaol ym maes cynllunio gwledig yng Nghymru.

6.45. Un o themâu allweddol canfyddiadau'r astudiaeth hon fu'r diffyg cydlyniad ac integreiddiad rhwng llawer o'r polisïau, y rhaglenni a'r gweithgareddau sydd bellach yn effeithio ar yr economi wledig. At hyn, mae pwysigrwydd deall amrywiaeth eang yr amgylchiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n bodoli ledled Cymru wledig, a seilio polisi a chamau gweithredu ar ddealltwriaeth o'r fath, yn thema gyson. Cytunir yn gyffredinol y dylai egwyddorion cynaliadwyedd fod yn sail i ddatblygu gwledig. Ystyrir fod datblygiad a chyfranogiad cymunedol hefyd yn hanfodol.

6.46. Mae'r adran hon yn trafod y prif faterion sy'n ymwneud â dyfodol cynllunio a'r economi wledig.

6.47. **Strategaethau datblygu gwledig integredig:** Mae ystyried gofynion economaidd, cymdeithasol ac economaidd **gyda'i gilydd** ymhob penderfyniad, gan ddyrannu'r un pwysigrwydd iddynt, yn greiddiol i ddatblygu gwledig integredig. Felly dyma yw prosesau gwaith yr hyn y cytunir arno yn gyffredinol fel cynaliadwyedd gwledig. Rhoddir pwyslais cyfartal ar yr amgylchedd, cymunedau a'r economi a cheisia atebion datblygu ddod o hyd i synergedd rhyngddynt.

6.48. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002), yn ei arweiniad newydd ar gynaliadwyedd gwledig, yn darparu cyd-destun hanfodol, gan bwysleisio amrywiaeth Cymru wledig, amrywiol anghenion trigolion ac ymwelwyr, a'r ffaith bod integreiddio polisïau yn hanfodol er mwyn ymdrin â'r materion hyn. Mae angen cymhwyso'r arweiniad yn lleol.

6.49. Mae'r angen i integreiddio yn amlwg iawn. Yn genedlaethol mae Cymru yn ceisio datblygu cynllun gofodol i gydlynu amrywiaeth eang o weithgareddau ledled Cymru. Mae gan Awdurdod Datblygu Cymru bedair Adran ranbarthol, ceir hefyd bedwar Fforwm Economaidd a Fforwm Cynllunio annibynnol. Mae ELWa yn cynhyrchu strategaethau rhanbarthol a cheir mentrau fel y Pecyn Offer Adfywio Cymunedau sydd hefyd ar waith yn rhanbarthol. Yn fwy lleol, datblygwyd rhaglenni Amcan 1, ac mae Strategaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol wrthi'n cael eu paratoi. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Cwmpesir Cymru wledig gan amrywiaeth enfawr o bolisïau a mentrau. Ond hyd yn hyn nid oes un lle i ystyried yr amrywiol weithgareddau hyn gyda'i gilydd, eu cydlynu a'u dehongli'n fwy lleol, gan adlewyrchu

amgylchiadau lleol - gallai Strategaeth Datblygu Gwledig Integredig (IRDS) gyflawni'r rôl hon.

6.50. Ond ni ddylai paratoi Strategaeth o'r fath ychwanegu'n sylweddol at faich gwaith awdurdodau lleol neu eraill. Ni ddylai fod yn ganlyniad ynddo'i hun ychwaith. Yn hytrach dylai fod yn ffordd o anelu at lawer o wahanol ganlyniadau, gan alluogi i adnoddau sy'n bodoli eisoes gael eu defnyddio'n well. Yn hyn o beth gellid ystyried mai fframwaith a phroses trefnu yw'r IRDS yn hytrach nag adroddiad ysgrifenedig.

6.51. Mewn sawl ffordd dylai IRDS gynnwys llawer o'r hyn y mae awdurdodau lleol ac eraill eisoes yn ei wneud ond gyda phersbectif ychwanegol o gyflwyno integreiddiad a synergedd rhwng polisïau a chamau gweithredu a ystyrir ar wahân ar hyn o bryd. Ni ddylai olygu llawer o waith newydd ond yn hytrach ffyrdd newydd o feddwl am waith sy'n bodoli eisoes. Yn hyn o beth, gellid datblygu IRDS fel rhan o brosesau sy'n bodoli eisoes (fel Strategaeth Gymunedol neu Strategaeth Amcan 1) yn hytrach na dogfen annibynnol ar wahân.

6.52. Dylai elfennau craidd IRDS gynnwys integreiddiad rhwng gwahanol feysydd o ddiddordeb er mwyn bod o fudd i bawb; adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol ymhob penderfyniad; a seilio camau gweithredu ar gyfranogiad cymunedol, perchenogaeth a chyflwyno'n lleol. Yn sylfaenol dylai fod yn **realistig** gydag amcanion cadarn.

6.53. Mae'n briodol hefyd y dylai strategaeth datblygu gwledig integredig wella rôl cynllunio ym maes arallgyfeirio gwledig. Mae cynllunio'r defnydd o dir yn ddisgyblaeth unigryw. Ei nod yw ystyried pob elfen sy'n cyfrannu at ddatblygiad maes yn y dyfodol - tai, cyflogaeth, trafnidiaeth, twristiaeth, cymunedau, etifeddiaeth, yr amgylchedd ac ati - er mwyn pennu strategaeth ar gyfer y dyfodol, dros gyfnod amser cymharol hir. Felly mae'n ymwneud yn sylfaenol â daearyddiaeth gyfredol ardal leol a sut i ddylanwadu arni ar gyfer y dyfodol, gan ymateb i faterion hanfodol fel patrymau amrywiol aneddiadau ledled Cymru wledig a'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd a wynebir gan leoliadau penodol. Un o rolau sylfaenol cynllunio yw bod yn gyfannol, yn strategol, integreiddio a meddu ar bersbectif tymor hwy. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) wedi cydnabod hyn.

6.54. Nid yw hyn yn golygu fod y system gynllunio yn un o'r prif ddulliau ar gyfer cyflwyno datblygu gwledig. At hynny, gallai cynllunio fod yn allweddol wrth sefydlu'r Strategaeth o ran llywio'r dasg o'i chyflwyno ac wedyn chwarae ei ran berthnasol yn y gwaith cyflwyno hwnnw.

6.55. Darperir arweiniad pellach ar baratoi strategaethau datblygu gwledig integredig mewn Atodiad ar wahân.

6.56. **Busnes lleol:** Mae amrywiaeth y busnesau sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad Cymru eisoes yn eang. Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon ac amrywiaeth eang o bolisïau a sylwebaethau yn pwysleisio pwysigrwydd busnesau **sy'n bodoli eisoes** i ddyfodol yr economi wledig (para 2.31). Er bod gan fewnfuddsoddi ran i'w chwarae cytunwyd na ddylai hyn orgysgodi cymorth i fusnesau cynhenid. Ni ddylai'r broses gynllunio ddiystyru pwysigrwydd busnesau lleol sy'n bodoli eisoes sy'n meddu ar

rwydweithiau sefydledig i'r economi **leol** ac sy'n cyflogi pobl leol (gan gymryd bod eu heffaith ar yr amgylchedd yn gadarnhaol).

6.57. Yn gyffredinol ni cheir pwysau i gyflawni datblygiad economaidd ledled Cymru wledig. Felly, mae cwmnïau sydd wedi'u hen sefydlu mewn lleoliad gwledig yn holl bwysig, yn arbennig pan fyddant yn rhan greiddiol o'r economi a'r gymuned leol. Yn aml mae cwmnïau o'r fath yn ymrwymedig i'w lleoliad. Pe byddent yn gadael, gallai'r goblygiadau lleol fod yn ddifrifol. Dylid paratoi polisi a phenderfyniadau cynllunio i gefnogi cwmnïau llwyddiannus mewn ardaloedd gwledig lle ceir hyder bod cwmni yn parhau i gyflwyno manteision i'r ardal leol (para 6.2). Mae achos Gwasg Gomer yn ddiweddar, sef cwmni cyhoeddi ac argraffu yn Llandysul yn enghraifft dda. Er gwaethaf y ffaith eu bod yn y lleoliad strategol 'anghywir', rhoddwyd caniatâd i'r cwmni ehangu yn sylweddol.

6.58. **Cynllunio i ddiwallu anghenion cymdeithasol:** Nid yw'r gofyniad y dylai polisïau a phenderfyniadau cynllunio anelu at fodloni anghenion economaidd a chymdeithasol sefydledig yn newydd ac fe'i cefnogwyd gan arweiniad cenedlaethol ers 1995 (Adran yr Amgylchedd). Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) yn pwysleisio bod hyn yn gofyn am ddadansoddi lleol manwl a chyfredol. Gellir gweithredu'r ffordd hon o feddwl wrth ddatblygu Strategaethau Datblygu Gwledig Integredig.

6.59. **Safleoedd a ddyrannwyd:** Yn draddodiadol bu safleoedd a ddyrannwyd yn elfen greiddiol o gynllunio ar gyfer datblygu economaidd a bydd yn parhau felly ond mae eu lleoliad yn hanfodol. Er enghraifft, bu'r ystadau diwydiannol yn y Bala (para 4.48) a Rhuthun (paragraffau 4.29 – 4.30) yn ganolog wrth gynnal hyfywdra economaidd y cymunedau hyn. Ar y llaw arall, gallai rôl ac ysgogiad dyraniadau tir mawr ar y rhwydwaith ffyrdd strategol fod yn gwbl anghydnaws â'r economi wledig (para 5.23). Mae angen ystyried effaith y dyraniadau hyn ar yr economi wledig ac ar batrymau symud tebygol.

6.60. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) yn atgyfnerthu'r polisi y bydd safleoedd a ddyrannwyd fel arfer o fewn aneddiadau neu'n gyfagos iddynt. Ond nodir hefyd y gallai fod gan rai diwydiannau ofynion tir na ellir eu diwallu o fewn aneddiadau, ac na ddylai diffyg safleoedd a ddyrannwyd fod yn rhwystr i ddatblygiadau economaidd bach.

6.61. Bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y dewis safleoedd a ddyrannwyd sy'n debygol o gyflwyno'r manteision mwyaf yn gyffredinol, a'r rhesymeg dros ddatblygiadau bach oddi ar safleoedd a ddyrannwyd (o fewn aneddiadau, yn gyfagos iddynt a'r tu allan iddynt). Heb ystyriaeth o'r fath, gall safleoedd a ddyrannwyd fethu â denu busnesau ac mewn rhai achosion, gallant sefydlu patrymau symud na ellir eu cynnal.

6.62. **Cyfranogiad a datblygiad cymunedol:** Mae pwysigrwydd cyfranogiad cymunedol wrth lunio strategaethau ac wrth wneud penderfyniadau bellach yn glir (para 2.31), felly hefyd datblygiad cymunedol (sy'n hanfodol ar gyfer datblygu economaidd (para 4.41). Felly mae'n hanfodol sicrhau bod gan gymunedau rôl ganolog wrth benderfynu ar ddyfodol eu hardal wledig.

6.63. **Strategaeth aneddiadau:** Fel y nodwyd ym Mhennod 4, mae pob tref farchnad yn wahanol. Felly ni ddylid cymryd yn ganiataol bod y swyddogaethau gwasanaethu a

ddarperir gan drefi marchnad yr un peth. Mae'n rhaid i bolisi cynllunio ystyried amrywiaeth Cymru wledig. Rhaid ystyried gwahanol rolau'r gwahanol drefi marchnad, sut y gellir meithrin eu heconomi yn y ffordd fwyaf gynaliadwy, a sut y gallant wasanaethu eu cyffiniau gwledig orau, o ran darparu gwasanaethau a chyflogaeth, felly hefyd rolau aneddiadau llai. Yn achos aneddiadau gwledig gwasgaredig gellid dadlau o blaid caniatáu datblygiadau economaidd newydd lle y bydd yn amlwg o fudd i'r economi leol. Lle caiff strategaethau datblygu gwledig integredig eu paratoi dylent roi ystyriaeth fanwl i rolau a chydberthnasau sy'n bodoli eisoes o fewn aneddiadau, a llunio strategaeth aneddiadau ar gyfer y dyfodol yn unol â hyn.

6.64. **Yr economi werdd / clystyrau busnes a thechnoleg:** Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) yn annog symudiad tuag at yr economi werdd lle y gall clystyrau o fusnesau leihau eu heffaith amgylcheddol drwy fesurau fel technolegau llif gwastraff. Mae hefyd yn annog clystyrau busnes a thechnoleg lle y gallai cwmnïau hefyd elwa ar gyd-leoli.

6.65. Ar hyn o bryd, mae'r ddau bolisi yn nodi uchelgeisiau gan mai prin yw'r polisïau ar gyfer datblygiadau o'r fath (para 6.26) neu enghreifftiau o ddatblygiadau o'r fath (para 5.26). O gofio gallu isel tebygol y system gynllunio i sbarduno datblygiadau o'r fath, gallai rôl strategaeth datblygu gwledig integredig wrth annog amcanion polisi o'r fath fod yn ddefnyddiol (para 6.13).

6.66. **Yr economi yn seiliedig ar y tir:** Mae polisi cyfoes yn pwysleisio'r angen i ychwanegu gwerth i gynnyrch sy'n seiliedig ar y tir a lleoleiddio ac integreiddio cyflenwadau. Mae hyn yn greiddiol i ddyfodol ffermio yng Nghymru (para 2.26). Nifer fach o geisiadau cynllunio a wnaed ar gyfer datblygiadau o'r fath hyd yn hyn (para 5.26). Felly unwaith eto dim ond dylanwad bach y gall y system gynllunio ei gael wrth annog datblygu economaidd o'r fath ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, dylai hyn lunio llinyn canolog i unrhyw strategaeth datblygu gwledig integredig. Dylai'r strategaeth nid yn unig ddarparu ar gyfer prosesu lleol (a'r seilwaith angenrheidiol) ond dylai nodi'r cysylltiadau posibl gyda materion rheoli tir ehangach. Er enghraifft, annog perfformiad amgylcheddol gwell o fewn arferion ffermio fel ffordd o ychwanegu gwerth at gynnyrch fferm. Yn hyn o beth gallai strategaethau datblygu gwledig integredig gysylltu â chynigion amaeth-amgylchedd yn y dyfodol.

6.67. Wrth ystyried yr economi yn seiliedig ar y tir, bydd hefyd yn hanfodol ystyried rôl coetiroedd a choedwigaeth a'r potensial i ychwanegu gwerth at gynnyrch coetiroedd. Gallai strategaethau datblygu gwledig integredig hefyd ddarparu cyfiawnhad dros gynigion gwres coed a deudanwydd lle y gellir nodi manteision clir o ran cynaliadwyedd.

6.68. **Twristiaeth:** Mae llawer o strategaethau presennol bellach yn cael eu paratoi sydd YN ceisio ymdrin ag anghenion lleol ac ymateb i amgylchiadau lleol (er enghraifft strategaethau twristiaeth werdd a thwristiaeth ddiwylliannol). Yn naturiol, byddai'r rhain yn darparu mewnbwn canolog i strategaeth datblygu gwledig integredig, gan ganiatáu i'r cysylltiadau a'r synergeddau â'r economi wledig ehangach a mesurau cadwraeth gael eu deall a'u datblygu i'r eithaf.

6.69. **Band eang a TGCh**: Pwysleisiwyd fod band eang a TGCh yn hanfodol i ddyfodol Cymru wledig. Ond ni ellir cyflenwi Band Eang mewn modd darbodus i rannau mawr o gefn gwlad (para 2.22). Mae ymagwedd strategol tuag at ddefnyddio Band Eang a

TGCh yn hanfodol. Byddai mewnbwn cyfannol y system gynllunio i strategaethau datblygu gwledig integredig yn hanfodol wrth lywio manylion strategaeth o'r fath a thywys agweddau ar y broses o'i gweithredu.

6.70. **Diwylliant cynllunio:** Mae cysylltiadau rhwng swyddogion cynlluniau datblygu, datblygu economaidd, a chydweithwyr o fewn asiantaethau datblygu yn amrywiol, felly hefyd gysylltiadau â'r gymuned leol (para 3.43). Yn aml mae swyddogion rheoli datblygu yn teimlo nad ydynt yn gwybod digon am eu heconomi leol, nac am weithgareddau ym maes datblygu economaidd a gweithgareddau cydweithwyr o fewn asiantaethau datblygu (para 5.14).

6.71. Fel y nodwyd eisoes, ar hyn o bryd cyfyngedig yw rôl y system gynllunio ym maes datblygu economaidd gwledig ond mae'r potensial ganddi i fod yn arwyddocaol, yn arbennig drwy ddefnydd ehangach o strategaethau datblygu gwledig integredig.

6.72. Yn ategu ac yn gysylltiedig â defnyddio strategaethau o'r fath mae'r angen am newid yn y diwylliant cynllunio, lle y ceir llawer mwy o gyswllt rhwng cynllunwyr a'r rhanddeiliaid eraill hynny sy'n ymwneud â dyfodol ardaloedd gwledig. Dylai polisïau, rhaglenni a chamau gweithredu ymwneud yn llawer gwell â'i gilydd a chael eu cydlynu'n llawer gwell. O ganlyniad, ym maes rheoli datblygu yn arbennig, dylai swyddogion allu bod yn llai ceidwadol. Mae trafodaethau cyn gwneud cais ac arwyddion cynharach o ran pa mor dderbyniol y mae cynigion yn bryderon busnes allweddol a dylent helpu i gyflymu'r broses.

6.73. Yn ddiau, mae ymagwedd o'r fath tuag at ddatblygu gwledig integredig yn gofyn am ymrwymiad cynaliadwy ac mae perygl iddi fethu oni chaiff ei chynnal yn briodol ac y darperir adnoddau priodol ar ei chyfer, o fewn adrannau cynllunio ac mewn lleoliadau eraill.

6.74. **Hyblygrwydd:** Un g□yn a geir gan fusnesau gwledig yw nad yw'r system gynllunio yn ddigon hyblyg (para 5.9). Mae dwy ffordd o ystyried hyblygrwydd. Yn gyntaf, gallai mwy o hyblygrwydd olygu llacio rheolaethau cynllunio. Prin yw'r dystiolaeth yn yr astudiaeth hon sy'n dangos bod y rheolaethau cynllunio ar gyfer datblygu economaidd gwledig yn rhy gaeth. Gallai llacio polisi hefyd arwain at ddatblygiadau niweidiol.

6.75. Yr ail ddehongliad o hyblygrwydd yw'r angen i bolisi a phenderfyniadau cynllunio roi mwy o ystyriaeth i amgylchiadau lleol ac amgylchiadau busnesau unigol. Un o egwyddorion allweddol y system gynllunio yw y dylai pob achos gael ei ystyried ar ei rinweddau. Serch hynny, mewn perthynas â datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig, gellid gweithredu mwy o hyblygrwydd. Gan feddu ar ddealltwriaeth well o'r economi, busnesau a chymunedau lleol, gallai cynllunwyr fanteisio ar eu hyder i fod yn fwy hyblyg lle bo cynnig yn amlwg yn bodloni amcanion cynaliadwyedd ehangach.

6.76. **Newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd:** Fel rhan o'r astudiaeth hon, ystyriwyd nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth eilaidd a fyddai'n effeithio ar ddatblygu economaidd gwledig.

6.77. Cyflwynwyd cynnig ers peth amser y byddai dosbarthiad defnydd busnes gwledig o gymorth i arallgyfeirio gwledig. Gwrthododd ymchwil gynharach yr awgrym hwn (LUC 2001). Felly hefyd yr astudiaeth hon. Prin yw'r dystiolaeth bod angen mesur o'r fath gan nad yw'r system gynllunio ar hyn o bryd yn cyfyngu datblygu economaidd

gwledig yn ormodol (paragraffau 6.27, 6.35). Byddai dosbarthiad defnydd busnes gwledig yn ymagwedd gyffredinol sy'n groes i ganfyddiad canolog y gwaith hwn sef bod angen ymagweddau sy'n gwahaniaethu'n fwy i gyfateb ag amgylchiadau lleol (para 6.45).

6.78. Mae *Cynllunio: Cyflwyno i Gymru* (2002) yn gofyn am safbwyntiau o ran pa un a allai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol i ddiwygio Hawliau Datblygu a Ganiateir (gan gynnwys ar gyfer datblygu economaidd) a pha un a ddylid sefydlu Parthau Cynllunio Busnes. Mae'r ddau yn fesur o ddadreoleiddio wedi'u cynllunio i annog datblygu economaidd. Gan mai un o ganfyddiadau'r astudiaeth hon oedd mai anaml y mae'r system gynllunio yn rhwystr i ddatblygu economaidd yng nghefn gwlad mae'r angen am y naill fesur mewn ardaloedd gwledig yn annhebygol. Yn gyffredinol nid argymhellir Gorchmynion Datblygu Lleol na Pharthau Cynllunio Busnes.

6.79. **Casgliad:** Dylid datblygu rôl y system gynllunio wrth ddatblygu'r economi wledig ymhellach. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) yn cydnabod hyn ac yn nodi heriau polisi sylweddol ar gyfer dyfodol y system gynllunio a'r economi wledig. Mae ffyrdd cyflawnadwy o ymateb i'r heriau hyn, fel y nodir uchod. Mae llunio strategaeth datblygu gwledig integredig yn ffordd ddefnyddiol o drefnu a thywys ffordd o feddwl ar y lefel leol. Dylai manteision ymagwedd o'r fath fod yn sylweddol i'r economi wledig ac i'r system gynllunio.

# 7. ARGYMHELLION

7.1. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon a'r drafodaeth a gynhaliwyd cyn dechrau ar y gwaith, gwneir argymhellion ar rôl y system gynllunio wrth annog arallgyfeirio'r economi wledig mewn ffordd gynaliadwy.

7.2. Bu ffocws y gwaith ymchwil hwn ar ddatblygu economaidd mewn aneddiadau gwledig yng Nghymru ac yn eu cyffiniau. Nid ystyriodd arallgyfeirio ar ffermydd fel y cyfryw gan i'r maes hwn gael ei ystyried mewn astudiaeth ar wahân.

7.3. Trefnir yr argymhellion o dan y penawdau canlynol:

- deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd
- arweiniad cenedlaethol a chodi ymwybyddiaeth
- arweiniad lleol
- gweithdrefnau lleol
- gwaith ymchwil pellach

7.4. Cyflwynwyd cynigion arwyddocaol ar gyfer newid y system gynllunio yng Nghymru yn y Papur Gwyrdd *Planning: Delivering for Wales* (2002). Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud yn dilyn y cynigion hyn. Felly gwneir yr argymhellion ar sail y trefniadau cyfredol oni bai bod elfennau o *Planning: Delivering for Wales* (2002) yn berthnasol.

## DEDDFWRIAETH SYLFAENOL AC EILAIDD

7.5. Nid argymhellir unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd.

7.6. **Argymhelliad 1: Mae angen paratoi cynlluniau datblygu yn gynnar er mwyn cysylltu â chynlluniau a strategaethau eraill.** Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau bod cynlluniau datblygu statudol yn adlewyrchu arweiniad cenedlaethol ac amgylchiadau cyfredol, a'u bod wedi'u cysylltu â strategaethau a chynlluniau eraill a gyhoeddir (para 3.2). Mae cynlluniau datblygu a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd hefyd yn hanfodol er mwyn gwella sicrwydd a phennu cyfeiriad cyffredinol. Dylid ategu'r gwaith o'u paratoi â rhaglen ar gyfer gwaith manylach unwaith y bydd y cynllun wedi'i fabwysiadu, i ddatblygu polisïau ac i helpu i lywio cyd-destun camau gweithredu unigol. Cynigia'r Papur Gwyrdd *Planning: Delivering for Wales* (2002) y dylid adolygu cynlluniau o leiaf bob pum mlynedd yn y dyfodol. Byddai hyn o gymorth mawr wrth sicrhau bod polisïau sy'n ymdrin â'r economi wledig yn fwy cyfredol.

## ARWEINIAD CENEDLAETHOL A CHODI YMWYBYDDIAETH

7.7. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (2002) yn newydd iawn. Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn ategu'r newidiadau niferus a gyflwynwyd o ran polisi ar gyfer yr economi wledig. Yn unol â hyn nid argymhellir newidiadau sylweddol i arweiniad cenedlaethol ac mae'r argymhellion isod yn tybio y caiff egwyddorion cyffredinol *Polisi Cynllunio Cymru* eu

dilyn. Felly mae'r argymhellion canlynol yn ymdrin â phwyntiau o ran manylder ychwanegol.

7.8. **Argymhelliad 2: Dylai Cynllun Gofodol Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol ymdrin â datblygu gwledig integredig**. Mae datblygu gwledig integredig yn bryder cenedlaethol yn ogystal â phryder lleol. Er ei bod yn briodol mai ar lefel leol y dylid gwneud llawer o'r gwaith ar ddatblygu gwledig integredig mae angen fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu gwledig integredig. Dylai Cynllun Gofodol Cymru ddarparu persbectif cenedlaethol ar gyfer datblygu gwledig integredig. Mae hyn yn adlewyrchu *Argymhelliad 4* o *Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio* (2001), a nododd yr angen am fframwaith trawsbynciol ar gyfer pob polisi a cham gweithredu a oedd yn ymwneud â datblygu gwledig integredig.

7.9. Yn ogystal, mae angen arweiniad clir ar baratoi strategaethau datblygu gwledig integredig. Er bod llawer o elfennau strategaethau datblygu gwledig integredig lleol eisoes ar waith, bydd llunio strategaeth o'r fath yn ymdrech newydd i lawer o awdurdodau. Dylai TAN 6 roi arweiniad clir ar baratoi strategaethau datblygu gwledig integredig (para 6.47 – 6.55).

7.10. **Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol reoli'r broses o baratoi a defnyddio strategaethau datblygu gwledig integredig, gan gynnwys y goblygiadau o ran adnoddau.** Er mwyn bodloni'r agenda newydd ar gyfer yr economi wledig a'r system gynllunio bydd angen cymorth ac adnoddau digonol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae *Planning: Delivering for Wales* (2002) wrthi'n ystyried effeithiolrwydd y system gynllunio yng Nghymru a'r adnoddau a ddyrennir iddi (para 6.47 – 6.55).

7.11. **Argymhelliad 4: Wrth i strategaethau datblygu gwledig integredig gael eu datblygu ledled Cymru, dylai Llywodraeth y Cynulliad:**

- **monitro datblygiad y strategaethau a darparu adnodd o strategaethau wedi'u cwblhau a dogfennau cysylltiedig ar y we.** Mae gan strategaethau datblygu gwledig integredig y potensial i ddylanwadu'n sylweddol ar ddatblygu Cymru wledig yn y dyfodol, ond maent hefyd yn golygu y bydd angen newid polisi a ffyrdd o weithredu i ryw raddau (para 6.47 - 6.55). Byddai adnodd hygyrch o strategaethau a deunyddiau cysylltiedig yn ddefnyddiol nid yn unig ar gyfer awdurdodau lleol ond ar gyfer pob un arall sy'n ymwneud â datblygu gwledig integredig.

- **darparu asesiad rheolaidd o'r gwaith ar strategaethau datblygu gwledig integredig gan ddiweddaru polisi ac arweiniad cenedlaethol yn unol â hynny.** Mae'n bwysig y dylai gwaith cenedlaethol a lleol ar ddatblygu gwledig integredig ddylanwadu ar ei gilydd ac esblygu yn unol â hynny.

7.12. **Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth y Cynulliad annog pob cynllun a strategaeth sy'n cael eu paratoi ar gyfer ardaloedd gwledig i ystyried yr angen am feddwl integredig.** Erbyn hyn mae amrywiaeth eang o strategaethau a chamau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith mewn ardaloedd gwledig. Mae'n bwysig eu hystyried o fewn cyd-destun ehangach er mwyn sicrhau na fydd y camau

gweithredu sy'n deillio yn effeithio'n andwyol ar feysydd eraill o ddiddordeb (paragraffau 2.31, 6.47, 6.49).

7.13. **Argymhelliad 6: Mae angen arweiniad pellach ar yr economi werdd a chlystyrau busnes a thechnoleg mewn diwygiad o TAN 6.** Mae'r cysyniadau hyn yn gysyniadau cymharol newydd ac mae'n bosibl na fydd eu nodweddion a'r amrywiaeth o weithgareddau a gwmpesir ganddynt yn glir. Byddai trosolwg syml o'r nodweddion allweddol a rhai enghreifftiau yn ddefnyddiol iawn i awdurdodau lleol (para 6.64 – 6.65).

7.14. **Argymhelliad 7: Dylai cynrychiolwyr cenedlaethol o'r gymuned ffermio nodi'r anghenion tebygol o ran datblygu ar gyfer ychwanegu gwrth at gynnyrch fferm.** Byddai awdurdodau cynllunio lleol yn elwa ar syniad o'r goblygiadau cynllunio tebygol a fydd yn deilio o brosesu bwyd a dulliau eraill o ychwanegu gwerth i gynnyrch sy'n seiliedig ar y tir er mwyn gallu ystyried hyn wrth adolygu polisïau cynlluniau datblygu yn y dyfodol. Hyd yn hyn ni wnaed digon o waith datblygu o'r math hwn i fwyafrif yr ACLl fod yn ymwybodol o'r goblygiadau cynllunio (ac isadeiledd arall) posibl (para 6.66). Byddai'n ddefnyddiol pe gallai CLA, NFU Cymru, FUW, Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio'r Cynulliad, a Chyswllt Ffermio, gydweithio i baratoi arweiniad o'r fath.

7.15. **Argymhelliad 8: Dylai'r RTPI/CLILC gynnal cyfres o weithdai rhanbarthol ar ddatblygu gwledig integredig ar gyfer y gymuned gynllunio.** Mae'r argymhelliad hwn yn adeiladu ar *Argymhelliad 13* yn *Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio* (2001). Drwy gyfres o sesiynau wedi'u hwyluso y nod fyddai codi ymwybyddiaeth o anghenion datblygu gwledig integredig, trafod y materion gofodol a allai godi a'r goblygiadau polisi posibl ar gyfer gwahanol fathau o anheddiad, ac archwilio'r rôl bro-actif y gall cynllunio ei chwarae. Bydd hyn yn bwysig fel rhan o gyfres ehangach o weithgareddau i newid diwylliant cynllunio er mwyn cefnogi datblygu gwledig integredig (para 6.70 – 6.73).

7.16. **Argymhelliad 9: Dylai'r RTPI/CLILC hyrwyddo rôl bro-actif cynllunio wrth arallgyfeirio'r economi wledig** (paragraffau 6.40, 6.70 –6.73). Gallai hyn fod drwy weithgareddau fel erthyglau, taflenni drwy'r post i aelodau, a nodi enghreifftiau o arfer gorau.

7.17. **Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth y Cynulliad amlygu Ansawdd Bywyd cymaint â CMC fel dangosydd o hyfywdra a chynaliadwyedd cymunedau ac economïau gwledig** (para 6.14). Er ei fod yn fwy anodd i'w fesur, mae Ansawdd Bywyd yn greiddiol i gynnal hyfywdra cymunedau gwledig ac awgryma y gallai mesurau boddhad a bodlonrwydd fod yr un mor bwysig â mesurau sy'n ymwneud â CMC.

## ARWEINIAD LLEOL

7.18. **Argymhelliad 11: Dylai awdurdodau lleol ystyried paratoi strategaeth datblygu gwledig integredig i dywys a chydlynu polisi, rhaglenni a phenderfyniadau sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig.** Mewn sawl achos, gallai'r gwaith o baratoi strategaeth o'r fath gysylltu â mentrau sy'n bodoli eisoes er mwyn lleihau'r baich gwaith ychwanegol i'r eithaf. Mae paragraffau 6.47 – 6.55 yn trafod rôl a natur strategaethau datblygu gwledig integredig a'r angen i gydlynu'r

amrywiaeth o bolisïau a mentrau sydd ar waith yng Nghymru wledig ar hyn o bryd yn well. Gallai strategaethau datblygu gwledig integredig chwarae rhan bwysig yn natblygiad Cymru wledig yn y dyfodol, o ran pennu gweledigaeth integredig ar gyfer cynaliadwyedd gwledig lleol a threfnu'r gwaith sydd ei angen er mwyn ei chyflawni. Gallai'r system gynllunio chwarae rhan ganolog wrth lunio'r strategaethau hyn a bydd yn gallu chwarae rhan bro-actif wrth eu cyflwyno.

7.19. **Argymhelliad 12: Dylai awdurdodau cynllunio lleol seilio eu polisïau ar gyfer eu hardaloedd gwledig ar ddealltwriaeth glir o amgylchiadau lleol.** Mae ardaloedd gwledig yn amrywiol o ran eu cymeriad ac mae patrymau aneddiadau yn wahanol. O ganlyniad, er mwyn i ddatblygu gwledig integredig gyflwyno buddiannau parhaus ac er mwyn iddo fod yn gynaliadwy, rhaid ei deilwra i'r ardal leol (paragraffau 6.19 – 6.20, 6.40, 6.45).

7.20. **Argymhelliad 13: Dylai polisïau cynlluniau datblygu ar gyfer arallgyfeirio gwledig fod yn seiliedig ar feini prawf.** Mae'r polisïau newydd yn *Polisi Cynllunio Cymru* (2002), a chanfyddiadau'r astudiaeth hon yn awgrymu y bydd angen cynyddu cwmpas a manylder polisïau yn seiliedig ar feini prawf ar gyfer yr economi wledig a materion cysylltiedig. Ni all yr astudiaeth hon wneud argymhellion manwl o ran ffurf polisïau o'r fath gan y byddant o reidrwydd yn amrywio o le i le yn ôl y gwahanol flaenoriaethau datblygu sy'n deillio o'r strategaeth datblygu gwledig integredig.

7.21. Yn hytrach awgrymir yr elfennau y dylai polisïau cynlluniau datblygu eu cwmpasu gyda sylwebaeth ar y materion cysylltiedig.

**Yr economi wledig: elfennau ar gyfer polisïau cynlluniau datblygu**

| | |
|---|---|
| Strategaeth | *Gan dynnu ar y strategaeth datblygu gwledig integredig (os yw wedi'i pharatoi), dylai'r polisi nodi'r strategaeth defnydd tir ar gyfer datblygu economaidd gwledig, gan nodi sut y mae'r strategaeth yn adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau lleol.*<br><br>*Dylai fod dimensiwn gofodol a dimensiwn sectoraidd i'r strategaeth. Yn ofodol, dylid nodi'r lleoliadau ar gyfer datblygiadau mawr a safleoedd a ddyrannwyd, ac egluro'r ymagwedd tuag at ddatblygu mewn gwahanol rannau o ardal y cynllun. Dylai hyn gynnwys strategaeth aneddiadau. Yn sectoraidd, dylid datgan yr amrywiaeth o gyflogaeth sydd ei hangen, a sut y gallai hyn amrywio ar draws yr ardal. Yn arbennig dylai'r ystyriaeth i'r cymysgedd cyflogaeth sydd ei angen fod yn eang, gan gynnwys diwydiannau sy'n seiliedig ar y tir, busnesau lleol, mewnfuddsoddi, rôl TGCh a'r rhwydwaith Band Eang, gweithio llawn amser, gweithio rhan amser, gweithio hyblyg a gweithio o gartref.*<br><br>*Yn y ddau achos, dylid egluro'n glir sut y bwriedir i'r safleoedd a ddewisir, amrywiad daearyddol yr ymagwedd, a chymysgeddau cyflogaeth ddiwallu anghenion hysbys.*<br><br>*Dylai cynlluniau gynnwys datganiadau cyswllt clir â strategaethau a rhaglenni eraill.* |

| | |
|---|---|
| *Mae'r elfennau canlynol, yn eu hanfod, yn elfennau o strategaeth gyffredinol. Ymdrinnir â hwy yn unigol er mwyn eglurder.* | |
| Yr economi werdd | *Fel y trafodwyd uchod, mae angen arweiniad pellach ar yr economi werdd. Dylai polisi nodi'r meini prawf ar gyfer yr agweddau ar yr economi werdd sydd eu hangen yn lleol.* |
| Clystyrau busnes | *Fel y trafodwyd uchod, mae angen arweiniad pellach ar glystyrau busnes a thechnoleg, gan gynnwys Technia. Dylai polisi nodi'r meini prawf lleol ar gyfer clystyrau, gan gynnwys eu lleoliad.* |
| Gweithgaredd yn seiliedig ar y tir | *Dylai polisi nodi amcanion ar gyfer ychwanegu gwerth at yr economi yn seiliedig ar y tir ac ar gyfer atgyfnerthu cysylltiadau â hi, a meini prawf ar gyfer datblygiadau cysylltiedig.* |
| Cymuned | *Dylai polisi nodi amcanion ar gyfer datblygu cymunedol a meini prawf ar gyfer datblygu i gynorthwyo'r broses.* |
| Busnes lleol | *Dylai polisi ymdrin yn glir â busnesau lleol sy'n bodoli eisoes a'r meini prawf i'w cymhwyso ar gyfer eu datblygu. Dylid egluro'r amgylchiadau lle y gellid cymryd ymagwedd fwy hyblyg tuag at ddatblygiad gan fusnes lleol neu ar gyfer menter newydd.* |
| Mewnfuddsoddi | *Dylai polisi nodi amcanion ar gyfer mewnfuddsoddi yn seiliedig ar yr anghenion y bwriedir iddo eu diwallu, a phennu meini prawf ar gyfer datblygu yn unol â hynny.* |
| Safleoedd a ddyrannwyd | *Lle caiff safleoedd eu dyrannu dylid pennu meini prawf ar gyfer datblygu ar y safle sy'n adlewyrchu'r anghenion y bwriedir i'r safle eu diwallu.* |
| *Yn ogystal â materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygu economaidd gwledig, ceir hefyd faterion sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o ddatblygu y mae angen eu hystyried.* | |
| Dylunio ac amwynder | *Dylai polisi adlewyrchu'r angen i gynnal ansawdd yr amgylchedd gwledig, yn arbennig gan ei fod yn ased economaidd sylfaenol. Dylai meini prawf sicrhau na chaniateir datblygiad a fyddai, drwy ei ddyluniad neu ei effeithiau ar amwynder lleol, yn effeithio'n andwyol ar gymeriad cefn gwlad* (Para 2.47). |
| Traffig | *Dylid ymdrin â lleihau'r angen i deithio drwy ddefnyddio ceir preifat ac annog y defnydd o ddulliau eraill yn y strategaeth datblygu gwledig integredig a'i adlewyrchu yn y polisïau ar gyfer datblygu economaidd gwledig a'u hamrywiol elfennau lleoliadol.*<br>*Dylai polisi hefyd adlewyrchu'r ffaith y gall cynhyrchu traffig, o dan rai amgylchiadau, gael effaith andwyol ar gymeriad cefn gwlad ac ni ddylid ei ganiatáu, er na fydd o reidrwydd yn cyfaddawdu diogelwch priffyrdd.* |

7.22. **Argymhelliad 14: Dylai polisïau (a phenderfyniadau) lleol ystyried arallgyfeirio gwledig sy'n ymwneud â chynnyrch coedwigaeth yn yr un ffordd ag arallgyfeirio gwledig sy'n ymwneud â chynnyrch amaethyddol**. Ymhlith rhai gweithwyr coedwigaeth ceir amgyffrediad na rydd y system gynllunio ystyriaeth mor ffafriol i weithgareddau arallgyfeirio coetiroedd a choedwigaeth o'u cymharu â gweithgareddau arallgyfeirio ar ffermydd. Dylai awdurdodau lleol egluro yn eu polisïau (a'u penderfyniadau) y rhoddir cefnogaeth gyfartal i weithgareddau arallgyfeirio amaethyddol a gweithgareddau arallgyfeirio coedwigaeth, er nad yw gweithgareddau o'r fath fel arfer yn darparu cyfiawnhad dros ddatblygiad preswyl

newydd yng nghefn gwlad agored o dan arweiniad cynllunio cenedlaethol cyfredol (para 2.48).

## GWEITHDREFNAU LLEOL

7.23. **Argymhelliad 15: Gallai awdurdodau lleol ystyried sefydlu ffora i roi cyngor ar ddyfodol economïau gwledig lleol.** Nid yw cynllunwyr, swyddogion datblygu economaidd a'u cydweithwyr o fewn asiantaethau, busnesau lleol a grwpiau cymunedol a phartïon eraill sydd â diddordeb yn cyfathrebu digon. Dylai ffora o'r fath gynorthwyo wrth nodi anghenion lleol a'r polisïau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i ymdrin â hwy (para 3.46 – 3.47, 6.62).

7.24. **Argymhelliad 16: Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod cyswllt rheolaidd rhwng gwahanol adrannau ac isadrannau'r awdurdod sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ag arallgyfeirio'r economi wledig.** Yn gyffredinol ymddengys mai cymharol brin yw'r cyswllt rhwng gwahanol adrannau ac isadrannau'r awdurdodau lleol sy'n ymwneud ag arallgyfeirio gwledig. Mae'n arbennig o bwysig sicrhau cyswllt rhwng blaengynllunio, rheoli datblygu, datblygu economaidd a'r rheini sy'n gyfrifol am ddatblygu Strategaethau Cymunedol o fewn awdurdodau lleol unigol, er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cymryd ymagwedd bro-actif tuag at arallgyfeirio gwledig o fewn cymunedau unigol (paragraffau 3.43, 3.46, 6.72).

7.25. **Argymhelliad 17: Dylid penodi swyddogion rheoli datblygu gyda chefndir neu hyfforddiant ym maes datblygu economaidd gwledig i ymdrin â cheisiadau ar gyfer datblygu economaidd.** Nid yw ceisiadau datblygu economaidd gwledig yn cynrychioli cyfran uchel o faich gwaith awdurdodau lleol. Serch hynny, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn cael cyngor arbenigol. Felly gellid penodi swyddogion hyfforddedig penodol i ymdrin â cheisiadau datblygu economaidd (para 5.14). Dylent hefyd fod yn barod i gyfeirio ymgeiswyr i ffynonellau eraill o gyngor a chymorth, gan gyflawni elfen o 'siop un cam'.

7.26. **Argymhelliad 18: Dylid sicrhau bod cyngor ar gael yn hawdd cyn gwneud cais. Dylid cofnodi unrhyw gyngor a roddir cyn gwneud cais.** Mae cyngor cyn gwneud cais yn bwysig iawn i ymgeiswyr. Dylid ei gofnodi er mwyn sicrhau cysondeb yn y broses gynllunio (paragraffau. 5.3 – 5.5).

7.27. **Argymhelliad 19: Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cynhyrchu rhestr wirio ar gyfer datblygu economaidd er mwyn caniatáu i ymgeiswyr gael argraff gynnar o'r gofynion ar gyfer datblygu o'r fath**. Gallai ymagwedd o'r fath helpu i gyflymu'r broses gwneud cais, gan sicrhau bod y ceisiadau a gyflwynir yn bodloni disgwyliadau'r awdurdod cynllunio lleol (para 5.17)

7.28. Dylai'r rhestr wirio ddarparu esboniad syml o'r ystyriaethau ar gyfer ymgeiswyr ar gyfer datblygu economaidd gwledig. Dylai'r rhestr wirio dynnu ar bolisïau'r cynllun datblygu a dylent gynnwys gofynion o ran lleoli, mathau penodol o ddatblygiad a anogir ac anghenion lleol i'w diwallu, a gofynion manylach ar gyfer datblygu fel dylunio a materion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth.

## GWAITH YMCHWIL PELLACH

7.29. **Argymhelliad 20: Dylid gwneud gwaith ymchwil i rolau trefi marchnad yng Nghymru yn yr oes sydd ohoni ac yn y dyfodol.** Nid oes dealltwriaeth dda o rolau a deinamegau cyfoes trefi marchnad yng Nghymru. Dim ond rhywfaint o oleuni y mae'r astudiaeth hon wedi gallu ei roi. Mae'n amlwg yr ystyrir fod trefi marchnad yn ganolbwynt i fywyd gwledig gan lawer o bolisïau cyfredol. Mae angen ymchwilio, o bersbectif cenedlaethol ac yn fanylach, pa ran y mae trefi marchnad yn ei chwarae mewn gwirionedd mewn ardaloedd gwledig, y gydberthynas rhyngddynt â'u cyffiniau, â'i gilydd, ac ag ardaloedd trefol, a sut y mae hyn yn amrywio ledled Cymru. Dim ond o sail o'r fath y gellir ystyried eu rôl ar gyfer y dyfodol yn briodol a datblygu'r rôl honno.

7.30. **Argymhelliad 21: Dylid gwneud gwaith ymchwil i natur cymudo yng Nghymru wledig.** Unwaith y bydd dadansoddiad Teithio i'r Gwaith Cyfrifiad Cenedlaethol 2001 ar gael, dylid cynnal asesiad o ran pa mor ddefnyddiol y mae wrth ddisgrifio patrymau cymudo gwledig. Nododd canfyddiadau'r astudiaeth hon fod patrymau cymudo gwledig yn arwyddocaol, yn gymhleth, a'u bod yn amrywio o le i le (ee paragraffau. 4.21 – 4.22). Mae deall natur cymudo mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol er mwyn deall yr economi wledig a chynaliadwyedd. Os na fydd canlyniadau'r Cyfrifiad yn darparu digon o fanylion bydd angen gwaith ymchwil manwl er mwyn datblygu dealltwriaeth well o gymudo gwledig. Yn arbennig: patrymau cymudo sy'n ymwneud â gwahanol fathau o leoliad a gwahanol fathau o ddatblygu economaidd gwledig (gweithgaredd a graddfa economaidd); a goblygiadau tebygol TGCh ar gymudo.

7.31. **Argymhelliad 22: Dylid gwneud gwaith ymchwil i effeithiau datblygu ar safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth wledig.** Ymddengys fod effeithiau safleoedd a ddyrannwyd yn amrywiol iawn ac mae'r ddealltwriaeth ohonynt yn wael (paragraffau 3.39, 5.24). Mae angen gwaith ymchwil i ymchwilio i natur y cwmnïau a gaiff eu denu i'r safleoedd, eu cyflogeion, eu heffeithiau ar aneddiadau ac economïau lleol, a sut mae'r materion hyn yn amrywio o le i le (gan gynnwys beth sy'n gwneud rhai safleoedd yn llwyddiannus ac eraill yn aflwyddiannus).

7.32. **Argymhelliad 23: Mae angen dealltwriaeth well o ddyfodol gweithio o gartref i'r economi wledig.** O'r astudiaeth hon, ymddengys fod amrywiol lefelau o weithio o gartref ar draws gwahanol fathau o anheddiad (Pennod 4). Mae angen gwaith ymchwil pellach er mwyn deall pa un a yw'n llawn amser neu'n rhan amser; pa weithgareddau a gwmpesir ganddo; ei gynnwys; y cyfraniad a wna i'r economi wledig; ei botensial o ran twf; a beth sydd ei angen i'w helpu i dyfu, gan gydnabod bod ganddo'r potensial i gynrychioli ffurf cynaliadwy iawn ar ddatblygu economaidd.

7.33. **Argymhelliad 24: Dylid gwneud gwaith ymchwil i'r gydberthynas rhwng yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru a'r system gynllunio yng Nghymru wledig.** Mae TAN 20 yn ei gwneud yn ofynnol i bolisïau a phenderfyniadau cynllunio ystyried yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae materion o'r fath yn arbennig o bwysig yng Nghymru wledig. Canfu'r astudiaeth hon dystiolaeth gyfyngedig a chymysg

am effeithiau'r polisi hwn. Mae angen ymchwilio'n fanylach i'r effeithiau hyn. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu comisiynu gwaith ymchwil i ymdrin â'r materion hyn ar gyfer y cyfnod 2002/3.

Land Use Consultants a Phrifysgol Gorllewin Lloegr
Gorffennaf 2002

# LLYFRYDDIAETH

## LLYFRYDDIAETH


Aigar E (2001) *Picture of Ruthin from Denbigh Road,* Siambr Fasnach Rhuthun.
Annabel Jackson Associates (Chwefror 2001) *Evaluation and Monitoring of the Small Towns and Villages Enterprise Initiative, Year One Evaluation*, Adroddiad i Awdurdod Datblygu Cymru.
Cymdeithas Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Hydref 2000) *National Parks in England and Wales: Approaching a Model of Sustainable Rural Development,* Compendiwm o Ragoriaeth o ran Gweithgareddau Datblygu Gwledig ac Amaeth-Amgylchedd, ANPA, d/o Awdurdod Parc Northumberland.
Banks J a Marsden T (2000) '*Integrating Agri-Environment Policy Farming Systems and Rural Development: Tir Cymen in Wales*' *Sociologia Ruralis* 40, 4, tud 466-480.
Bateman D a Ray C (1994) '*Farm Pluriactivity and Rural Policy: Some Evidence from Wales*', *Journal of Rural Studies,* Cyfrol 10, Rhif 1, tud 1-13.
Boland P a Lovering J (2001) '*Regional Development Agencies: The Experience of Wales*' Pennod 5 yn Bentley G a Gibney J (golygyddion) *Regional Development Agencies and Business Change,* Ashgate.
Bristow G (2000) 'Structure, Strategy and Space, Issues of Progressing Integrated Rural Development in Wales', *European Urban and Regional Studies* 7 (1) tud 19-23.
Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig (2000) *Towards a Sustainable Rural Economy*, Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig, Llundain.
Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig (2001) *Rural Regeneration, a policy framework for business diversification*, Cymdeithas Tir a Busnes Gwledig, Llundain.
Fforwm Corfforaethol y Parciau Cenedlaethol (Chwefror 2002) *Declarations of Commitment to National Parks*, CNC, Llundain.
Cyngor Cefn Gwlad Cymru (2001) *Gwell Cymru: amgylchedd naturiol Cymru yn 2010*, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Caerdydd.
Adran yr Amgylchedd (1995), *Planning for Rural Diversification*, Llyfrfa EM, Llundain.
Adran yr Amgylchedd (1995), *Planning for Rural Diversification: a Best Practice Guide*, Llyfrfa EM, Llundain.
Douwe van der Ploeg J, Renting H, Brunori G, Knickel K, Mannion J, Marsden T, de Roest K, Sevilla-Guzman E, Ventura F (2000) 'Rural Development: From Practices and Policies towards Theory' *Sociologia Ruralis* 40, 4, tud 391-408.
Cyngor Gwynedd (2001) *Strategaeth Datblygu Economaidd Gwynedd 2002 - 2006*
Huggins R (2001) 'The Skills Economy and its Development: Examples and Lessons from a Rural Region', *Policy Studies*, Cyfrol 22, Rhif 1, tud 20-34
Athrofa Astudiaethau Gwledig a'r Ysgol Rheoli a Busnes, Prifysgol Cymru, Aberystwyth (2001) *The Implications of Foot ad Mouth Disease on Agricultural Re-structuring in Wales,* Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Keeble D a Tyler P (1995) '*Enterprising Behaviour and the Urban-Rural Shift*', *Urban Studies*, Cyfrol 32, Rhif 6, tud 975-997.
MAFF (March 2001) *Task Force for the Hills* (Mawrth 2001) Cadeirydd, David Arnold Foster, MAFF, Llundain (DEFRA erbyn hyn).
Land Use Consultants et al (2001), *Arallgyfeirio ar Ffermydd a'r System Gynllunio*, adroddiad ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Marsden T (2000) *Rural Sustainability*, TCPA, Llundain.
McNally S (2001) '*Farm diversification in England and Wales - what can we learn from the farm business survey?*' *Journal of Rural Studies*, 17, 2, tud 247-257

Midmore P (2001) 'Scenarios for the Rural Economy in Wales', *Paper for the Joint Institute of Welsh Affairs,* Fforwm Gwledig Cymru, seminar yr Ysgol Rheoli a Busnes, Adfywio'r Economi Wledig yng Nghymru, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 4 Medi.
Midmore P (2002) *The Aftermath of FMD: Prospects for Recovery of the Rural Economy of Wales*, Papur ar ran y BBC
Mills B (2000) 'Developments in the Concept of Indigeneity and the 'Virtual Employee-Quasi Product split', *Papur a gyflwynwyd i ROOTS 2000,* Coleg Gwy, Cynhadledd RICS.
Munday M a Roberts A (2001) 'The role of the forestry industry transactions in the rural economy', *Journal of Rural Studies*, 17, tud 333-346.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1997) *Strategaeth Economaidd i Gymru,* papur ymgynghori, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gorffennaf 1998) *Agenda Economaidd Newydd i Gymru,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999) *Gwell Cymru: papur ymgynghori,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (1999) *Arweiniad Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio Argraffiad Cyntaf,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000) *Y Cynllun Adfer Gwledig i Gymru 2000 – 2006,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) *Cynllun Adfer Gwledig*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Medi 2001) *Cynllun Gofodol Cymru - Llwybr tuag at Ddatblygiad Cynaliadwy,* Papur Ymgynghori, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Hydref 2001) *Y Fenter Pobl mewn Cymunedau: Gwerthusiad interim,* Y Gyfarwyddiaeth Dai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001) *Coetiroedd i Gymru,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2001) *Ffermio ar gyfer y Dyfodol: Cyfeiriad newydd i ffermio yng Nghymru,* adroddiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001), *Cymru'n Ennill: Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2001), *Cymru'n Ennill: Dadansoddiad Economaidd: Dadansoddiad o'r Economi yng Nghymru fel sail i'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (2001) *Arallgyfeirio'r Economi Wledig,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Mawrth 2002) *Polisi Cynllunio Cymru,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Dysgu (ELWa) (2002) *Cynllun Corfforaethol 2002 – 2005*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (2001) *Valuing Our Environment,* NT, Llundain.
Fforwm Economaidd Gogledd Cymru (Mawrth 2002), *Cynllun Gweithredu Adfer Gwledig*.
Roger Evans Associates et al (Rhagfyr 1997), *Astudiaeth Adfywio Llandeilo.* Cyngor Sir Caerfyrddin.
Y Bartneriaeth Wledig (1999) *Cymru Wledig: Datganiad gan y Bartneriaeth Wledig.*
Cyngor Sir Gwlad yr Haf (Mehefin 2001) *Somerset Foot and Mouth Disease Recovery Plan*, ail ddrafft, Cyngor Sir Gwlad yr Haf, Taunton.

Sefydliad Tavistock (2000) *Y Fenter Trefi Marchnad: Gwerthusiad ac Adroddiad Terfynol*, Awdurdod Datblygu Cymru, Y Drenewydd.
Prifysgol Cymru Bangor (2001) *Deinamegau Newid Demograffig a Mudo yng Ngogledd Orllewin Cymru,* Ynys Môn.
Fforwm Gwledig Cymru (2000) *Cymru Wledig 2000: y Ffordd Ymlaen*.
Bwrdd Croeso Cymru (2000) *Cyflawni ein Potensial,* Bwrdd Croeso Cymru, Caerdydd.
Awdurdod Datblygu Cymru (2000) *Hyrwyddo Llewyrch, Cynllun Corfforaethol* 2000-2003, Awdurdod Datblygu Cymru, Caerdydd.
Awdurdod Datblygu Cymru (2001) *Band Eang Hollbresennol i Gymru,* adroddiad gan Analysis Consulting Cyf, ar ran Awdurdod Datblygu Cymru, Caerdydd.
Awdurdod Datblygu Cymru (2001) *Economi Newydd i Gymru, Cynllun Corfforaethol Plan 2001-2004,* Awdurdod Datblygu Cymru, Caerdydd.
Awdurdod Datblygu Cymru (2001) *Busnesau Bach a Chanolig eu Maint yng Nghymru*, Awdurdod Datblygu Cymru, Caerdydd.
Awdurdod Datblygu Cymru (2001) *Y Ddarpariaeth Trafnidiaeth Gyhoeddus ym Mharc Busnes Llanelwy,* Awdurdod Datblygu Cymru, Caerdydd.
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Ebrill 2000) *Dogfen Rhaglennu Sengl Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2000-2006*, *Adfywiad Economaidd a Chymdeithasol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Mehefin 2001) *Dogfen Rhaglennu Sengl LEADER + i Gymru 2000-2006,* Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Hydref 2001) *Rhaglen Menter Gymunedol INTERREG IIIA Iwerddon/Cymru 2000-2006*, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Y Swyddfa Gymreig (1998) *Adolygiad o Raglen Cefnffyrdd Cymru - Gyrru Cymru Ymlaen*, Y Swyddfa Gymreig, Caerdydd.
WS Atkins Consultants Ltd et al (Hydref 2001) *Menter Dyffryn Tywi: Cynllun Gweithredu Terfynol*
Wynne Jones, A, Jenkins, D a Thomas, T (Mawrth 2001) *Ardal Twristiaeth Twf o Ddiddordeb Arbennig. Canolfannau Rhagoriaeth Gwynedd,* Partneriaeth Canolbarth Cymru.

# ATODIAD 1

# YMGYNGHOREION CENEDLAETHOL

**YMGYNGHOREION CENEDLAETHOL** **ATODIAD 1**

Asiantaeth yr Amgylchedd
Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)
Bwrdd Croeso Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Clybiau Ffermwyr Ifanc
Coed Cymru
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
Cymdeithas y Parciau Cenedlaethol
Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio (POS)
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor TECs Cymru
Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru
Fforwm Economaidd De Orllewin Cymru
Fforwm Economaidd Gogledd Cymru
Fforwm Gwledig Cymru
Grwpiau LEADER
LANTRA
Menter a Busnes
Partneriaeth Canolbarth Cymru
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS)
SUSTRANS
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (Cymru)
Y Comisiwn Coedwigaeth
Y Gymdeithas Coetiroedd Bach
Y Gymdeithas Frenhinol er Diogelu Adar (RSPB)
Y Gymdeithas Tirfeddianwyr a Busnes Gwledig
Y Sefydliad Cynllunio Trefi Brenhinol (Cymru)
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Yr Ymgyrch i Ddiogelu Cymru Wledig (CPRW)